# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

Mesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ynglŷn â statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru; i ddarparu ar gyfer Cyngor Partneriaeth y Gymraeg; i sefydlu Swydd Comisiynydd y Gymraeg; i ddarparu ar gyfer Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg; i wneud darpariaeth ynglŷn â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ac ynglŷn â pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; i wneud darpariaeth ynglŷn â safonau'n ymwneud â'r Gymraeg (gan gynnwys dyletswyddau i gydymffurfio â'r safonau hynny, a hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny); i wneud darpariaeth ynglŷn ag ymchwilio i ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg; i sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg; i ddiddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg a chynlluniau iaith Gymraeg; ac at ddibenion cysylltiedig.

**Mae'r Mesur hwn, a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 7 Rhagfyr 2010 ac a gymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn Ei Chyngor ar 9 Chwefror 2011, yn deddfu'r darpariaethau a ganlyn:—**

## RHAN 1

STATWS SWYDDOGOL Y GYMRAEG

### 1 Statws swyddogol y Gymraeg

(1) Mae statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.

(2) Heb ragfarnu egwyddor gyffredinol is-adran (1), rhoddir effaith gyfreithiol i statws swyddogol y Gymraeg drwy gyfrwng deddfiadau ynghylch y canlynol—

(a) dyletswyddau ar gyrff i ddefnyddio'r Gymraeg, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny, sy'n galluogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn ymwneud y cyrff hynny â hwy (megis darparu gwasanaethau gan y cyrff hynny);

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;

(c) dilysrwydd defnyddio'r Gymraeg;

(d) hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg;
(e) rhyddid personau sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg i wneud hynny gyda'i gilydd;
(f) creu swydd Comisiynydd y Gymraeg; ac
(g) materion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

(3) Mae'r deddfiadau hynny'n cynnwys deddfiadau sy'n gwneud y canlynol (ond nid ydynt wedi eu cyfyngu iddynt)—
(a) ei gwneud yn ofynnol i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal yn nhrafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
(b) rhoi hawl i siarad Cymraeg mewn achosion cyfreithiol yng Nghymru;
(c) rhoi statws cyfartal i destunau Cymraeg a Saesneg—
(i) Mesurau a Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a
(ii) is-ddeddfwriaeth;
(d) gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i fabwysiadu strategaeth sy'n nodi sut y maent yn bwriadu hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg;
(e) creu safonau ymddygiad sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg, neu â pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, mewn cysylltiad—
(i) â chyflenwi gwasanaethau,
(ii) â llunio polisi, a
(iii) ag arfer swyddogaethau neu gynnal busnesau neu ymgymeriadau eraill;
(f) creu safonau ymddygiad o ran hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg;
(g) creu safonau ymddygiad ar gyfer cadw cofnodion mewn cysylltiad â'r Gymraeg;
(h) gosod dyletswydd i gydymffurfio â'r safonau ymddygiad hynny sy'n cael eu creu, a chreu rhwymedïau am fethiannau i gydymffurfio â hwy; ac
(i) creu swydd Comisiynydd y Gymraeg a chanddi swyddogaethau sy'n cynnwys—
(i) hybu defnyddio'r Gymraeg,
(ii) hwyluso defnyddio'r Gymraeg,
(iii) gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg,
(iv) cynnal ymholiadau i faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiynydd, a
(v) ymchwilio i ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

(4) Nid yw'r Mesur hwn yn effeithio ar statws y Saesneg yng Nghymru.

# RHAN 2

## COMISIYNYDD Y GYMRAEG

*Y Comisiynydd*

### 2 Comisiynydd y Gymraeg

(1) Bydd yna Gomisiynydd y Gymraeg (y cyfeirir ato yn y Mesur hwn fel "y Comisiynydd").

(2) Rhaid i Brif Weinidog Cymru benodi'r Comisiynydd.

(3) Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth bellach ynglŷn â'r Comisiynydd.

(4) Am ddarpariaeth ynglŷn ag uniondeb cymeriad y Comisiynydd, gweler Pennod 1 o Ran 8.

*Dyletswydd gyffredinol*

### 3 Prif nod y Comisiynydd

(1) Prif nod y Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

(2) Mae'r camau y mae'n rhaid i'r Comisiynydd eu cymryd wrth arfer swyddogaethau yn unol ag is-adran (1) yn cynnwys gweithio tuag at gynyddu'r canlynol (ond nid ydynt wedi eu cyfyngu iddynt)—

(a) defnyddio'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau, a

(b) cyfleoedd eraill i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg.

(3) Wrth arfer swyddogaethau'n unol ag is-adran (1), rhaid i'r Comisiynydd roi sylw—

(a) i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru,

(b) i'r dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod (neu a all gael eu gosod) drwy gyfraith, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny,

(c) i'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru, a

(d) i'r egwyddor y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

*Swyddogaethau*

### 4 Hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

(1) Caiff y Comisiynydd wneud unrhyw beth sy'n briodol yn ei dyb ef—

(a) er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg,

(b) er mwyn hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu

(c) er mwyn gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

(2) Mae hynny'n cynnwys gwneud unrhyw un neu ragor o'r pethau canlynol, ond nid yw wedi ei gyfyngu i hynny—

(a) hybu darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg;
(b) annog arferion gorau o ran defnyddio'r Gymraeg gan bersonau sy'n delio â phersonau eraill, neu sy'n darparu gwasanaethau i bersonau eraill;
(c) cadw digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n ymwneud â'r Gymraeg o dan arolygiaeth;
(d) llunio a chyhoeddi adroddiadau;
(e) gwneud gwaith ymchwil neu gomisiynu eraill i'w wneud;
(f) gwneud gweithgareddau addysgol neu gomisiynu eraill i'w gwneud;
(g) rhoi cymorth (gan gynnwys cymorth ariannol) i unrhyw berson;
(h) gwneud argymhellion ysgrifenedig i Weinidogion Cymru;
(i) cyflwyno sylwadau i unrhyw berson;
(j) rhoi cyngor i unrhyw berson.

(3) Os yw'r Comisiynydd yn gwneud argymhelliad ysgrifenedig neu'n cyflwyno sylw ysgrifenedig, neu'n rhoi cyngor ysgrifenedig i Weinidogion Cymru, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyladwy i'r argymhelliad, y sylw neu i'r cyngor wrth arfer unrhyw swyddogaeth y mae'n ymwneud â hi.

(4) Mae pŵer y Comisiynydd o dan is-adran (2)(g) i roi cymorth ariannol yn ddarostyngedig i adran 11(4).

(5) Caniateir arfer pwerau'r Comisiynydd o dan is-adran (2)(h) i (j) i wneud argymhellion neu gyflwyno sylwadau neu i roi cyngor i berson (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) p'un a wnaeth y person hwnnw gais i'r Comisiynydd arfer y pwerau ai peidio.

(6) Caiff y Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori mewn cysylltiad ag arfer swyddogaeth a roddir gan yr adran hon.

**5 Cynhyrchu adroddiadau 5-mlynedd**

(1) Rhaid i'r Comisiynydd, mewn perthynas â phob cyfnod adrodd, lunio adroddiad 5-mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg yn y cyfnod hwnnw.

(2) Yn y Mesur hwn, cyfeirir at adroddiad o'r fath fel "adroddiad 5-mlynedd".

(3) Os yr adroddiad cyntaf o'i fath i gael ei lunio ar ôl cyfrifiad yw adroddiad 5-mlynedd, rhaid iddo gynnwys y materion a ganlyn—

(a) adroddiad ar ganlyniadau'r cyfrifiad i'r graddau y maent yn ymwneud â'r Gymraeg;
(b) asesiad o oblygiadau'r canlyniadau hynny i sefyllfa'r Gymraeg.

(4) Nid yw is-adran (3) yn cyfyngu ar y materion y caiff y Comisiynydd eu cynnwys mewn unrhyw adroddiad 5-mlynedd.

(5) Yn yr adran hon—

ystyr "cyfnod adrodd" ("*reporting period*") yw—

(a) y cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad y daw adran 2 i rym ac sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2015; a
(b) pob cyfnod olynol o 5 mlynedd;

ystyr "cyfrifiad" ("*census*") yw cyfrifiad a wnaed o dan Ddeddf Cyfrifiad 1920 yng Nghymru (p'un a wnaed y cyfrifiad hefyd mewn man heblaw Cymru ai peidio).

**6 Adroddiadau 5-mlynedd: atodol**

(1) Wrth baratoi pob adroddiad 5-mlynedd—

(a) rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori, a

(b) caiff y Comisiynydd ymgynghori ag unrhyw bersonau eraill y mae'n briodol ymgynghori â hwy yn ei dyb ef.

(2) Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi pob adroddiad 5-mlynedd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

(3) Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi pob adroddiad 5-mlynedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r cyfnod y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef ddod i ben.

(4) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cyhoeddi pob adroddiad 5-mlynedd, rhaid i'r Comisiynydd anfon copi o'r adroddiad at Weinidogion Cymru.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) archwilio pob adroddiad 5-mlynedd a gyflwynir iddynt, a

(b) gosod copi o'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**7 Ymholiadau**

(1) Caiff y Comisiynydd gynnal ymholiad i unrhyw fater sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Comisiynydd.

(2) Ond mae hynny'n ddarostyngedig i is-adrannau (3) i (5).

(3) Nid yw is-adran (1) yn awdurdodi'r Comisiynydd i gynnal ymholiad mewn achos—

(a) lle y caiff y Comisiynydd, neu lle y mae'n rhaid iddo, gynnal ymchwiliad safonau o dan Bennod 8 o Ran 4, neu

(b) lle y mae'r Comisiynydd yn ymgymryd ag ymchwiliad o dan Ran 5 (nad yw'n ei derfynu).

(4) Nid yw is-adran (1) yn awdurdodi'r Comisiynydd i gynnal ymholiad i'r methiant, gan un neu ragor o bersonau penodol, i gydymffurfio ag un gofyniad perthnasol neu ragor.

(5) Nid yw is-adran (1) yn awdurdodi'r Comisiynydd i gynnal ymholiad i'r ymyrraeth, gan un neu ragor o bersonau penodol, â'r rhyddid i gyfathrebu yn Gymraeg (ond gweler Rhan 6 am bŵer i ymchwilio i ymyrraeth benodol â'r rhyddid hwnnw).

(6) Nid yw is-adran (4) neu (5) yn atal y Comisiynydd rhag ystyried ymddygiad un neu ragor o bersonau penodol pan fydd yn cynnal ymchwiliad—

(a) i fethiant i gydymffurfio â gofynion perthnasol, neu

(b) i ymyrraeth â'r rhyddid i gyfathrebu yn Gymraeg.

(7) Caiff y Comisiynydd—

(a) terfynu, neu

(b) atal,

ymholiad, neu unrhyw agwedd ar ymholiad.

(8) Os bydd y Comisiynydd yn ystod ymholiad yn dechrau amau y gall person fod wedi methu â chydymffurfio ag un gofyniad perthnasol neu ragor—

(a) wrth iddo barhau â'r ymholiad, rhaid i'r Comisiynydd, i'r graddau y bo'n bosibl, osgoi ystyried ymhellach a yw'r person wedi methu â chydymffurfio â'r gofynion ai peidio,

(b) caiff y Comisiynydd gychwyn ymchwiliad i'r cwestiwn hwnnw o dan Ran 5, ac

(c) caiff y Comisiynydd ddefnyddio gwybodaeth neu dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr ymholiad at ddibenion yr ymchwiliad.

(9) Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth atodol ynglŷn ag ymholiadau.

(10) Yn yr adran hon mae i gyfeiriad at fethiant i gydymffurfio ag un gofyniad perthnasol neu ragor yr un ystyr ag yn Rhan 5.

## 8 Adolygiad barnwrol ac achosion cyfreithiol eraill

(1) Caiff y Comisiynydd gychwyn achos cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr, neu ymyrryd mewn achos o'r fath, os yw'n ymddangos i'r Comisiynydd fod yr achos yn un sy'n berthnasol i fater y mae gan y Comisiynydd swyddogaeth mewn cysylltiad ag ef.

(2) O ran is-adran (1)—

(a) nid yw'n creu sail i achos, a

(b) mae yn ddarostyngedig i unrhyw derfyn neu gyfyngiad a osodir yn rhinwedd deddfiad neu yn unol ag ymarferiad llys.

(3) Yn yr adran hon, mae'r ymadrodd “achos cyfreithiol” yn cynnwys achosion gerbron unrhyw lys neu dribiwnlys, ond nid yw wedi ei gyfyngu i hynny.

## 9 Cymorth cyfreithiol

(1) Caiff y Comisiynydd ddarparu cymorth i unigolyn os yw'r person hwnnw yn barti, neu os gall y person hwnnw ddod yn barti, i achos cyfreithiol gwirioneddol neu achos cyfreithiol posibl yng Nghymru a Lloegr sy'n berthnasol i fater y mae gan y Comisiynydd swyddogaeth mewn cysylltiad ag ef.

(2) Nid yw'r adran hon yn effeithio ar unrhyw gyfyngiad a osodir mewn cysylltiad â chynrychiolaeth—

(a) yn rhinwedd deddfiad, neu

(b) yn unol ag ymarferiad llys neu dribiwnlys.

(3) Y Comisiynydd sydd i ddyfarnu, at ddibenion yr adran hon, a oes achos cyfreithiol posibl sy'n berthnasol i fater y mae gan y Comisiynydd swyddogaeth mewn cysylltiad ag ef.

(4) Yn yr adran hon—

mae “achos cyfreithiol” (“*legal proceedings*”) yn cynnwys achos gerbron unrhyw lys neu dribiwnlys, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny;

mae “cymorth” (“*assistance*”) yn cynnwys y pethau a ganlyn, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt—

(a) cyngor cyfreithiol;

(b) cynrychiolaeth gyfreithiol;

(c) cyfleusterau i setlo anghydfod.

**10 Cymorth cyfreithiol: costau**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) os yw'r Comisiynydd wedi cynorthwyo unigolyn o dan adran 9 mewn perthynas ag achos, a

(b) os bydd yr unigolyn hwnnw'n ennill yr hawl i gael rhywfaint neu'r cyfan o'i gostau yn yr achos (boed yn rhinwedd dyfarniad neu yn rhinwedd cytundeb).

(2) O ran treuliau'r Comisiynydd wrth ddarparu'r cymorth—

(a) cânt eu codi ar symiau a delir i'r unigolyn ar ffurf costau, a

(b) gellir eu gorfodi fel dyled sy'n ddyladwy i'r Comisiynydd.

(3) Mae gofyniad i dalu arian i'r Comisiynydd o dan is-adran (2) yn dod islaw gofyniad a osodir yn rhinwedd adran 11(4)(f) o Ddeddf Mynediad at Gyfiawnder 1999 (adennill costau mewn achosion a gyllidir).

(4) At ddibenion is-adran (2), mae treuliau'r Comisiynydd i'w cyfrifo'n unol â darpariaeth a wneir (os o gwbl) gan Weinidogion Cymru at y diben hwnnw drwy reoliadau.

(5) Caiff rheoliadau a wneir o dan is-adran (4) ddarparu, ymhlith pethau eraill, ar gyfer dyrannu gwariant a dynnir gan y Comisiynydd—

(a) yn rhannol at un diben ac yn rhannol at ddiben arall, neu

(b) at ddibenion cyffredinol.

**11 Pwerau**

(1) Caiff y Comisiynydd wneud unrhyw beth sy'n briodol yn ei dyb ef mewn cysylltiad ag unrhyw un o'i swyddogaethau.

(2) Mae hynny'n cynnwys gwneud unrhyw un neu ragor o'r canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt—

(a) rhoi grantiau a benthyciadau a rhoi gwarantau;

(b) codi ffi am roi cyngor neu am wasanaethau eraill;

(c) talu trydydd partïon am roi cyngor neu am wasanaethau eraill;

(d) derbyn rhoddion ar ffurf arian neu eiddo arall;

(e) caffael neu waredu unrhyw eiddo neu hawl.

(3) Mae is-adran (2) yn ddarostyngedig i is-adrannau (4) i (6).

(4) Rhaid i'r Comisiynydd beidio—

(a) â rhoi grant neu fenthyciad,

(b) â rhoi gwarant, neu

(c) â chaffael neu waredu unrhyw fuddiant mewn tir,

ac eithrio gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

(5) Nid yw is-adran (4) yn gymwys i unrhyw beth a wneir o dan adran 9.

(6) Mae pŵer y Comisiynydd i godi ffi am roi cyngor neu am wasanaethau yn gyfyngedig i godi'r symiau sy'n briodol yn nhyb y Comisiynydd i adennill y gost wirioneddol neu amcangyfrif o'r gost a dynnir gan y Comisiynydd wrth roi'r cyngor hwnnw neu wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

## 12 Staff

(1) O ran y Comisiynydd—

(a) rhaid iddo benodi person yn Ddirprwy Gomisiynydd y Gymraeg (y cyfeirir ato yn y Mesur hwn fel "y Dirprwy Gomisiynydd"), a

(b) caiff benodi staff arall sy'n briodol yn ei dyb ef mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Mesur hwn at staff y Comisiynydd yn gyfeiriadau at y Dirprwy Gomisiynydd a staff arall.

(3) Caiff y Comisiynydd dalu tâl cydnabyddiaeth i aelodau o staff y Comisiynydd.

(4) Caiff y Comisiynydd dalu lwfansau (gan gynnwys lwfansau teithio a chynhaliaeth, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) ac arian rhodd i aelodau o staff y Comisiynydd.

(5) Caiff y Comisiynydd dalu—

(a) pensiynau i bersonau a fu'n aelodau o staff y Comisiynydd, neu mewn cysylltiad â hwy, a

(b) symiau ar gyfer darparu pensiynau, neu tuag at ddarparu pensiynau, i bersonau a fu'n aelodau o staff y Comisiynydd, neu mewn cysylltiad â hwy.

(6) Rhaid i'r Comisiynydd gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer—

(a) nifer y staff y caniateir eu penodi,

(b) telerau ac amodau gwasanaeth y staff, ac

(c) taliadau a wneir o dan unrhyw un neu ragor o is-adrannau (3) i (5).

(7) Rhaid i Brif Weinidog Cymru benodi'r Dirprwy Gomisiynydd—

(a) os yw swydd y Comisiynydd yn wag, neu

(b) os yw'n ymddangos i Brif Weinidog Cymru y bydd y Comisiynydd yn methu â phenodi'r Dirprwy Gomisiynydd yn unol â'r adran hon.

(8) Am ddarpariaeth ynglŷn ag uniondeb cymeriad y Dirprwy Gomisiynydd gweler Pennod 1 o Ran 8.

## 13 Arfer swyddogaethau'r Comisiynydd gan staff

(1) Caiff y Comisiynydd ddirprwyo unrhyw un neu ragor neu'r oll o swyddogaethau'r Comisiynydd i aelod o staff y Comisiynydd.

(2) Mae swyddogaethau'r Comisiynydd yn arferadwy gan y Dirprwy Gomisiynydd—

(a) os yw swydd y Comisiynydd yn wag, neu

(b) os yw'n ymddangos i Brif Weinidog Cymru nad yw'r Comisiynydd am unrhyw reswm yn gallu arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

(3) Os oes un o swyddogaethau'r Comisiynydd yn arferadwy gan aelod o staff y Comisiynydd yn unol ag is-adran (1) neu (2) caiff yr aelod staff, wrth arfer y swyddogaeth, ddelio ag unrhyw eiddo neu hawliau sydd wedi eu breinio yn y Comisiynydd fel pe byddent wedi eu breinio yn yr aelod staff.

### 14 Y weithdrefn gwyno

(1) Rhaid i'r Comisiynydd sefydlu gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion ynglŷn â gweithredoedd neu anweithiau'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd ("y weithdrefn gwyno").

(2) Rhaid i'r weithdrefn gwyno gynnwys darpariaeth ynghylch—

- (a) ym mha fodd y gellir gwneud cwyn;
- (b) y person y gellir cwyno wrtho;
- (c) y cyfnod a ganiateir ar gyfer dechrau a gorffen ystyried cwyn; a
- (d) y camau y mae'n rhaid i'r Comisiynydd ystyried eu cymryd wrth ymateb i gŵyn.

(3) Caiff y Comisiynydd ddiwygio'r weithdrefn gwyno.

(4) Rhaid i'r Comisiynydd—

- (a) sicrhau bod copi o'r weithdrefn gwyno ar gael i'w archwilio yn swyddfa'r Comisiynydd, a
- (b) sicrhau y perir bod copïau o'r weithdrefn gwyno ar gael mewn mannau eraill a thrwy ddulliau eraill (gan gynnwys dulliau electronig) sy'n briodol yn nhyb y Comisiynydd.

(5) Rhaid i'r Comisiynydd sicrhau bod y trefniadau ar gyfer archwilio a chael at gopïau o'r weithdrefn gwyno yn cael eu cyhoeddi mewn modd sy'n dwyn y trefniadau hynny i sylw personau sy'n debygol yn nhyb y Comisiynydd o fod yn bersonau a chanddynt fuddiant yn y weithdrefn.

### 15 Y sêl a dilysrwydd dogfennau

(1) Caniateir i'r Comisiynydd gael sêl.

(2) Mae dogfen—

- (a) yr honnir ei bod wedi ei chyflawni'n briodol o dan sêl y Comisiynydd, neu
- (b) yr honnir ei bod wedi ei llofnodi gan neu ar ran y Comisiynydd,

i gael ei derbyn yn dystiolaeth ac, oni phrofir i'r gwrthwyneb, rhaid cymryd ei bod wedi ei chyflawni neu wedi ei llofnodi felly.

### 16 Pŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd

(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i'r Comisiynydd.

(2) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiynydd mewn perthynas â'r materion canlynol—

- (a) rhoi hysbysiad cydymffurfio i berson o dan Bennod 6 o Ran 4 (gan gynnwys cynnwys hysbysiad cydymffurfio sydd i'w roi i berson);
- (b) Rhan 5 (gorfodi safonau);
- (c) Rhan 6 (rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg).

(3) Rhaid i'r Comisiynydd gydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru.

### 17 Ymgynghori

Os bydd y Comisiynydd, mewn cysylltiad ag arfer swyddogaeth, yn ymgynghori —

(a) â'r Panel Cynghori, neu

(b) ag unrhyw berson arall yn unol â'r Mesur hwn,

rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r ymgynghoriad wrth arfer y swyddogaeth.

*Adroddiadau blynyddol*

### 18 Adroddiadau blynyddol

(1) Rhaid i'r Comisiynydd lunio adroddiad mewn perthynas â phob un o flynyddoedd ariannol y Comisiynydd ("adroddiad blynyddol").

(2) Rhaid i adroddiad blynyddol gynnwys y materion a ganlyn—

(a) crynodeb o'r camau a gymerwyd wrth arfer swyddogaethau'r Comisiynydd;

(b) adolygiad o faterion sy'n berthnasol i'r Gymraeg;

(c) crynodeb o raglen waith y Comisiynydd;

(d) cynigion y Comisiynydd ar gyfer rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol;

(e) crynodeb o'r cwynion a wnaed yn unol â'r weithdrefn a sefydlwyd o dan adran 14.

(3) Caiff adroddiad blynyddol hefyd gynnwys unrhyw faterion eraill y mae'n briodol eu cynnwys yn yr adroddiad yn nhyb y Comisiynydd.

(4) Am ddarpariaeth ynghylch blwyddyn ariannol y Comisiynydd, gweler paragraff 15 o Atodlen 1.

### 19 Adroddiadau blynyddol: atodol

(1) Wrth baratoi pob adroddiad blynyddol, caiff y Comisiynydd ymgynghori—

(a) â'r Panel Cynghori, a

(b) ag unrhyw bersonau eraill y mae'n briodol ymgynghori â hwy yn nhyb y Comisiynydd.

(2) Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi pob adroddiad blynyddol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

(3) Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi pob adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 31 Awst yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

(4) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cyhoeddi pob adroddiad blynyddol, rhaid i'r Comisiynydd anfon copi o'r adroddiad at Weinidogion Cymru.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) archwilio pob adroddiad blynyddol a gyflwynir iddynt, a

(b) gosod copi o'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### *Gweithio gydag ombwdsmyn eraill, comisiynwyr eraill etc*

## 20 Gweithio ar y cyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'n ymddangos i'r Comisiynydd y gallai pwnc ymchwiliad penodol i orfodi safonau ("ymchwiliad y Comisiynydd") hefyd fod yn destun ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

(2) Os yw'r Comisiynydd o'r farn fod hynny'n briodol, rhaid iddo—
- (a) hysbysu'r Ombwdsmon ynglŷn ag ymchwiliad y Comisiynydd (gan gynnwys cynigion y Comisiynydd ar gyfer ymgymryd â'r ymchwiliad), a
- (b) ymgynghori â'r Ombwdsmon mewn perthynas ag ymchwiliad y Comisiynydd.

(3) Os yw'r Comisiynydd yn ymgynghori â'r Ombwdsmon mewn perthynas ag ymchwiliad y Comisiynydd, caiff y Comisiynydd a'r Ombwdsmon wneud unrhyw un neu ragor neu'r oll o'r canlynol—
- (a) cydweithredu â'i gilydd mewn perthynas â'r ymchwiliad;
- (b) cynnal ymchwiliad ar y cyd;
- (c) paratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cyd mewn perthynas â'r ymchwiliad.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn—
- (a) darparu i'r adran hon fod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw berson arall fel y mae'n gymwys mewn perthynas ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a
- (b) gwneud darpariaeth arall sy'n briodol yn nhyb Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â, at ddibenion, neu o ganlyniad i ddarpariaeth a wneir o dan baragraff (a).

(5) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan is-adran (4) yn cynnwys y canlynol, ond nid yw wedi ei chyfyngu i hynny—
- (a) darpariaeth yn galluogi'r person arall i weithio, neu'n ei gwneud yn ofynnol i'r person arall weithio, ar y cyd â'r Comisiynydd; a
- (b) diwygiadau i unrhyw ddeddfiad.

(6) Cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (4), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiynydd ac ag unrhyw bersonau eraill y mae'n briodol ymgynghori â hwy yn nhyb Gweinidogion Cymru.

(7) Yn yr adran hon—

mae "ymchwiliad" ("*investigation*"), mewn perthynas ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn cynnwys archwiliad ac ymholiad, ac mae ymadroddion cytras i'w dehongli'n unol â hynny;

ystyr "ymchwiliad i orfodi safonau" ("*standards enforcement investigation*") yw ymchwiliad y mae gan y Comisiynydd yr hawl i ymgymryd ag ef, neu ymchwiliad y mae'n ymgymryd ag ef, o dan adran 71.

## 21 Gweithio'n gyfochrog ag ombwdsmyn, comisiynwyr etc

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'n ymddangos i'r Comisiynydd fod pwnc ymchwiliad i orfodi safonau ("ymchwiliad y Comisiynydd") yn bwnc sy'n ymwneud â mater a allai fod yn destun ymchwiliad gan ombwdsmon penodol, neu sy'n codi mater felly ("y mater cysylltiedig").

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(2) Os yw'r Comisiynydd o'r farn bod hynny'n briodol, rhaid iddo hysbysu'r ombwdsmon ynglŷn â'r mater cysylltiedig.

(3) Os yw'r Comisiynydd yn ymgymryd ag ymchwiliad y Comisiynydd, rhaid i'r Comisiynydd, os yw o'r farn bod hynny'n briodol—

- (a) hysbysu'r ombwdsmon ynglŷn â'r ymchwiliad (gan gynnwys ynglŷn â chynigion y Comisiynydd ar gyfer ymgymryd â'r ymchwiliad), a
- (b) ymgynghori â'r ombwdsmon mewn perthynas â'r ymchwiliad.

(4) Os yw'r Comisiynydd yn ymgymryd ag ymchwiliad y Comisiynydd, a'r ombwdsmon yn ymchwilio i'r mater cysylltiedig, cânt wneud unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

- (a) cydweithredu â'i gilydd mewn perthynas â'u gwahanol ymchwiliadau;
- (b) cynnal ymchwiliad ar y cyd;
- (c) paratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cyd mewn perthynas â'u gwahanol ymchwiliadau neu â'u hymchwiliad ar y cyd.

(5) Os na fydd y Comisiynydd yn ymgymryd ag ymchwiliad y Comisiynydd, rhaid i'r Comisiynydd, os yw o'r farn bod hynny'n briodol—

- (a) rhoi i'r person sydd am ddwyn yr achos wybodaeth ynglŷn â sut i gyfeirio'r mater cysylltiedig at yr ombwdsmon, a
- (b) rhoi'r wybodaeth honno i unrhyw berson arall a chanddo fuddiant yn yr achos.

(6) Yn yr adran hon—

ystyr “ombwdsmon” (“*ombudsman*”) yw—

- (a) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru,
- (b) Comisiynydd Plant Cymru,
- (c) Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a
- (d) y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;

mae “ymchwiliad” (“*investigation*”), mewn perthynas ag ombwdsmon, yn cynnwys archwiliad ac ymholiad, ac mae ymadroddion cytras i'w dehongli'n unol â hynny;

ystyr “ymchwiliad i orfodi safonau” (“*standards enforcement investigation*”) yw ymchwiliad y mae gan y Comisiynydd yr hawl i'w gynnal, neu ymchwiliad y mae'n ei gynnal, o dan adran 71.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio'r diffiniad o “ombwdsmon” yn is-adran (6)—

- (a) drwy ychwanegu person;
- (b) drwy hepgor person;
- (c) drwy newid disgrifiad o berson.

(8) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud unrhyw ddarpariaeth arall sy'n briodol yn nhyb Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â, at ddibenion, neu o ganlyniad i ddarpariaeth a wneir o dan is-adran (7), gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig—

- (a) i ddarpariaeth sy'n galluogi'r person arall i weithio gyda'r Comisiynydd, neu'n ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny, a
- (b) i ddiwygiadau i unrhyw ddeddfiad.

(9) Cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (7), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r person dan sylw ac ag unrhyw bersonau eraill y mae'n briodol ymgynghori â hwy yn nhyb Gweinidogion Cymru.

(10) Mae Atodlen 3 yn cynnwys diwygiadau ynghylch Comisiynwyr ac Ombwdsmyn eraill yn gweithio ar y cyd ac yn gweithio'n gyfochrog â Chomisiynydd y Gymraeg.

*Datgelu gwybodaeth*

## 22 Y pŵer i ddatgelu gwybodaeth

(1) Rhaid peidio â datgelu gwybodaeth y mae'r Comisiynydd wedi ei chael wrth arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Comisiynydd onid awdurdodir y datgeliad gan is-adran (2).

(2) Caiff y Comisiynydd ddatgelu'r wybodaeth—
- (a) at ddibenion arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Comisiynydd;
- (b) at ddibenion achos am dramgwydd o dyngu anudon yr honnir i'r tramgwydd gael ei gyflawni yn ystod ymchwiliad i orfodi safonau;
- (c) at ddibenion ymholiad gyda golwg ar gychwyn achos fel a grybwyllir ym mharagraff (b);
- (d) at ddibenion dyroddi tystysgrif o dan adran 107 (rhwystro a dirmygu);
- (e) os yw'r wybodaeth i'r perwyl bod person yn debygol o fod yn fygythiad i iechyd neu ddiogelwch un neu ragor o bersonau a bod y datgeliad yn ddatgeliad i berson sydd ym marn y Comisiynydd yn berson y dylid datgelu'r wybodaeth iddo er budd y cyhoedd;
- (f) os gwybodaeth o'r math a grybwyllir yn is-adran (3) yw'r wybodaeth, ac os gwneir y datgeliad i'r Comisiynydd Gwybodaeth;
- (g) os gwneir y datgeliad i berson a ganiatawyd, a bod y Comisiynydd yn fodlon bod amod budd y cyhoedd wedi ei fodloni;
- (h) os cafwyd yr wybodaeth gan y Comisiynydd dros 70 o flynyddoedd cyn dyddiad y datgelu, ac os datgeliad ydyw i berson sydd ym marn y Comisiynydd yn berson y dylid datgelu'r wybodaeth iddo er budd y cyhoedd.

(3) Gwybodaeth yw'r wybodaeth y cyfeirir ati yn is-adran (2)(f) yr ymddengys i'r Comisiynydd ei bod yn ymwneud—
- (a) â mater y gallai'r Comisiynydd Gwybodaeth arfer pŵer mewn perthynas ag ef ac a roddir mewn deddfiad a grybwyllir yn is-adran (4); neu
- (b) â chyflawni tramgwydd a grybwyllir yn is-adran (5).

(4) Y deddfiadau y cyfeirir atynt yn is-adran (3)(a) yw—
- (a) Rhan 5 o Ddeddf Diogelu Data 1998 (gorfodi);
- (b) adran 48 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (argymhellion arfer); ac
- (c) Rhan 4 o'r Ddeddf honno (gorfodi).

(5) Y tramgwyddau y cyfeirir atynt yn is-adran (3)(b) yw'r rhai—
- (a) o dan unrhyw ddarpariaeth yn Neddf Diogelu Data 1998 ac eithrio paragraff 12 o Atodlen 9 i'r Ddeddf honno (rhwystro gweithredu gwarant); neu
- (b) o dan adran 77 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y tramgwydd o altro etc cofnodion gyda'r bwriad o atal datgelu).

(6) At ddibenion is-adran (2)(g), mae amod budd y cyhoedd wedi ei fodloni os yw'r datgeliad—
  (a) yn briodol at ddiben arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r person a ganiatawyd gan y person hwnnw, a
  (b) er budd y cyhoedd.

(7) Wrth ddyfarnu at ddibenion yr adran hon a yw datgelu gwybodaeth er budd y cyhoedd, rhaid i'r Comisiynydd ystyried buddiannau—
  (a) unrhyw berson y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef; a
  (b) unrhyw bersonau eraill sy'n briodol yn nhyb y Comisiynydd.

(8) Nid yw'r adran hon yn effeithio ar gymhwyso Deddf Diogelu Data 1998 i'r Comisiynydd.

(9) Yn yr adran hon—

ystyr "person a ganiatawyd" ("*permitted person*") yw—
  (a) Gweinidogion Cymru;
  (b) Prif Weinidog Cymru;
  (c) Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru;
  (d) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
  (e) Comisiynydd Plant Cymru;
  (f) y Comisiynydd Plant;
  (g) y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;
  (h) Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon;
  (i) Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru;
  (j) ombwdsmon tai a benodwyd yn unol â chynllun o dan adran 51 o Ddeddf Tai 1996;
  (k) cyngor ar gyfer sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru;
  (l) cyngor ar gyfer sir neu ddosbarth yn Lloegr;
  (m) cyngor ar gyfer un o fwrdeistrefi Llundain;
  (n) prif gwnstabl o'r heddlu ar gyfer ardal heddlu;
  (o) prif gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydain;

ystyr "ymchwiliad i orfodi safonau" ("*standards enforcement investigation*") yw ymchwiliad a wneir gan y Comisiynydd o dan adran 71.

(10) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn ddiwygio'r diffiniad o "person a ganiatawyd" yn is-adran (9)—
  (a) drwy ychwanegu person;
  (b) drwy hepgor person;
  (c) drwy newid disgrifiad o berson.

(11) Cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (10), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r person o dan sylw ac ag unrhyw bersonau eraill y mae'n briodol ymgynghori â hwy yn nhyb Gweinidogion Cymru.

## RHAN 3

PANEL CYNGHORI COMISIYNYDD Y GYMRAEG

### 23 Y Panel Cynghori

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi personau i fod yn aelodau o banel o gynghorwyr i'r Comisiynydd.

(2) Mae'r panel i'w alw'n Banel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg (y cyfeirir ato yn y Mesur hwn fel y "Panel Cynghori").

(3) I'r graddau y bo hynny'n ymarferol, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod o leiaf 3 ond nid mwy na 5 o aelodau ar y Panel Cynghori ar unrhyw adeg.

(4) Mae Atodlen 4 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch aelodau'r Panel Cynghori.

### 24 Ymgynghori

(1) Caiff y Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori ynghylch unrhyw fater.

(2) Nid yw darpariaethau eraill y Mesur hwn sy'n darparu i'r Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori yn cyfyngu ar is-adran (1).

(3) Mae cyfeiriadau yn y Mesur hwn at ymgynghori â'r Panel Cynghori yn gyfeiriadau at ymgynghori ag unrhyw un neu ragor neu'r oll o aelodau'r Panel.

## RHAN 4

SAFONAU

## PENNOD 1

DYLETSWYDD I GYDYMFFURFIO Â SAFONAU

### 25 Dyletswydd i gydymffurfio â safon

(1) Rhaid i berson (P) gydymffurfio â safon ymddygiad a bennir gan Weinidogion Cymru yn unol â Phennod 2 os bodlonir, a thra bodlonir, yr amodau canlynol.

(2) Amod 1 yw bod P yn agored i orfod cydymffurfio â safonau (gweler Pennod 3).

(3) Amod 2 yw bod y safon yn gymwysadwy i P (gweler Pennod 4).

(4) Amod 3 yw bod y safon yn benodol gymwys i P (gweler Pennod 5).

(5) Amod 4 yw bod y Comisiynydd wedi rhoi hysbysiad cydymffurfio i P (gweler Pennod 6).

(6) Amod 5 yw bod yr hysbysiad cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i P gydymffurfio â'r safon (gweler Pennod 6).

(7) Amod 6 yw bod yr hysbysiad cydymffurfio mewn grym (gweler Pennod 6).

(8) Mae is-adran (1) yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r hysbysiad cydymffurfio a roddir i P.

(9) Am ddarpariaeth—

(a) ynglŷn â'r hawl i herio mewn cysylltiad â'r ddyletswydd i gydymffurfio â safonau, gweler Pennod 7;

(b) ynglŷn ag ymchwiliadau ac adroddiadau safonau, gweler Pennod 8;

(c) ynglŷn â materion cyffredinol, gweler Pennod 9.

## PENNOD 2

## SAFONAU A PHENNU SAFONAU

*Pennu safonau*

### 26 Gweinidogion Cymru i bennu safonau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau—

(a) pennu un neu ragor o safonau cyflenwi gwasanaethau,

(b) pennu un neu ragor o safonau llunio polisi,

(c) pennu un neu ragor o safonau gweithredu,

(d) pennu un neu ragor o safonau hybu, ac

(e) pennu un neu ragor o safonau cadw cofnodion.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth arall ynghylch y safonau hynny.

### 27 Pennu safonau: darpariaeth atodol

(1) Dim ond os ymddengys i Weinidogion Cymru y byddai'r safon yn gwneud y canlynol y caiff Gweinidogion Cymru bennu safon cadw cofnodion sy'n ymwneud â chadw cofnodion sy'n dod o fewn adran 32(1)(b)(ii) (cwynion yn ymwneud â'r Gymraeg, ac eithrio cwynion yn ymwneud â chydymffurfedd person â safonau eraill)—

(a) cynorthwyo Gweinidogion Cymru i arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Mesur hwn, neu

(b) cynorthwyo'r Comisiynydd i arfer unrhyw swyddogaeth.

(2) Caiff rheoliadau o dan unrhyw un neu ragor o baragraffau (a) i (e) o adran 26(1) bennu gwahanol safonau o'r math y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw mewn perthynas ag ymddygiad gwahanol.

(3) Caiff rheoliadau o dan unrhyw un neu ragor o baragraffau (a) i (e) o adran 26(1) bennu, mewn perthynas ag ymddygiad penodol—

(a) un safon o'r math y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw, neu

(b) nifer o safonau o'r math y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw.

(4) Caiff safonau a bennir o dan adran 26(1), neu reoliadau o dan adran 26(2), ymdrin, ymhlith pethau eraill, ag unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) llunio gan bersonau sydd o dan y ddyletswydd yn adran 25 i gydymffurfio â safonau, strategaethau neu gynlluniau'n nodi sut y maent yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau;
(b) gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan bersonau sydd o dan y ddyletswydd yn adran 25 i gydymffurfio â safonau;
(c) casglu gwybodaeth gan bersonau sydd o dan y ddyletswydd yn adran 25 i gydymffurfio â safonau, gan gynnwys gwybodaeth am ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg mewn perthynas ag ymddygiad penodol;
(d) gwybodaeth y mae'n rhaid trefnu iddi fod ar gael i'r Comisiynydd;
(e) trefniadau monitro a gofynion cyhoeddusrwydd;
(f) gofynion adrodd.

*Safonau cyflenwi gwasanaethau*

## 28 Safonau cyflenwi gwasanaethau

(1) Yn y Mesur hwn ystyr "safon cyflenwi gwasanaethau" yw safon—
(a) sy'n ymwneud â gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau, a
(b) y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, pan gyflawnir y gweithgaredd hwnnw.

(2) Yn yr adran hon ystyr "gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau" yw—
(a) cyflenwi gwasanaethau gan berson i berson arall, neu
(b) delio gan berson ag unrhyw berson arall mewn cysylltiad â chyflenwi gwasanaethau—
(i) i'r person arall hwnnw, neu
(ii) i drydydd person.

*Safonau llunio polisi*

## 29 Safonau llunio polisi

(1) Yn y Mesur hwn ystyr "safon llunio polisi" yw safon—
(a) sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, a
(b) y bwriedir iddo sicrhau, neu gyfrannu at sicrhau, un neu ragor o'r canlyniadau a ganlyn.

(2) Y cyntaf o'r canlyniadau hynny yw bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl, (a ph'un ai yw'r effeithiau'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael—
(a) ar gyfleoedd i bersonau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg, neu
(b) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

(3) Yr ail o'r canlyniadau hynny yw bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif—
(a) ar gyfleoedd i bersonau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg, neu
(b) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

(4) Y trydydd o'r canlyniadau hynny yw bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel nad yw'r penderfyniad yn cael effeithiau andwyol, neu fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau llai andwyol—

(a) ar gyfleoedd i bersonau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg, neu

(b) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

(5) Yn yr adran hon mae cyfeiriad at effeithiau positif neu effeithiau andwyol yn gyfeiriad at yr effeithiau hynny, boed uniongyrchol neu anuniongyrchol.

(6) Ystyr "penderfyniad polisi" yw penderfyniad gan berson—

(a) ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau, neu

(b) ynglŷn â chynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall.

*Safonau gweithredu*

## 30 Safonau gweithredu

(1) Yn y Mesur hwn ystyr "safon gweithredu" yw safon—

(a) sy'n ymwneud â gweithgareddau perthnasol person (A), a

(b) y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg—

(i) gan A wrth i A wneud ei weithgareddau perthnasol,

(ii) gan A a pherson arall wrth iddynt ddelio â'i gilydd mewn cysylltiad â gweithgareddau perthnasol A, neu

(iii) gan berson heblaw A wrth iddo wneud gweithgareddau at ddibenion gweithgareddau perthnasol A, neu mewn cysylltiad â hwy.

(2) Yn yr adran hon—

(a) ystyr "gweithgareddau perthnasol" yw—

(i) swyddogaethau, neu

(ii) busnes neu ymgymeriad arall;

(b) mae cyfeiriad at gyflawni gweithgareddau perthnasol yn gyfeiriad at—

(i) arfer swyddogaethau, neu

(ii) cynnal busnes neu ymgymeriad arall.

*Safonau hybu*

## 31 Safonau hybu

Yn y Mesur hwn ystyr "safon hybu" yw safon (yn ymwneud ag unrhyw weithgaredd) y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach.

*Safonau cadw cofnodion*

## 32 Safonau cadw cofnodion

(1) Yn y Mesur hwn ystyr "safon cadw cofnodion" yw safon sy'n ymwneud â chadw—

(a) cofnodion sy'n ymwneud â safonau penodedig eraill, a

(b) cofnodion sy'n ymwneud—

(i) â chwynion am gydymffurfedd person â safonau penodedig eraill, neu
(ii) â chwynion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

(2) Yn yr adran hon ystyr "safon benodedig" yw safon a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1).

## PENNOD 3

### PERSONAU SY'N AGORED I ORFOD CYDYMFFURFIO Å SAFONAU

**33 Personau sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau**

(1) Mae person (P) yn agored i orfod cydymffurfio â safonau os yw P—
(a) yn dod o fewn Atodlen 5 a hefyd o fewn Atodlen 6, neu
(b) yn dod o fewn Atodlen 7 a hefyd o fewn Atodlen 8.

(2) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Rhan hon.

**34 Personau sy'n dod o fewn Atodlenni 5, 6, 7 ac 8**

(1) Mae person yn dod o fewn Atodlen 5 os yw'r person yn dod o fewn categori o bersonau a bennir yng ngholofn (2) o'r tabl yn Atodlen 5.

(2) Mae person yn dod o fewn Atodlen 6 os yw'r person—
(a) yn cael ei bennu yng ngholofn (1) o'r tabl yn Atodlen 6, neu
(b) yn dod o fewn categori o bersonau a bennir yn y golofn honno.

(3) Mae person yn dod o fewn Atodlen 7 os yw'r person yn dod o fewn categori o bersonau a bennir yng ngholofn (2) o'r tabl yn Atodlen 7.

(4) Mae person yn dod o fewn Atodlen 8 os yw'r person—
(a) yn cael ei bennu yng ngholofn (1) o'r tabl yn Atodlen 8, neu
(b) yn dod o fewn categori o bersonau a bennir yn y golofn honno.

(5) Nid yw newid enw person a bennir yn Atodlen 6 neu yn Atodlen 8 yn effeithio ar weithredu'r Mesur hwn mewn perthynas â'r person.

(6) Mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at gofnod person yn y tabl yn Atodlen 6 neu yn y tabl yn Atodlen 8 yn gyfeiriadau at y cofnod yn y tabl hwnnw (yng ngholofn (1)) sy'n pennu—
(a) P, neu
(b) categori o bersonau y mae P yn dod oddi mewn iddo.

(7) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Mesur hwn.

**35 Diwygio personau a chategorïau a bennir yn Atodlenni 6 ac 8**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 a'r tabl yn Atodlen 8 yn unol â'r adran hon.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 fel bod colofn (1) yn cynnwys cyfeiriad—

(a) at berson sy'n dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5, neu

(b) at gategori o bersonau y mae pob un ohonynt yn dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio Atodlen 6 drwy ddileu unrhyw gyfeiriad yng ngholofn (1).

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r tabl yn Atodlen 8 fel bod colofn (1) yn cynnwys cyfeiriad—

(a) at berson sy'n dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 7, neu

(b) at gategori o bersonau y mae pob un ohonynt yn dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 7.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r tabl yn Atodlen 8 drwy ddileu unrhyw gyfeiriad yng ngholofn (1).

(6) Caiff Gweinidogion Cymru wneud diwygiadau eraill i'r tabl yn Atodlen 6 neu i'r tabl yn Atodlen 8, neu i unrhyw ddarpariaeth arall yn y Mesur hwn, sy'n briodol yn eu tyb hwy mewn cysylltiad â phwerau yn unrhyw un neu ragor o is-adrannau (2) i (5), at ddibenion y pwerau hynny, neu o ganlyniad i'r pwerau hynny.

(7) Yn yr adran hon—

ystyr "categori yn Atodlen 5" ("*Schedule 5 category*") yw categori o bersonau a bennir yng ngholofn (2) o'r tabl yn Atodlen 5;

ystyr "categori yn Atodlen 7" ("*Schedule 7 category*") yw categori o bersonau a bennir yng ngholofn (2) o'r tabl yn Atodlen 7.

## PENNOD 4

## SAFONAU CYMWYSADWY

### 36 Personau sy'n dod o fewn Atodlen 6

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i berson (P) sy'n dod o fewn Atodlen 6.

(2) Mae safon a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) yn gymwysadwy i P os yw'n perthyn i ddosbarth o safonau a bennir yng ngholofn (2) o gofnod P yn y tabl yn Atodlen 6.

(3) At y diben hwnnw, mae pob un o'r canlynol yn ddosbarth o safonau—

(a) safonau cyflenwi gwasanaethau;

(b) safonau llunio polisi;

(c) safonau gweithredu;

(d) safonau hybu;

(e) safonau cadw cofnodion.

(4) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Rhan hon.

### 37 Personau sy'n dod o fewn Atodlen 8

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i berson (P) sy'n dod o fewn Atodlen 8.

(2) Mae safon a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) yn gymwysadwy i P os yw'r safon honno, ac i'r graddau y mae'r safon honno—

(a) yn safon cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â darparu gan P wasanaeth a bennir ("safon neilltuedig cyflenwi gwasanaethau"), neu

(b) yn safon cadw cofnodion sy'n ymwneud â chadw cofnodion—

(i) am safonau neilltuedig cyflenwi gwasanaethau,

(ii) am gwynion yn ymwneud â chydymffurfedd P â safonau neilltuedig cyflenwi gwasanaethau, neu

(iii) am gwynion mewn perthynas â'r Gymraeg sy'n ymwneud â darparu gan P wasanaeth a bennir.

(3) Yn yr adran hon, ystyr "gwasanaeth a bennir" yw gwasanaeth a bennir yng ngholofn (2) o gofnod P yn y tabl yn Atodlen 8.

(4) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Rhan hon.

## 38 Diwygio safonau cymwysadwy

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 a'r tabl yn Atodlen 8 yn unol â'r adran hon.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 fel bod colofn (2) o gofnod yn cynnwys cyfeiriad at un neu ragor o'r canlynol—

(a) safonau cyflenwi gwasanaethau;

(b) safonau llunio polisi;

(c) safonau gweithredu;

(d) safonau cadw cofnodion.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 fel bod colofn (2) o unrhyw un neu ragor o'r cofnodion canlynol yn y tabl yn cynnwys cyfeiriad at safonau hybu—

(a) cofnod Gweinidogion Cymru;

(b) cofnod cyngor bwrdeistref sirol;

(c) cofnod cyngor sir;

(d) cofnod awdurdod Parc Cenedlaethol;

(e) cofnod unrhyw berson arall, ond dim ond os yw'r person wedi cydsynio y dylai safonau hybu fod yn gymwysadwy iddo.

(4) At ddibenion is-adran (3)—

(a) ystyr "cydsyniad" yw cydsyniad ysgrifenedig a roddir i Weinidogion Cymru;

(b) caniateir i berson dynnu cydsyniad yn ôl, ond dim ond os yw Gweinidogion Cymru yn cytuno i hynny;

(c) os yw person yn tynnu cydsyniad yn ôl ar ôl i gofnod y person hwnnw gael ei ddiwygio i gynnwys cyfeiriad at safonau hybu, rhaid i Weinidogion Cymru ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 drwy ddileu'r cyfeiriad at safonau hybu yng nghofnod y person hwnnw.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 drwy ddileu unrhyw gyfeiriad yng ngholofn (2).

(6) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r tabl yn Atodlen 8 fel bod colofn (2) o gofnod sy'n ymwneud â pherson neu gategori o berson yn cynnwys cyfeiriad at ddarparu gwasanaeth (y "gwasanaeth a bennir"), ond dim ond—

(a) os yw'r amod yn is-adran (7) wedi ei fodloni, a

(b) os yw'r amod yn is-adran (8) neu (9) wedi ei fodloni.

(7) Rhaid i'r gwasanaeth a bennir ddod o fewn categori o wasanaeth a bennir yng ngholofn (3) o'r tabl yn Atodlen 7 ("gwasanaeth sydd ar gael")

(8) Os yw'r gwasanaeth a bennir i ymwneud â pherson yn Atodlen 8, rhaid i'r person hwnnw ddod o fewn y categori o bersonau yng ngholofn (2) yn y tabl yn Atodlen 7 y mae'r gwasanaeth sydd ar gael yn perthyn iddo.

(9) Os yw'r gwasanaeth a bennir i ymwneud â chategori o bersonau yn Atodlen 8, rhaid i'r holl bersonau o fewn y categori hwnnw ddod o fewn y categori o bersonau yng ngholofn (2) yn y tabl yn Atodlen 7 y mae'r gwasanaeth sydd ar gael yn perthyn iddo.

(10) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r tabl yn Atodlen 8 drwy ddileu unrhyw gyfeiriad yng ngholofn (2).

(11) Caiff Gweinidogion Cymru wneud diwygiadau eraill i'r tabl yn Atodlen 6 neu i'r tabl yn Atodlen 8, neu i unrhyw ddarpariaeth arall yn y Mesur hwn, sy'n briodol yn eu tyb hwy mewn cysylltiad â phwerau o dan unrhyw un neu ragor o is-adrannau (2) i (10), at ddibenion y pwerau hynny, neu o ganlyniad iddynt.

## PENNOD 5

### SAFONAU SY'N BENODOL GYMWYS

### 39 Safonau sy'n benodol gymwys

(1) Mae safon a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) yn benodol gymwys i berson (P) os yw Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, yn awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i P sy'n ei gwneud yn ofynnol i P gydymffurfio â'r safon.

(2) Caiff y rheoliadau ddarparu i safon fod yn benodol gymwys i P drwy wneud darpariaeth sy'n cyfeirio—

(a) at P yn benodol, neu

(b) at grŵp o bersonau y mae P yn dod oddi mewn iddo.

(3) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Mesur hwn.

### 40 Dyletswydd i wneud safonau'n benodol gymwys

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â phob safon a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1).

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau o dan adran 39 yn gwneud darpariaeth i'r safon fod yn benodol gymwys i un person neu ragor.

## 41 Safonau gwahanol yn ymwneud ag ymddygiad penodol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os bydd rheoliadau o dan unrhyw un neu ragor o baragraffau (a) i (e) o adran 26(1) yn pennu nifer o safonau o'r math y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw mewn perthynas ag ymddygiad penodol.

(2) Caiff rheoliadau o dan adran 39 ddarparu ar gyfer un neu ragor o'r canlynol—

(a) i un safon fod yn benodol gymwys i un person, i ddau berson neu i ragor, neu i grŵp o bersonau;

(b) i ddwy safon neu ragor fod yn benodol gymwys i un person, i ddau berson neu i ragor, neu i grŵp o bersonau;

(c) i safonau gwahanol fod yn benodol gymwys i bersonau gwahanol.

## 42 Dyletswydd i wneud rhai safonau cyflenwi gwasanaethau'n benodol gymwys

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw rheoliadau o dan adran 39 yn darparu bod unrhyw safon cyflenwi gwasanaethau'n benodol gymwys i berson (P).

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau o dan adran 39 yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau a bennir yn Atodlen 9 (i'r graddau y mae safonau o'r fath wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1)) yn benodol gymwys i P os yw P, ac i'r graddau y mae P, yn gwneud y gweithgareddau hynny.

(3) Ond nid oes rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn darparu i safon cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i P mewn perthynas â gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 os yw, neu i'r graddau y mae—

(a) adroddiad safonau o dan adran 64 yn nodi y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i P mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw, neu

(b) Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i P mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

(4) Nid yw'r adran hon yn atal rheoliadau o dan adran 39 rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i P.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio Atodlen 9 drwy ychwanegu, hepgor neu ddiwygio cyfeiriad at weithgaredd.

## 43 Cyfyngiad ar y pŵer i wneud safonau'n benodol gymwys

(1) Ni chaiff rheoliadau o dan adran 39 ddarparu bod safon—

(a) yn benodol gymwys i berson, oni bai bod y safon yn gymwysadwy i'r person hwnnw, neu

(b) yn benodol gymwys i grŵp o bersonau oni bai bod y safon yn gymwysadwy i bob person yn y grŵp hwnnw.

(2) Ni chaiff rheoliadau o dan adran 39 ddarparu i safon fod yn benodol gymwys i unrhyw un o Weinidogion y Goron oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio i'r ddarpariaeth honno.

(3) Mewn achos—

(a) pan fo safon yn benodol gymwys i unrhyw un o Weinidogion y Goron, a

(b) pan fo'r safon yn cael ei haddasu gan ddarpariaeth mewn rheoliadau o dan adran 26,

nid yw'r safon fel y mae wedi ei haddasu yn benodol gymwys i Weinidogion y Goron oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio i'r ddarpariaeth honno yn y rheoliadau hynny.

(4) Yn yr adran hon, mae i'r ymadrodd "Gweinidogion y Goron" yr un ystyr ag sydd iddo yn Atodlen 6.

## PENNOD 6

## HYSBYSIADAU CYDYMFFURFIO

### *Hysbysiadau cydymffurfio*

### 44 Hysbysiadau cydymffurfio

(1) Yn y Mesur hwn ystyr "hysbysiad cydymffurfio" yw hysbysiad a roddir i berson (P) gan y Comisiynydd—

(a) sy'n nodi, neu'n cyfeirio at, un neu ragor o safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), a

(b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i P gydymffurfio â'r safon neu â'r safonau a nodir neu y cyfeirir ati neu atynt.

(2) Caiff hysbysiad cydymffurfio ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon benodol—

(a) mewn rhai amgylchiadau, ond nid mewn amgylchiadau eraill;

(b) mewn rhyw ardal neu rai ardaloedd, ond nid mewn ardaloedd eraill.

(3) Os yw rheoliadau o dan adran 39 yn darparu bod dwy neu ragor o safonau a bennir mewn perthynas ag ymddygiad penodol yn benodol gymwys i berson penodol, caiff hysbysiad cydymffurfio ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio—

(a) ag un o'r safonau'n unig, neu

(b) â gwahanol safonau—

(i) ar adegau gwahanol;

(ii) mewn amgylchiadau gwahanol (boed ar yr un adeg neu ar adegau gwahanol);

(iii) mewn ardaloedd gwahanol (boed ar yr un adeg neu ar adegau gwahanol).

### *Rhoi hysbysiadau cydymffurfio*

### 45 Rhoi hysbysiadau cydymffurfio i unrhyw berson

(1) Dim ond os yw person (P) yn agored i orfod cydymffurfio â safonau (gweler Pennod 3) y caiff y Comisiynydd roi hysbysiad cydymffurfio i P.

(2) Dim ond os yw safon benodol a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1)—

(a) yn gymwysadwy i P (gweler Pennod 4), a

(b) yn benodol gymwys i P (gweler Pennod 5),

y caiff hysbysiad cydymffurfio a roddir i P nodi, neu gyfeirio at, safon benodol.

(3) Os yw'r Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio i P, rhaid i'r Comisiynydd hefyd—

(a) rhoi copi o unrhyw god ymarfer perthnasol a ddyroddir o dan adran 68 i P, a

(b) rhoi gwybod i P am yr hawl i herio o dan Bennod 7.

(4) Am ddarpariaeth ynglŷn â rhoi hysbysiadau cydymffurfio i gontractwyr, gweler adran 48.

## 46 Diwrnodau gosod

(1) Mae'r adran hon yn gymwys o ran pob safon a bennir mewn hysbysiad cydymffurfio a roddir i berson.

(2) Rhaid i'r hysbysiad ddatgan y diwrnod gosod neu'r diwrnodau gosod.

(3) Rhaid i'r diwrnod gosod, neu'r cynharaf o'r diwrnodau gosod, ddod ar ôl diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad.

(4) Yn yr adran hon ystyr "diwrnod gosod" o ran safon yw—

(a) y diwrnod oddi ar bryd y mae'n ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon, neu,

(b) y diwrnod oddi ar bryd y mae'n ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon mewn modd penodol.

(5) Am ddarpariaeth ynglŷn â rhoi hysbysiadau cydymffurfio i gontractwyr, gweler adran 48.

## 47 Ymgynghori

(1) Cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio i berson, rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â'r person.

(2) Ond nid yw is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ymgynghori â pherson ar unrhyw fater os yw'r Comisiynydd wedi ei fodloni bod y person hwnnw eisoes wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad ar y mater hwnnw, neu wedi cael cyfle i wneud hynny, mewn cysylltiad ag ymchwiliad safonau (gweler Pennod 8).

(3) Nid yw methiant y person i gymryd rhan mewn ymgynghoriad yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw.

## 48 Rhoi hysbysiadau cydymffurfio i gontractwyr

(1) Mae'r adran hon yn gymwys (ynghyd ag adrannau 45 a 46) mewn perthynas â pherson neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd (y "gwasanaethau perthnasol") o dan gytundeb, neu'n unol â threfniadau, a wneir gydag awdurdod cyhoeddus (y "contract perthnasol").

(2) Dim ond—

(a) os yw'n ofynnol i'r awdurdod cyhoeddus gydymffurfio â'r safon berthnasol wrth ddarparu'r gwasanaethau perthnasol i'r cyhoedd (neu y byddai wedi bod yn ofynnol i'r awdurdod cyhoeddus wneud hynny pe bai'n darparu'r gwasanaethau hynny i'r cyhoedd),

(b) os gwnaed y contract perthnasol ar neu ar ôl diwrnod gosod yr awdurdod cyhoeddus, ac

(c) os yw diwrnod gosod y person neilltuedig yn dod ar neu ar ôl diwrnod gosod yr awdurdod cyhoeddus,

y caiff hysbysiad cydymffurfio a roddir i'r person neilltuedig nodi, neu gyfeirio at, safon benodol (y "safon berthnasol") mewn perthynas â darparu'r gwasanaethau perthnasol o dan y contract perthnasol.

(3) Rhaid i'r Comisiynydd sicrhau bod y gofyniad am i'r person neilltuedig gydymffurfio â'r safon berthnasol (sy'n codi yn rhinwedd bod hysbysiad cydymffurfio yn cael ei roi yn unol ag is-adran (2)) yr un fath â'r gofyniad, neu heb fod yn fwy na'r gofyniad, am i'r awdurdod cyhoeddus gydymffurfio â'r safon.

(4) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn yr adran hon ac yn Atodlen 8 yr un ystyr yn yr adran hon ag yn Atodlen 8.

(5) Yn yr adran hon—

ystyr "diwrnod gosod yr awdurdod cyhoeddus" ("*public authority's imposition day*") yw'r diwrnod, neu'r cynharaf o'r diwrnodau, y mae'n ofynnol i awdurdod cyhoeddus gydymffurfio â'r safon berthnasol;

ystyr "diwrnod gosod y person neilltuedig" ("*qualifying person's imposition day*") yw'r diwrnod, neu'r cynharaf o'r diwrnodau, a nodir yn yr hysbysiad cydymffurfio a roddir i'r person neilltuedig yn ddiwrnod y mae i fod yn ofynnol i'r person neilltuedig gydymffurfio â'r safon berthnasol mewn perthynas â darparu'r gwasanaethau perthnasol o dan y contract perthnasol.

*Amrywio hysbysiadau cydymffurfio*

## 49 Amrywio hysbysiadau cydymffurfio

(1) Caiff y Comisiynydd amrywio unrhyw hysbysiad cydymffurfio.

(2) Mae adrannau 45 i 47 yn gymwys o ran amrywio hysbysiad cydymffurfio yn yr un modd ag y maent yn gymwys o ran rhoi hysbysiad cydymffurfio, ond dim ond i'r graddau y mae'r hysbysiad wedi ei amrywio.

(3) Mae adran 48 yn gymwys o ran amrywio hysbysiad cydymffurfio yn yr un modd ag y mae'n gymwys o ran rhoi hysbysiad cydymffurfio.

*Dirymu hysbysiadau cydymffurfio*

## 50 Dirymu hysbysiadau cydymffurfio

(1) Caiff y Comisiynydd ddirymu unrhyw hysbysiad cydymffurfio.

(2) Mae is-adrannau (3) a (4) yn gymwys mewn achos pan fo'r Comisiynydd—

(a) yn dirymu hysbysiad cydymffurfio a roddwyd i berson (yr "hen hysbysiad"), a

(b) ar yr un pryd yn rhoi i'r person hwnnw hysbysiad cydymffurfio (yr "hysbysiad newydd").

(3) Dim ond i'r graddau y mae'r hysbysiad newydd yn wahanol i'r hen hysbysiad y mae adrannau 45 i 47 yn gymwys o ran rhoi'r hysbysiad newydd.

(4) Mae adran 48 yn gymwys o ran rhoi hysbysiad newydd yn yr un modd ag y mae'n gymwys o ran rhoi hysbysiad cydymffurfio.

*Pan fydd hysbysiad cydymffurfio mewn grym*

**51 Pan fydd hysbysiad cydymffurfio mewn grym**

(1) Mae hysbysiad cydymffurfio a roddir i berson (P) mewn grym o'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i P gan y Comisiynydd.

(2) Mae hysbysiad cydymffurfio yn aros mewn grym oni chaiff — a hyd oni chaiff — ei ddirymu.

(3) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Mesur hwn.

*Cyhoeddi hysbysiadau cydymffurfio*

**52 Cyhoeddi hysbysiadau cydymffurfio**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â phob hysbysiad cydymffurfio sydd mewn grym.

(2) Rhaid i'r Comisiynydd sicrhau, o'r diwrnod gosod perthnasol ymlaen—

(a) bod copi o'r hysbysiad cydymffurfio ar gael i'w archwilio yn swyddfa'r Comisiynydd, a

(b) y perir bod copïau o'r hysbysiad cydymffurfio ar gael mewn mannau eraill a thrwy ddulliau eraill (gan gynnwys dulliau electronig) sy'n briodol yn nhyb y Comisiynydd.

(3) Os bydd person yn gwneud cais i'r Comisiynydd o dan Bennod 7 mewn cysylltiad â safon rhaid i'r Comisiynydd sicrhau bod y copïau o'r hysbysiad cydymffurfio y parwyd iddynt fod ar gael yn unol ag is-adran (2) yn nodi, hyd nes bod y cais wedi ei ddyfarnu'n derfynol—

(a) bod y cais wedi ei wneud, a

(b) nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon yn gymwys, yn rhinwedd adran 60 (os dyna'r sefyllfa).

(4) Rhaid i'r Comisiynydd sicrhau bod y trefniadau ar gyfer archwilio a chael at hysbysiadau cydymffurfio yn cael eu cyhoeddi mewn modd sy'n dwyn y trefniadau hynny i sylw personau sy'n debygol yn nhyb y Comisiynydd o fod yn bersonau a chanddynt fuddiant mewn archwilio a chael at hysbysiadau cydymffurfio.

(5) Yn yr adran hon, ystyr “diwrnod gosod perthnasol” yw—

(a) os dim ond un diwrnod gosod sydd wedi ei nodi mewn hysbysiad cydymffurfio, y diwrnod gosod hwnnw;

(b) os oes dau neu ragor o ddiwrnodau gosod wedi eu nodi yn yr hysbysiad cydymffurfio, y cynharaf o'r diwrnodau hynny.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

*Gofyniad i gydymffurfio â safon yn dod i ben*

**53 Gofyniad i gydymffurfio â safon yn dod i ben**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn unrhyw achos pan fydd person (P) yn peidio â bod o dan y ddyletswydd yn adran 25(1) i gydymffurfio â safon oherwydd—

(a) bod un neu ragor o amodau 1 i 3 yn adran 25 yn peidio â chael ei fodloni neu eu bodloni, neu

(b) bod y safon yn peidio â chael ei phennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1).

(2) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r adran hon fod yn gymwys, rhaid i'r Comisiynydd, drwy arfer y pwerau a roddir gan y Bennod hon, sicrhau bod y newid a ddisgrifir yn is-adran (1) yn cael ei adlewyrchu yn yr hysbysiadau cydymffurfio (os bydd rhai) sy'n parhau mewn grym mewn perthynas â P.

## PENNOD 7

## YR HAWL I HERIO

**54 Herio dyletswyddau dyfodol**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) os yw'r Comisiynydd wedi rhoi hysbysiad cydymffurfio i berson (P), a

(b) os yw'r hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i P—

(i) cydymffurfio â safon, neu

(ii) cydymffurfio â safon mewn modd penodol

oddi ar ddiwrnod gosod yn y dyfodol.

(2) Caiff P wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn i'r Comisiynydd ddyfarnu a yw'r gofyniad am i P gydymffurfio â'r safon honno, neu gydymffurfio â'r safon yn y modd hwnnw, yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio.

(3) Os yw'r dyfarniad hwnnw'n cael ei wneud cyn y diwrnod gosod, rhaid i'r Comisiynydd wrth wneud y dyfarniad ystyried yr amgylchiadau fel y disgwylir iddynt fod ar y diwrnod gosod.

(4) Rhaid i gais o dan yr adran hon gael ei wneud cyn y diwrnod gosod.

(5) Yn yr adran hon, mae i'r ymadrodd "diwrnod gosod" yr ystyr sydd iddo yn adran 46.

**55 Herio dyletswyddau presennol**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) os yw'r Comisiynydd wedi rhoi hysbysiad cydymffurfio i berson (P), a

(b) os yw'r hysbysiad eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i P—

(i) cydymffurfio â safon, neu

(ii) cydymffurfio â safon mewn modd penodol.

(2) Caiff P wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn i'r Comisiynydd ddyfarnu a yw'r gofyniad am i P gydymffurfio â'r safon honno, neu gydymffurfio â'r safon yn y modd hwnnw, yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio.

(3) Ond caiff y Comisiynydd wrthod derbyn cais o dan yr adran hon os yw wedi ei fodloni nad oes unrhyw newid sylweddol wedi bod yn amgylchiadau P—

(a) oddi ar y diwrnod y'i gwnaed yn ofynnol am y tro cyntaf i P gydymffurfio â'r safon, neu i P gydymffurfio â'r safon yn y modd hwnnw, neu

(b) os yw'r Comisiynydd wedi dyfarnu'r cwestiwn perthnasol ar gais blaenorol o dan yr adran hon, ers i'r Comisiynydd ddyfarnu'r cwestiwn perthnasol ar y cais hwnnw.

(4) Yn yr adran hon, ystyr "cwestiwn perthnasol" yw'r cwestiwn y mae cais o dan yr adran hon yn ymwneud ag ef.

### 56 Ceisiadau i'r Comisiynydd

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i gais o dan adran 54 neu 55 yn gofyn i'r Comisiynydd ddyfarnu a yw'r gofyniad am i P gydymffurfio â safon neu gydymffurfio â hi mewn modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur.

(2) Rhaid i'r cais fod yn ysgrifenedig.

(3) Rhaid i'r cais gael ei wneud ar y ffurf sy'n ofynnol gan y Comisiynydd (os yw'n ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei wneud ar ffurf benodol).

(4) Rhaid i'r cais nodi'r rhesymau pam y mae P o'r farn bod y gofyniad i gydymffurfio â'r safon, neu i gydymffurfio â'r safon yn y modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur.

### 57 Dyfarnu ar gais

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) i unrhyw gais o dan adran 54, a

(b) i unrhyw gais o dan adran 55 nad yw'r Comisiynydd yn gwrthod ei dderbyn.

(2) Mater i P yw dangos bod y gofyniad am i P gydymffurfio â safon, neu gydymffurfio â hi mewn modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur.

(3) Rhaid i'r Comisiynydd ddyfarnu ar y cais cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r cais gael ei wneud.

(4) Wrth ddyfarnu ar y cais—

(a) rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â P, a

(b) caiff y Comisiynydd ymgynghori ag unrhyw berson arall a chanddo fuddiant yng nghanlyniad y cais ym marn y Comisiynydd.

(5) Rhaid i'r Comisiynydd hysbysu P o'r dyfarniad ar y cais.

(6) Os yw'r Comisiynydd yn dyfarnu bod y gofyniad am i P gydymffurfio â'r safon, neu gydymffurfio â'r safon yn y modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur, rhaid iddo wneud un o'r canlynol—

(a) dirymu'r hysbysiad cydymffurfio;

(b) dirymu'r hysbysiad cydymffurfio a rhoi hysbysiad cydymffurfio newydd;

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(c) amrywio'r hysbysiad cydymffurfio presennol.

(7) Os bydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio newydd neu'n amrywio'r hysbysiad cydymffurfio presennol—

(a) nid yw adran 45(3) yn gymwys, a

(b) nid yw adrannau 46(3) a 47 yn gymwys i'r graddau y mae'r Comisiynydd a P yn cytuno ar yr hysbysiad newydd, neu ar yr amrywiad i'r hysbysiad cydymffurfio presennol.

## 58 Yr hawl i apelio

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Comisiynydd yn hysbysu P o dan adran 57 o ddyfarniad nad yw'r gofyniad am i P gydymffurfio â safon, neu gydymffurfio â'r safon mewn modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur.

(2) Caiff P apelio i'r Tribiwnlys yn gofyn i'r Tribiwnlys ddyfarnu a yw'r gofyniad yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio.

(3) Rhaid i apêl o dan yr adran hon gael ei gwneud o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod yr hysbyswyd P gan y Comisiynydd o dan adran 57.

(4) Ond caiff y Tribiwnlys, ar gais ysgrifenedig gan P, ganiatáu i apêl gael ei gwneud ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw os yw'r Tribiwnlys wedi ei fodloni bod rheswm da—

(a) dros y methiant i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw, a

(b) os oedd unrhyw oedi wedi bod cyn gwneud cais am ganiatâd i apelio ar ôl yr amser priodol, dros yr oedi hwnnw.

(5) Rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu P a'r Comisiynydd o'i ddyfarniad ar apêl a wneir o dan yr adran hon.

(6) Os yw'r Tribiwnlys yn dyfarnu bod y gofyniad yn afresymol neu'n anghymesur, bydd is-adrannau (6) a (7) o adran 57 yn gymwys fel pe bai'r Comisiynydd wedi gwneud y dyfarniad hwnnw.

(7) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys (sy'n cael gwneud, ymysg pethau eraill, ddarpariaeth ynghylch y modd y ceir dwyn apelau o dan yr adran hon).

## 59 Apelau o'r Tribiwnlys

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Tribiwnlys wedi penderfynu apêl o dan adran 58.

(2) Caiff y Comisiynydd neu P, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, apelio i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o'r penderfyniad.

(3) Os yw'r Uchel Lys yn dyfarnu bod y Tribiwnlys wedi gwneud camgymeriad ar bwynt cyfreithiol—

(a) caiff yr Uchel Lys osod penderfyniad y Tribiwnlys o'r naill du, a

(b) os bydd yr Uchel Lys yn gosod y penderfyniad o'r naill du, rhaid iddo naill ai—

(i) anfon yr achos yn ôl i'r Tribiwnlys gyda chyfarwyddyd ar gyfer ei ailystyried, neu

(ii) ail-wneud y penderfyniad.

(4) Mae'r cyfarwyddiadau y caniateir i'r Uchel Lys eu rhoi o dan is-adran (3)(b)(i) yn cynnwys y canlynol, ond heb fod wedi eu cyfyngu iddynt—

(a) cyfarwyddyd na all y personau sydd i ailystyried yr achos fod yr un rhai â'r personau a wnaeth y penderfyniad sydd wedi ei roi o'r naill du;
(b) cyfarwyddiadau gweithredu mewn cysylltiad ag ailystyried yr achos.

(5) Wrth ail-wneud y penderfyniad yn unol ag is-adran (3)(b)(ii), caniateir i'r Uchel Lys—
(a) gwneud unrhyw benderfyniad y gallai'r Tribiwnlys ei wneud pe bai'r Tribiwnlys yn gwneud y penderfyniad, a
(b) gwneud y canfyddiadau ffeithiol sy'n briodol yn nhyb yr Uchel Lys.

(6) Rhaid i gais am ganiatâd i apelio gael ei wneud i'r Tribiwnlys neu'r Uchel Lys o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod yr hysbysodd y Tribiwnlys y person sy'n gwneud y cais o'i ddyfarniad ar yr apêl o dan adran 58.

(7) Ond caiff y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, ar gais ysgrifenedig gan y Comisiynydd neu P, ganiatáu i apêl gael ei gwneud ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw os yw'r Tribiwnlys neu'r Uchel Lys wedi ei fodloni bod rheswm da—
(a) dros y methiant i wneud cais am ganiatâd i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw, a
(b) os oedd unrhyw oedi wedi bod cyn gwneud y cais am ganiatâd i apelio ar ôl yr amser priodol, dros yr oedi hwnnw.

(8) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys.

## 60 Gohirio gosod dyletswydd

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw P yn gwneud cais o dan adran 54 am i'r Comisiynydd ddyfarnu a yw'r gofyniad am i P gydymffurfio â safon, neu gydymffurfio â hi mewn modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio.

(2) Ni fydd y gofyniad am i P gydymffurfio â'r safon honno, neu am i P gydymffurfio â'r safon yn y modd hwnnw'n gymwys oni fydd neu hyd oni fydd—
(a) y Comisiynydd wedi dyfarnu a yw'r gofyniad yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio, a
(b) hawliau P i apelio wedi eu disbyddu.

(3) At y diben hwnnw, bydd hawliau P wedi eu disbyddu—
(a) os bydd y cyfnod a grybwyllir yn adran 58(3) ar gyfer gwneud apêl i'r Tribiwnlys wedi dod i ben heb fod apêl wedi ei gwneud, neu
(b) os bydd apêl o dan adran 58 wedi ei gwneud a'i dyfarnu ac, o ran apêl bellach—
(i) na ellir gwneud un, neu
(ii) na ellir gwneud un heb ganiatâd y Tribiwnlys neu ganiatâd llys.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

## PENNOD 8

## YMCHWILIADAU AC ADRODDIADAU SAFONAU

*Ymchwiliadau safonau*

### 61 Ymchwiliadau safonau

(1) Yn y Mesur hwn ystyr "ymchwiliad safonau" yw ymchwiliad a gynhelir mewn perthynas â pherson (P) er mwyn dyfarnu ar un neu ragor o'r cwestiynau canlynol—

(a) a ddylai P fod yn agored — neu a ddylai P barhau i fod yn agored — i orfod cydymffurfio â safonau;

(b) os yw P yn dod o fewn Atodlen 6, pa safonau (os o gwbl) a ddylai fod — neu a ddylai barhau i fod — yn gymwysadwy i P;

(c) os yw P yn dod o fewn Atodlen 8, pa wasanaethau (os o gwbl) a ddylai gael — neu a ddylai barhau i gael — eu pennu yng ngholofn (2) o gofnod P yn y tabl yn Atodlen 8;

(d) pa safonau (os o gwbl) a ddylai fod — neu a ddylai barhau i fod — yn benodol gymwys i P (p'un a yw'r safonau eisoes wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) ai peidio);

(e) unrhyw gwestiwn arall y mae'r Comisiynydd o'r farn ei fod yn berthnasol o ran y graddau y caniateir i P fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn adran 25(1) i gydymffurfio â safonau.

(2) Caniateir cynnal ymchwiliad safonau penodol mewn perthynas—

(a) â pherson penodol, neu

(b) â grŵp o bersonau.

### 62 Y pŵer i gynnal ymchwiliadau safonau

(1) Caiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliadau safonau.

(2) Ond ni chaiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad safonau oni bai iddo roi hysbysiad rhagymchwilio i bob person perthnasol o leiaf 14 o ddiwrnodau cyn dechrau ar yr ymchwiliad.

(3) Hysbysiad ysgrifenedig yw hysbysiad rhagymchwilio—

(a) sy'n datgan bod y Comisiynydd yn bwriadu cynnal ymchwiliad safonau, a

(b) sy'n pennu pwnc yr ymchwiliad safonau.

(4) Yn yr adran hon, ystyr "person perthnasol"—

(a) yn achos ymchwiliad safonau mewn perthynas â pherson penodol, yw'r person hwnnw;

(b) yn achos ymchwiliad safonau mewn perthynas â grŵp o bersonau, yw personau—

(i) yr ymddengys i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grŵp, a

(ii) y mae'n briodol rhoi hysbysiadau rhagymchwilio iddynt yn nhyb y Comisiynydd.

## 63 Y gofynion wrth gynnal ymchwiliadau safonau

(1) Wrth gynnal ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r angen am sicrhau nad yw gofynion am i bersonau gydymffurfio â safonau yn rhinwedd adran 25(1) yn afresymol neu'n anghymesur.

(2) Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu, neu'n cael ei gyfarwyddo, bod ymchwiliad safonau i ystyried a ddylai safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i P, rhaid i'r ymchwiliad—

(a) ystyried, o ran pob gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 y mae P yn ei wneud, a yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i P ai peidio, a

(b) o ran pob gweithgaredd o'r fath, os yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i P, ddod i'r casgliad y dylai safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i P mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

(3) Wrth gynnal ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori—

(a) â phob person perthnasol,

(b) â'r Panel Cynghori, ac

(c) â'r cyhoedd, ac eithrio—

(i) os yw'n ystyried, neu

(ii) i'r graddau y mae'n ystyried

ei bod yn amhriodol gwneud hynny.

(4) Nid yw methiant person i gymryd rhan yn ymgynghoriad y Comisiynydd yn atal y Comisiynydd rhag cynnal yr ymchwiliad safonau.

(5) Yn yr adran hon, ystyr "person perthnasol"—

(a) yn achos ymchwiliad safonau mewn perthynas â pherson penodol, yw'r person hwnnw;

(b) yn achos ymchwiliad safonau mewn perthynas â grŵp o bersonau, yw personau—

(i) yr ymddengys i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grŵp, a

(ii) y mae'n briodol ymgynghori â hwy yn nhyb y Comisiynydd.

*Adroddiadau safonau*

## 64 Adroddiad safonau

(1) Ar ôl cynnal ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd lunio adroddiad safonau.

(2) Dogfen sy'n nodi'r canlynol yw adroddiad safonau—

(a) casgliadau'r ymchwiliad safonau, a

(b) rhesymau'r Comisiynydd dros ddod i'r casgliadau hynny.

(3) Os—

(a) casgliadau'r ymchwiliad (boed yn llwyr neu'n rhannol) yw y dylai safonau fod yn benodol gymwys i P, a

(b) nad yw unrhyw un neu ragor neu'r oll o'r safonau hynny wedi ei phennu neu eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1),

rhaid i'r adroddiad nodi'r safonau sydd heb eu pennu.

(4) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl llunio adroddiad safonau—

(a) rhaid i'r Comisiynydd anfon copi o'r adroddiad—

(i) at bob person perthnasol,

(ii) at y Panel Cynghori,

(iii) at bob person a gymerodd ran yn ymgynghoriad y Comisiynydd yn unol ag adran 63, a

(iv) at Weinidogion Cymru, a

(b) caiff y Comisiynydd anfon copi o'r adroddiad at unrhyw berson arall a chanddo ddiddordeb yn yr adroddiad ym marn y Comisiynydd.

(5) Yn yr adran hon, ystyr "person perthnasol"—

(a) yn achos ymchwiliad safonau mewn perthynas â pherson penodol, yw'r person hwnnw;

(b) yn achos ymchwiliad safonau mewn perthynas â grŵp o bersonau, yw personau—

(i) yr ymddengys i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grŵp, a

(ii) y mae'n briodol anfon copi o'r adroddiad atynt yn nhyb y Comisiynydd.

*Pŵer cyfarwyddo Gweinidogion Cymru*

## 65 Cyfarwyddyd i gynnal ymchwiliad safonau

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os bydd Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer o dan adran 16 i roi cyfarwyddyd i'r Comisiynydd er mwyn ei gyfarwyddo i gynnal ymchwiliad safonau mewn cysylltiad â pherson neu grŵp o bersonau.

(2) Rhaid i'r cyfarwyddyd bennu'r materion a ganlyn—

(a) y person, neu'r grŵp o bersonau y mae'r ymchwiliad i'w gynnal mewn cysylltiad ag ef;

(b) pwnc yr ymchwiliad;

(c) y rhesymau pam y mae Gweinidogion Cymru o'r farn y dylai'r Comisiynydd gynnal yr ymchwiliad safonau;

(d) y cyfnod (y mae'n rhaid iddo beidio â bod yn llai na chwe mis) y mae'n rhaid i'r Comisiynydd gynnal yr ymchwiliad safonau cyn iddo ddod i ben.

(3) Nid yw is-adran (2) yn atal y cyfarwyddyd rhag pennu materion eraill.

*Sylw sydd i'w roi i adroddiad safonau*

## 66 Gweinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i adroddiad

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Comisiynydd wedi cynnal ymchwiliad safonau ac wedi llunio adroddiad safonau (boed o dan gyfarwyddyd neu ar gais Gweinidogion Cymru).

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyladwy i'r adroddiad safonau wrth benderfynu ai i arfer ai peidio y pwerau sydd wedi eu rhoi iddynt gan y Rhan hon, a sut i wneud hynny.

## PENNOD 9

CYFFREDINOL

*Eithrio darlledu*

### 67 Eithrio darlledu

(1) Nid yw'r Mesur hwn—

(a) yn ei gwneud yn ofynnol, na

(b) yn awdurdodi person i'w gwneud yn ofynnol,

i berson gydymffurfio â safon os yw'r safon honno, ac i'r graddau y mae'r safon honno, yn ymwneud â darlledu.

(2) Yn yr adran hon—

(a) ystyr "darlledu" yw comisiynu, cynhyrchu, amserlennu, trawsyrru neu ddosbarthu rhaglenni (gan gynnwys hysbysebion, is-deitlau, cyhoeddiadau cyswllt a theletestun), gwasanaethau mynediad, rhyngweithgarwch, cynnwys ar-lein ac allbwn arall tebyg ei natur ar gyfer y teledu, y radio, y rhyngrwyd neu lwyfannau ar-lein neu ddi-wifr eraill;

(b) ond nid yw cyfeiriadau at ddarlledu yn cynnwys unrhyw weithgaredd a gyflawnir mewn cysylltiad â darlledu (onid darlledu yw'r gweithgaredd ei hun).

*Codau ymarfer*

### 68 Codau ymarfer

(1) Caiff y Comisiynydd ddyroddi codau ymarfer at ddiben darparu canllawiau ymarferol am ofynion unrhyw safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) ("codau ymarfer safonau").

(2) Caiff y Comisiynydd adolygu codau ymarfer safonau neu eu tynnu'n ôl.

(3) Rhaid i'r Comisiynydd beidio â dyroddi, adolygu neu dynnu'n ôl god ymarfer safonau heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.

(4) Cyn ceisio'r cydsyniad hwnnw, rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori—

(a) â'r personau y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â'r safon neu â'r safonau y mae'r cod ymarfer yn ymwneud â hi neu â hwy, a

(b) â'r Panel Cynghori.

(5) Pan fo cod ymarfer yn cael ei ddyroddi gan y Comisiynydd, rhaid i'r Comisiynydd hefyd ddyroddi hysbysiad ysgrifenedig—

(a) sy'n nodi pa god sydd dan sylw ac sy'n datgan dyddiad y dyroddi, a

(b) sy'n pennu safon neu safonau y mae'r cod yn ymwneud â hi neu â hwy.

(6) Pan fo'r Comisiynydd yn tynnu cod ymarfer yn ôl, rhaid i'r Comisiynydd ddyroddi hysbysiad ysgrifenedig sy'n nodi'r cod dan sylw ac yn datgan y dyddiad y mae'r cod i beidio â bod yn effeithiol.

### 69 Methiant i gydymffurfio â chodau

(1) Nid yw methiant person i gydymffurfio â darpariaeth mewn cod ymarfer a gymeradwywyd yn peri i'r person hwnnw fod yn agored i gamau gorfodi o unrhyw fath.

(2) Ond os cymerir unrhyw gamau o dan y Mesur hwn mewn perthynas â methiant person (P) i gydymffurfio â safon ("y methiant safonau honedig")—

(a) caniateir dibynnu ar fethiant P i gydymffurfio â darpariaeth berthnasol mewn cod ymarfer a gymeradwywyd fel rhywbeth sy'n tueddu i gadarnhau bod P yn atebol am y methiant safonau honedig, a

(b) caniateir dibynnu ar gydymffurfedd â darpariaeth berthnasol mewn cod ymarfer a gymeradwywyd fel rhywbeth sy'n tueddu i gadarnhau nad yw P yn atebol am y methiant safonau honedig.

(3) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at god ymarfer a gymeradwywyd yn gyfeiriadau—

(a) at god ymarfer safonau fel y mae'n effeithiol am y tro, a

(b) pan fo cod ymarfer safonau wedi ei adolygu, at y cod hwnnw fel y'i hadolygwyd fel y mae'n effeithiol am y tro.

*Dehongli*

### 70 Dehongli

(1) Yn y Rhan hon—

(a) mae cyfeiriadau at fod person yn agored i orfod cydymffurfio â safonau i'w darllen yn unol ag adran 33;

(b) mae cyfeiriadau at gofnod person yn y tabl yn Atodlen 6 neu'r tabl yn Atodlen 8 i'w darllen yn unol ag adran 34;

(c) mae cyfeiriadau at fod safon yn gymwysadwy i berson i'w darllen yn unol ag adrannau 36 a 37;

(d) mae cyfeiriadau at fod safon yn benodol gymwys i berson i'w darllen yn unol ag adran 39.

## RHAN 5

## GORFODI SAFONAU

## PENNOD 1

## YMCHWILIO I FETHIANT I GYDYMFFURFIO Å SAFONAU ETC

*Ymchwiliadau*

### 71 Ymchwilio i fethiant i gydymffurfio â safonau etc

(1) Caiff y Comisiynydd ymchwilio i a yw person (D) wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol.

(2) Yn y Rhan hon, ystyr "gofyniad perthnasol" yw unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) dyletswydd i gydymffurfio â safon a bennir gan Weinidogion Cymru (gweler adran 25);

(b) gofyniad a gynhwysir mewn hysbysiad penderfynu yn rhinwedd adran 79 (gofyniad i baratoi cynllun gweithredu, neu i gymryd camau);

(c) cynllun gweithredu (gweler adrannau 79 a 80);

(d) gofyniad a gynhwysir mewn hysbysiad penderfynu yn rhinwedd adran 82 (rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant i gydymffurfio).

(3) Os dyletswydd i gydymffurfio â safon yw'r gofyniad perthnasol, dim ond os yw'n amau bod D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol y caiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan yr adran hon.

(4) Mae Atodlen 10 yn gwneud darpariaeth bellach ynglŷn ag ymchwiliadau.

**72 Terfynu ymchwiliad**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Comisiynydd yn cynnal ymchwiliad o dan adran 71.

(2) Caiff y Comisiynydd derfynu'r ymchwiliad ar unrhyw adeg.

(3) Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu terfynu'r ymchwiliad, rhaid i'r Comisiynydd—

(a) hysbysu pob person a chanddo fuddiant, a

(b) hysbysu D o'r rhesymau dros ddod i'r penderfyniad.

(4) Rhaid i'r Comisiynydd gydymffurfio ag is-adran (3) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dod i'r penderfyniad.

*Dyfarnu ar ymchwiliad*

**73 Dyfarnu ar ymchwiliad**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) os yw'r Comisiynydd yn cynnal ymchwiliad o dan adran 71, a

(b) os nad yw'r Comisiynydd yn terfynu'r ymchwiliad.

(2) Rhaid i'r Comisiynydd ddyfarnu a yw D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol ai peidio.

(3) Rhaid i'r Comisiynydd—

(a) llunio adroddiad ar yr ymchwiliad, a

(b) rhoi copi o'r adroddiad ar yr ymchwiliad i bob person a chanddo fuddiant.

(4) Rhaid i'r Comisiynydd—

(a) rhoi hysbysiad penderfynu i D, a

(b) rhoi copi o'r hysbysiad penderfynu i bob person arall a chanddo fuddiant.

(5) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i adran 85.

*Adroddiadau ar ymchwiliadau*

**74 Adroddiadau ar ymchwiliadau**

(1) Yn y Mesur hwn, ystyr "adroddiad ar ymchwiliad" yw adroddiad ar ymchwiliad o dan adran 71 sy'n cynnwys pob un o'r canlynol—

(a) cylch gorchwyl yr ymchwiliad;

(b) crynodeb o'r dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad;

(c) canfyddiadau'r Comisiynydd ar yr ymchwiliad;

(d) dyfarniad y Comisiynydd ar a yw D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol ai peidio;

(e) datganiad ar a yw'r Comisiynydd am weithredu ymhellach;

(f) os yw'r Comisiynydd am weithredu ymhellach, datganiad ar y gweithredu hwnnw.

(2) Nid yw is-adran (1) yn atal y Comisiynydd rhag cynnwys materion eraill mewn adroddiad ar ymchwiliad.

*Hysbysiadau penderfynu*

**75 Hysbysiadau penderfynu**

(1) Yn y Mesur hwn ystyr "hysbysiad penderfynu" yw hysbysiad sy'n datgan dyfarniad y Comisiynydd ar a yw D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol ai peidio.

(2) Nid yw is-adran (1) yn atal hysbysiad penderfynu rhag cynnwys materion eraill (ac mae darpariaethau penodol yn y Rhan hon yn ei gwneud yn ofynnol i faterion eraill gael eu cynnwys mewn amgylchiadau penodol).

*Dim methiant i gydymffurfio: opsiynau'r Comisiynydd*

**76 Dim methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Comisiynydd yn dyfarnu nad yw D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol.

(2) Caiff y Comisiynydd—

(a) peidio â gweithredu ymhellach, neu

(b) gweithredu o dan is-adran (3).

(3) Caiff y Comisiynydd wneud un neu ragor o'r pethau a ganlyn—

(a) rhoi argymhellion i D neu i unrhyw berson arall;

(b) rhoi cyngor i D neu i unrhyw berson arall.

(4) Os yw'r ymchwiliad a arweiniodd at y dyfarniad yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93, rhaid i'r hysbysiad penderfynu perthnasol roi gwybod i'r person a wnaeth y gŵyn am yr hawl i apelio o dan adran 99.

(5) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i adran 85.

(6) Yn yr adran hon ystyr "hysbysiad penderfynu perthnasol" yw'r hysbysiad penderfynu y mae adran 73 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ei roi i'r person a wnaeth y gŵyn o dan adran 93.

*Methiant i gydymffurfio: opsiynau'r Comisiynydd*

**77 Methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Comisiynydd yn dyfarnu bod D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol.

(2) Caiff y Comisiynydd—
- (a) beidio â gweithredu ymhellach,
- (b) gweithredu o dan is-adran (3), neu
- (c) gweithredu o dan is-adran (4).

(3) Caiff y Comisiynydd wneud un neu ragor o'r pethau a ganlyn—
- (a) ei gwneud yn ofynnol i D baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal methiant D i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
- (b) ei gwneud yn ofynnol i D gymryd camau at y diben o atal methiant D i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
- (c) rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
- (d) ei gwneud yn ofynnol i D roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
- (e) gosod cosb sifil ar D.

(4) Caiff y Comisiynydd wneud un neu ragor o'r pethau a ganlyn—
- (a) rhoi argymhellion i D neu i unrhyw berson arall;
- (b) rhoi cyngor i D neu i unrhyw berson arall;
- (c) ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda D (gweler Pennod 2), ond dim ond os dyletswydd i gydymffurfio â safon yw'r gofyniad perthnasol.

(5) Os yw'r Comisiynydd yn ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda D—
- (a) nid oes gorfodaeth ar D i ymrwymo yn y cytundeb hwnnw;
- (b) os yw D yn gwrthod ymrwymo mewn cytundeb setlo, caiff y Comisiynydd arfer ei bwerau o dan yr adran hon mewn modd gwahanol, ond nid oes angen iddo wneud hynny.

(6) Os yw'r Comisiynydd yn gweithredu o dan is-adran (3), nid yw is-adrannau (2) a (3) yn atal y Comisiynydd rhag gwneud hefyd y naill neu'r llall neu'r naill a'r llall o'r canlynol—
- (a) rhoi argymhellion i D neu i unrhyw berson arall;
- (b) rhoi cyngor i D neu i unrhyw berson arall.

(7) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i adran 85.

*Dim camau gorfodi gosodedig*

**78 Dim camau gorfodi gosodedig**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Comisiynydd—

(a) yn dyfarnu bod D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol, ond

(b) yn penderfynu—

(i) peidio â gweithredu ymhellach, neu

(ii) gweithredu o dan adran 77(4).

(2) Rhaid i'r hysbysiad penderfynu perthnasol roi rhesymau'r Comisiynydd dros benderfynu—

(a) peidio â gweithredu ymhellach, neu

(b) gweithredu o dan adran 77(4) ac nid o dan adran 77(3).

(3) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i adran 85.

(4) Yn yr adran hon, ystyr "hysbysiad penderfynu perthnasol" yw'r hysbysiad y mae adran 73 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ei roi i D.

*Atal methiant D i gydymffurfio rhag parhau neu gael ei ailadrodd*

**79 Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu neu i gymryd camau**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Comisiynydd—

(a) yn dyfarnu bod D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol, a

(b) yn penderfynu ei gwneud yn ofynnol i D wneud un o'r pethau a ganlyn neu'r ddau ohonynt—

(i) paratoi cynllun gweithredu at y diben o atal methiant D i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd;

(ii) cymryd camau at y diben o atal methiant D i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

(2) Rhaid i'r hysbysiad penderfynu perthnasol ddatgan yr hyn y mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i D ei wneud.

(3) Os yw'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i D baratoi cynllun gweithredu, rhaid i'r hysbysiad penderfynu perthnasol bennu o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid i D—

(a) llunio cynllun drafft cyntaf, a

(b) rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd.

(4) Rhaid i'r hysbysiad penderfynu perthnasol hysbysu D—

(a) o'r canlyniadau os nad yw D yn cydymffurfio â gofyniad sydd wedi ei gynnwys yn yr hysbysiad yn rhinwedd yr adran hon; a

(b) o'r hawl i apelio o dan adran 95.

(5) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i adran 85.

(6) Yn yr adran hon ystyr "hysbysiad penderfynu perthnasol" yw'r hysbysiad y mae adran 73 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ei roi i D.

## 80 Cynlluniau gweithredu

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Comisiynydd yn rhoi hysbysiad penderfynu i D sy'n ei gwneud yn ofynnol i D baratoi cynllun gweithredu.

(2) Rhaid i D roi cynllun drafft cyntaf i'r Comisiynydd o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad penderfynu.

(3) Ar ôl i gynllun drafft cyntaf ddod i law oddi wrth berson rhaid i'r Comisiynydd—

- (a) ei gymeradwyo, neu
- (b) rhoi i'r person hysbysiad—
  - (i) sy'n datgan nad yw'r drafft yn ddigonol,
  - (ii) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person roi drafft diwygiedig i'r Comisiynydd erbyn amser penodedig, a
  - (iii) sy'n nodi y caniateir iddo wneud argymhellion ynghylch cynnwys y drafft diwygiedig.

(4) Mae is-adran (3) yn gymwys mewn perthynas â chynllun drafft diwygiedig fel y mae'n gymwys mewn perthynas â chynllun drafft cyntaf.

(5) Daw cynllun gweithredu i rym—

- (a) ar ddiwedd cyfnod o chwe wythnos yn dechrau ar y dyddiad y rhoddir drafft cyntaf neu ddrafft diwygiedig i'r Comisiynydd, os daw'r cyfnod hwnnw i ben heb i'r Comisiynydd—
  - (i) rhoi hysbysiad o dan is-adran (3)(b), neu
  - (ii) gwneud cais am orchymyn o dan is-adran (6)(b), neu
- (b) ar yr adeg pryd y bydd llys yn gwrthod gwneud gorchymyn o dan is-adran (6)(b) mewn perthynas â drafft diwygiedig o'r cynllun.

(6) Caiff y Comisiynydd wneud cais i lys sirol—

- (a) am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson roi cynllun drafft cyntaf i'r Comisiynydd erbyn amser a bennir yn y gorchymyn; neu
- (b) am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson sydd wedi rhoi cynllun drafft diwygiedig i'r Comisiynydd baratoi a rhoi cynllun drafft diwygiedig pellach i'r Comisiynydd—
  - (i) erbyn amser a bennir yn y gorchymyn, a
  - (ii) yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau ynghylch cynnwys y cynllun a bennir yn y gorchymyn.

(7) Caniateir i gynllun gweithredu gael ei amrywio drwy gytundeb rhwng y Comisiynydd a'r person a'i paratôdd.

(8) Mae paragraffau 5 i 12 o Atodlen 10 yn gymwys mewn perthynas â bod y Comisiynydd yn ystyried a yw cynllun gweithredu drafft yn ddigonol fel y mae'r paragraffau hynny'n gymwys mewn perthynas â chynnal ymchwiliad.

*Rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D i gydymffurfio*

## 81 Rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant i gydymffurfio

(1) Yn y Mesur hwn, mae cyfeiriadau at fod y Comisiynydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol yn gyfeiriadau at fod y Comisiynydd yn gwneud y naill neu'r llall o'r canlynol neu'r naill a'r llall o'r canlynol—

(a) cyhoeddi datganiad yn dweud bod D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;

(b) cyhoeddi'r adroddiad ar yr ymchwiliad a luniwyd mewn perthynas â'r ymchwiliad i D.

(2) Yn y Mesur hwn, mae cyfeiriadau at fod gofyn i D roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol yn gyfeiriadau at fod gofyn i D roi cyhoeddusrwydd i unrhyw un neu ragor neu'r oll o'r canlynol—

(a) datganiad bod D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;

(b) yr adroddiad ar yr ymchwiliad a luniwyd mewn perthynas â'r ymchwiliad i D;

(c) gwybodaeth arall sy'n ymwneud â methiant D i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol.

## 82 Ei gwneud yn ofynnol rhoi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os bydd y Comisiynydd—

(a) yn dyfarnu bod D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol, a

(b) yn penderfynu gwneud y naill neu'r llall o'r canlynol neu'r naill a'r llall o'r canlynol—

(i) rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;

(ii) ei gwneud yn ofynnol i D roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol.

(2) Rhaid i'r hysbysiad penderfynu perthnasol ddatgan yr hyn y mae'r Comisiynydd—

(a) i'w wneud er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D;

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i D ei wneud er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r methiant.

(3) Rhaid i'r hysbysiad penderfynu perthnasol roi gwybod i D—

(a) beth fydd y canlyniadau os na fydd D yn cydymffurfio â gofyniad sydd wedi ei gynnwys yn yr hysbysiad yn rhinwedd yr adran hon; a

(b) am yr hawl i apelio o dan adran 95.

(4) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i adran 85.

(5) Yn yr adran hon ystyr "hysbysiad penderfynu perthnasol" yw'r hysbysiad penderfynu y mae adran 73 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ei roi i D.

*Cosbau sifil*

## 83 Cosbau sifil

(1) Rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r materion a nodir yn is-adran (2) pan fydd yn penderfynu—

(a) ai i roi cosb sifil i unrhyw berson ai peidio, a

(b) ynghylch swm unrhyw gosb sifil.

(2) Y canlynol yw'r materion hynny—

(a) pa mor ddifrifol yw'r mater y mae'r gosb sifil i'w rhoi mewn cysylltiad ag ef;

(b) amgylchiadau'r person y mae'r gosb sifil i'w rhoi iddo;

(c) yr angen am atal parhau neu ailadrodd y mater y mae'r gosb sifil i'w rhoi mewn cysylltiad ag ef.

(3) Nid yw is-adran (1) yn atal y Comisiynydd rhag rhoi sylw i faterion eraill.

(4) Rhaid i gosb sifil beidio â bod yn fwy na £5,000.

(5) Mae cosb sifil yn adferadwy gan y Comisiynydd fel dyled sy'n ddyladwy i'r Comisiynydd.

(6) Rhaid i'r Comisiynydd dalu'r holl gosbau sifil sy'n dod i law i Gronfa Gyfunol Cymru.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, roi swm gwahanol yn lle'r swm sydd wedi ei bennu o bryd i'w gilydd yn is-adran (4).

(8) Yn yr adran hon ystyr "cosb sifil" yw unrhyw gosb sifil y caiff y Comisiynydd ei rhoi.

## 84 Rhoi cosb sifil

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Comisiynydd—
(a) yn dyfarnu bod D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol, a
(b) yn penderfynu rhoi cosb sifil i D.

(2) Rhaid i'r hysbysiad penderfynu perthnasol ddatgan—
(a) y gosb sifil y mae'r Comisiynydd wedi penderfynu ei rhoi;
(b) sut y caniateir i'r gosb sifil gael ei thalu;
(c) y cyfnod y mae'n rhaid talu'r gosb sifil cyn iddo ddod i ben (ac y mae'n rhaid iddo fod yn gyfnod o ddim llai na 28 o ddiwrnodau).

(3) Rhaid i hysbysiad penderfynu perthnasol roi gwybod hefyd i D—
(a) beth fydd y canlyniadau os na fydd D yn talu'r gosb sifil; a
(b) am yr hawl i apelio o dan adran 95.

(4) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i adran 85.

(5) Yn yr adran hon ystyr "hysbysiad penderfynu perthnasol" yw'r hysbysiad penderfynu y mae adran 73 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ei roi i D.

*Ymgynghori*

## 85 Ymgynghori cyn dyfarnu'n derfynol etc

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Comisiynydd yn ymgymryd ag ymchwiliad o dan adran 71.

(2) Cyn dyfarnu'n derfynol ynghylch a yw D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol ai peidio, rhaid i'r Comisiynydd roi i bob person a chanddo fuddiant hysbysiad o'r dyfarniad y mae'r Comisiynydd yn bwriadu ei roi.

(3) Cyn penderfynu'n derfynol pa weithredu pellach i'w wneud, os o gwbl, rhaid i'r Comisiynydd roi i bob person a chanddo fuddiant—
(a) hysbysiad yn nodi a yw'r Comisiynydd yn bwriadu gweithredu ymhellach ai peidio, a datganiad am resymau'r Comisiynydd dros fwriadu gwneud hynny;

(b) os yw'r Comisiynydd yn bwriadu gweithredu ymhellach, hysbysiad yn nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd, a datganiad am resymau'r Comisiynydd dros fwriadu gweithredu felly; ac

(c) copïau drafft o'r hysbysiad penderfynu y mae'r Comisiynydd yn bwriadu ei roi.

(4) Cyn setlo adroddiad yr ymchwiliad, rhaid i'r Comisiynydd roi drafft o'r adroddiad arfaethedig i bob person a chanddo fuddiant.

(5) Rhaid i'r Comisiynydd—

(a) rhoi cyfle i D i wneud sylwadau ynghylch y cynigion y cyfeirir atynt yn is-adrannau (2), (3) a (4), a

(b) rhoi cyfle i unrhyw berson arall a chanddo fuddiant i wneud sylwadau ynghylch y cynigion y cyfeirir atynt yn is-adrannau (2) a (4).

(6) Rhaid i'r Comisiynydd roi sylw dyladwy i unrhyw sylwadau a wneir gan D neu gan unrhyw berson arall a chanddo fuddiant cyn cymryd unrhyw gam y mae'r sylwadau'n ymwneud ag ef.

(7) Y Comisiynydd sydd i bennu'r cyfnod a ganiateir i berson ar gyfer gwneud sylwadau yn unol ag is-adran (5); ond rhaid i'r cyfnod beidio â bod yn llai na 28 o ddiwrnodau.

## 86 Ymgynghori cyn dyfarnu'n derfynol yn dilyn apêl

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os cyfarwyddir y Comisiynydd, yn dilyn apêl o dan adran 99 neu 101, neu'n dilyn unrhyw apêl bellach, i ddyfarnu o dan adran 73 bod D wedi methu â chydymffurfio â safon (y “dyfarniad newydd”).

(2) Cyn penderfynu'n derfynol pa weithredu pellach i'w wneud, os o gwbl, ar sail y dyfarniad newydd, rhaid i'r Comisiynydd roi i bob person a chanddo fuddiant—

(a) hysbysiad yn nodi a yw'r Comisiynydd yn bwriadu gweithredu ymhellach ai peidio, a datganiad am resymau'r Comisiynydd dros fwriadu gwneud hynny;

(b) os yw'r Comisiynydd yn bwriadu gweithredu ymhellach, hysbysiad yn nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd, a datganiad am resymau'r Comisiynydd dros fwriadu gweithredu felly; ac

(c) copïau drafft o'r hysbysiad penderfynu y mae'r Comisiynydd yn bwriadu ei roi.

(3) Cyn setlo adroddiad yr ymchwiliad, rhaid i'r Comisiynydd roi drafft o'r adroddiad arfaethedig i bob person a chanddo fuddiant.

(4) Rhaid i'r Comisiynydd—

(a) rhoi cyfle i D i wneud sylwadau ynghylch y cynigion y cyfeirir atynt yn is-adrannau (2) a (3), a

(b) rhoi cyfle i unrhyw berson arall a chanddo fuddiant i wneud sylwadau ynghylch y cynigion y cyfeirir atynt yn is-adran (3).

(5) Rhaid i'r Comisiynydd roi sylw dyladwy i unrhyw sylwadau a wneir gan D neu gan unrhyw berson arall a chanddo fuddiant o dan is-adran (4).

(6) Y Comisiynydd sydd i bennu'r cyfnod a ganiateir i berson ar gyfer gwneud sylwadau yn unol ag is-adran (4); ond rhaid i'r cyfnod beidio â bod yn llai na 28 o ddiwrnodau.

*Yr adeg y bydd camau gorfodi yn dod yn effeithiol*

### 87 Yr adeg y bydd camau gorfodi yn dod yn effeithiol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Comisiynydd yn rhoi hysbysiad penderfynu i D yn nodi camau gorfodi y mae'r Comisiynydd wedi penderfynu eu cymryd mewn perthynas â dyfarniad o dan adran 73.

(2) Rhaid i D—

(a) paratoi cynllun gweithredu neu gymryd camau, neu

(b) rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant i gydymffurfio,

os yw'r hysbysiad penderfynu'n ei gwneud yn ofynnol i D wneud hynny, yn unol ag adran 79 neu 82.

(3) Rhaid i D dalu cosb sifil a nodir yn yr hysbysiad penderfynu yn unol ag adran 84.

(4) Ond dim ond ar ôl i'r cyfnod o 28 o ddiwrnodau ar gyfer gwneud apêl berthnasol ddod i ben y mae is-adrannau (2) a (3) yn gymwys.

(5) Dim ond ar ôl i'r cyfnod o 28 o ddiwrnodau ar gyfer gwneud apêl berthnasol ddod i ben y caiff y Comisiynydd roi cyhoeddusrwydd i fethiant D i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol.

(6) Os gwneir apêl berthnasol, nid yw is-adrannau (2), (3) a (5) yn gymwys—

(a) oni fydd, a hyd oni fydd, yr apêl honno, ac unrhyw apêl bellach, wedi dod i ben yn derfynol, a

(b) o ran apêl bellach—

(i) oni na ellir, a hyd na ellir gwneud un, neu

(ii) oni na ellir, a hyd na ellir gwneud un heb ganiatâd y Tribiwnlys neu ganiatâd llys.

(7) Yn yr adran hon, ystyr "apêl berthnasol" yw apêl i'r Tribiwnlys o dan adran 95 mewn cysylltiad â'r materion sydd wedi eu nodi yn yr hysbysiad penderfynu.

*Gorfodi gan lys sirol*

### 88 Methiant i gydymffurfio â gofyniad i gymryd camau

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os bydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad penderfynu i D sy'n ei gwneud yn ofynnol i D gymryd camau at y diben o atal methiant D i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

(2) Caiff y Comisiynydd, yn ystod y cyfnod perthnasol, wneud cais i lys sirol am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i D gydymffurfio â'r gofyniad yn yr hysbysiad penderfynu.

(3) Yn yr adran hon ystyr "cyfnod perthnasol" yw'r cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad penderfynu.

### 89 Methiant i gydymffurfio â chynllun gweithredu

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw D wedi llunio cynllun gweithredu yn unol ag adran 80.

(2) Caiff y Comisiynydd, yn ystod y cyfnod perthnasol, wneud cais i lys sirol am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i D gydymffurfio â'r cynllun gweithredu.

(3) Yn yr adran hon ystyr "cyfnod perthnasol" yw'r cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r cynllun gweithredu i rym.

### 90 Methiant i gydymffurfio â gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i fethiant i gydymffurfio

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Comisiynydd yn rhoi hysbysiad penderfynu i D sy'n ei gwneud yn ofynnol i D gymryd camau i roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio.

(2) Caiff y Comisiynydd, yn ystod y cyfnod perthnasol, wneud cais i lys sirol am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i D gydymffurfio â'r gofyniad yn yr hysbysiad penderfynu.

(3) Yn yr adran hon ystyr "cyfnod perthnasol" yw'r cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad penderfynu.

## PENNOD 2

## CYTUNDEBAU SETLO

### 91 Cytundebau setlo

(1) Mae cyfeiriad at gytundeb setlo rhwng y Comisiynydd a pherson (D) ynghylch methiant D i gydymffurfio â safon (y "methiant perthnasol") yn gyfeiriad at gytundeb sy'n cynnwys—

- (a) ymgymeriad gan D i wneud un neu ragor o'r pethau canlynol—
  - (i) peidio â methu â chydymffurfio ag un neu ragor o safonau;
  - (ii) gweithredu mewn ffordd benodol (a gaiff gynnwys paratoi cynllun o gamau sydd i'w cymryd, ond heb fod wedi ei gyfyngu i hynny);
  - (iii) peidio â gweithredu mewn ffordd benodol; a
- (b) ymgymeriad gan y Comisiynydd i beidio â chymryd camau gorfodi mewn cysylltiad â'r methiant perthnasol.

(2) O ran cytundeb setlo —

- (a) caiff gynnwys darpariaeth gysylltiedig neu atodol (a gaiff gynnwys darpariaeth ar gyfer terfynu'r cytundeb mewn amgylchiadau penodedig, ond heb fod wedi ei gyfyngu i hynny), a
- (b) caniateir ei amrywio neu ei derfynu drwy gytundeb rhwng y Comisiynydd a D.

(3) Ni fernir bod D wedi cyfaddef y methiant perthnasol dim ond oherwydd ei fod wedi ymrwymo mewn cytundeb setlo.

(4) Mae is-adran (1) yn gymwys at ddibenion y Mesur hwn.

### 92 Methiant i gydymffurfio â chytundeb setlo

(1) Caiff y Comisiynydd, yn ystod y cyfnod perthnasol, wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i D gydymffurfio â chytundeb setlo.

(2) Yn yr adran hon ystyr "cyfnod perthnasol" yw'r cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod yr ymrwymir yn y cytundeb setlo.

## PENNOD 3

## DIFFYG CYDYMFFURFIO Â SAFONAU: CWYNION GAN BERSONAU YR EFFEITHIR ARNYNT

### 93 Ystyried ai i ymchwilio ai peidio os gwneir cwyn ynghylch ymddygiad

(1) Rhaid i'r Comisiynydd ystyried ai i gynnal ymchwiliad o dan adran 71 ai peidio i'r cwestiwn a yw ymddygiad person (D) ("yr ymddygiad honedig") yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â safon—

- (a) os yw person (P) yn gwneud cwyn i'r Comisiynydd ynglŷn â'r ymddygiad, a
- (b) os yw'r gŵyn yn un ddilys.

(2) Mae cwyn gan P i'r Comisiynydd yn gŵyn ddilys os bodlonir yr amodau yn is-adrannau (3) i (6).

(3) Rhaid i P fod—

- (a) yn berson y mae'n ymddangos i'r Comisiynydd fod yr ymddygiad honedig wedi effeithio arno'n uniongyrchol, neu
- (b) yn berson sy'n gweithredu ar ran y person hwnnw.

(4) Rhaid gwneud y gŵyn yn ysgrifenedig, oni bai bod amgylchiadau personol P yn golygu na fyddai'n rhesymol i P wneud y gŵyn yn ysgrifenedig.

(5) Rhaid i'r gŵyn roi cyfeiriad lle y caiff y Comisiynydd gysylltu â P (boed y cyfeiriad yn gyfeiriad post, electronig neu'n gyfeiriad o ddisgrifiad arall).

(6) Rhaid i'r gŵyn—

- (a) ei gwneud yn hysbys pwy yw D, a
- (b) ei gwneud yn hysbys beth yw'r ymddygiad honedig.

(7) Ond, os bodlonir yr amodau hynny, nid oes angen i'r Comisiynydd ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio—

- (a) os gwneir y gŵyn fwy na blwyddyn ar ôl i'r person yr effeithiwyd arno ddod yn ymwybodol o'r ymddygiad honedig,
- (b) os yw'r Comisiynydd o'r farn bod y gŵyn yn wacsaw neu'n flinderus, neu'n un sydd eisoes wedi ei gwneud sawl gwaith, neu
- (c) os tynnir y gŵyn yn ôl.

(8) Nid yw'r adran hon yn atal y Comisiynydd rhag ystyried ai i gynnal yr ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio—

- (a) os na fodlonir unrhyw un neu ragor o'r amodau yn is-adrannau (3) i (6), neu
- (b) os yw is-adran (7) yn gymwys.

(9) Os gwneir cwyn o dan yr adran hon gan berson sy'n gweithredu ar ran person arall, yn narpariaethau'r Mesur hwn sy'n ymwneud ag apelau neu apelau pellach sy'n gysylltiedig â'r gŵyn, mae cyfeiriad at y person a wnaeth y gŵyn (gan gynnwys achos pan gyfeirir at y person hwnnw fel "P") i'w ddarllen fel cyfeiriad at y person arall (ac nid fel cyfeiriad at y person a wnaeth y gŵyn).

(10) Yn yr adran hon ystyr "person yr effeithiwyd arno" yw person y mae'n ymddangos i'r Comisiynydd fod yr ymddygiad honedig wedi effeithio arno'n uniongyrchol.

**94 Hysbysiad os nad oes ymchwiliad etc**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn unrhyw un neu ragor o'r achosion a ganlyn.

(2) Yr achos cyntaf yw—
- (a) pan fo'r ddyletswydd o dan adran 93 i ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio yn gymwys, a
- (b) pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad.

(3) Yr ail achos yw—
- (a) pan fo adran 93(7) yn gymwys o ran cwyn, a
- (b) pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu peidio ag ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio.

(4) Y trydydd achos yw pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu nad yw'r ddyletswydd o dan adran 93 i ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio yn gymwys.

(5) Y pedwerydd achos yw—
- (a) pan nad yw'r ddyletswydd o dan adran 93 i ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio yn gymwys, a
- (b) pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu peidio ag ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio o dan adran 93(8) neu, ar ôl ystyried ai i gynnal ymchwiliad o dan yr adran honno, yn penderfynu peidio â chynnal yr ymchwiliad.

(6) Y pumed achos yw—
- (a) pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu cynnal ymchwiliad, ac
- (b) pan fo'r Comisiynydd wedyn yn penderfynu terfynu'r ymchwiliad.

(7) Rhaid i'r Comisiynydd hysbysu P—
- (a) o'r penderfyniad a nodir yn is-adrannau (2)(b), (3)(b), (4), (5)(b) neu (6)(b), a
- (b) o'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, ac
- (c) o'r hawl i gael adolygiad o dan adran 103.

## PENNOD 4

## APELAU

**95 Apelau i'r Tribiwnlys**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Comisiynydd—
- (a) yn cynnal ymchwiliad o dan adran 71, a

(b) yn dyfarnu bod D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol.

(2) Caiff D apelio i'r Tribiwnlys ar y sail na fethodd D â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol.

(3) Ond ni chaiff D apelio i'r Tribiwnlys o dan is-adran (2) os yw'r Comisiynydd wedi ei gyfarwyddo, yn dilyn apêl o dan adran 99 neu 101, neu unrhyw apêl bellach, i ddyfarnu bod D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol.

(4) Os yw'r Comisiynydd yn cymryd camau gorfodi mewn cysylltiad â methiant D i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol, caiff D apelio i'r Tribiwnlys ar y sail bod y camau gorfodi yn afresymol neu'n anghymesur.

(5) Rhaid i apêl o dan yr adran hon gael ei gwneud cyn diwedd y cyfnod perthnasol o 28 o ddiwrnodau.

(6) Ond caiff y Tribiwnlys, pan wneir cais ysgrifenedig gan D, ganiatáu i apêl gael ei gwneud ar ôl diwedd y cyfnod perthnasol o 28 o ddiwrnodau os yw'r Tribiwnlys wedi ei fodloni bod rheswm da—

(a) dros y methiant i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw, a

(b) os oes unrhyw oedi wedi bod cyn gwneud cais am ganiatâd i apelio ar ôl yr amser priodol, dros yr oedi hwnnw.

(7) Caniateir i gais o dan is-adran (6) gael ei wneud cyn diwedd neu ar ôl diwedd y cyfnod perthnasol o 28 o ddiwrnodau.

(8) Caiff D apelio o dan is-adran (4) p'un a yw D yn apelio hefyd o dan is-adran (2) ai peidio.

(9) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys (sy'n cael gwneud, ymysg pethau eraill, ddarpariaeth ynghylch y modd y ceir dwyn apelau o dan yr adran hon).

(10) Yn y Bennod hon ystyr "cyfnod perthnasol o 28 o ddiwrnodau" yw'r cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r Comisiynydd yn rhoi'r hysbysiad penderfynu i D mewn perthynas â'r ymchwiliad.

## 96 Pwerau'r Tribiwnlys pan wneir apêl

(1) Pan wneir apêl o dan adran 95(2), caiff y Tribiwnlys—

(a) cadarnhau dyfarniad y Comisiynydd, neu

(b) diddymu dyfarniad y Comisiynydd.

(2) Pan wneir apêl o dan adran 95(4), caiff y Tribiwnlys—

(a) cadarnhau'r camau gorfodi,

(b) amrywio'r camau gorfodi (gan gynnwys drwy gymryd camau gorfodi o fath gwahanol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny), neu

(c) diddymu'r camau gorfodi.

(3) Rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu D a'r Comisiynydd o'i benderfyniad ar apêl o dan adran 95.

(4) Mae i unrhyw benderfyniad gan y Tribiwnlys pan wneir apêl o dan adran 95 yr un effaith â dyfarniad y Comisiynydd, a gellir ei orfodi yn yr un modd.

### 97 Apelau o'r Tribiwnlys

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Tribiwnlys wedi penderfynu apêl o dan adran 95.

(2) Caiff y Comisiynydd neu D, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, apelio i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o'r penderfyniad.

(3) Os yw'r Uchel Lys yn dyfarnu bod y Tribiwnlys wedi gwneud camgymeriad ar bwynt cyfreithiol—

(a) caiff yr Uchel Lys osod penderfyniad y Tribiwnlys o'r naill du, a

(b) os bydd yr Uchel Lys yn gosod y penderfyniad o'r naill du, rhaid iddo naill ai—

(i) anfon yr achos yn ôl i'r Tribiwnlys gyda chyfarwyddyd ar gyfer ei ailystyried, neu

(ii) ail-wneud y penderfyniad.

(4) Mae'r cyfarwyddiadau y caniateir i'r Uchel Lys eu rhoi o dan is-adran (3)(b)(i) yn cynnwys y canlynol, ond heb fod wedi eu cyfyngu iddynt—

(a) cyfarwyddyd na all y personau sydd i ailystyried yr achos fod yr un rhai â'r personau a wnaeth y penderfyniad sydd wedi ei roi o'r naill du,

(b) cyfarwyddiadau gweithredu mewn cysylltiad ag ailystyried yr achos.

(5) Wrth ail-wneud y penderfyniad yn unol ag is-adran (3)(b)(ii), caniateir i'r Uchel Lys—

(a) gwneud unrhyw benderfyniad y gallai'r Tribiwnlys ei wneud pe bai'r Tribiwnlys yn gwneud y penderfyniad, a

(b) gwneud y canfyddiadau ffeithiol sy'n briodol yn nhyb yr Uchel Lys.

(6) Rhaid i gais am ganiatâd i apelio gael ei wneud i'r Tribiwnlys neu i'r Uchel Lys o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod yr hysbysodd y Tribiwnlys y person sy'n gwneud y cais o'i benderfyniad ar yr apêl o dan adran 95.

(7) Ond caiff y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, ar gais ysgrifenedig gan y Comisiynydd neu D, ganiatáu i apêl gael ei gwneud ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw os yw'r Tribiwnlys neu'r Uchel Lys wedi ei fodloni bod rheswm da—

(a) dros y methiant i wneud cais am ganiatâd i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw, a

(b) os oedd unrhyw oedi wedi bod cyn gwneud y cais am ganiatâd i apelio ar ôl yr amser priodol, dros yr oedi hwnnw.

(8) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys.

### 98 Dyletswydd y Comisiynydd ar apêl

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) os yw'r Comisiynydd wedi cynnal ymchwiliad o dan adran 71 yn dilyn cwyn o dan adran 93, a

(b) os gwneir apêl o dan adran 95 neu 97, neu os gwneir unrhyw apêl bellach, mewn perthynas â'r ymchwiliad, ac

(c) os nad yw P yn barti yn yr achos hwnnw.

(2) Rhaid i'r Comisiynydd—

(a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael ei hysbysu o ganlyniad, apêl o dan adran 95 roi i'r person a wnaeth y gŵyn hysbysiad yn nodi'r canlyniad,

(b) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael ei hysbysu o apêl o dan adran 97, neu unrhyw apêl bellach, roi i'r person a wnaeth y gŵyn hysbysiad yn nodi bod yr apêl wedi ei gwneud, ac
(c) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael ei hysbysu o ganlyniad apêl o dan adran 97 neu o ganlyniad apêl bellach, roi i'r person a wnaeth y gŵyn hysbysiad yn nodi'r canlyniad.

## PENNOD 5

## APELAU GAN YR ACHWYNYDD

*Apelau yn erbyn dyfarniad nad yw D wedi methu â chydymffurfio â safon*

### 99 Hawl P i apelio

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—
(a) os yw person (P) yn gwneud cwyn o dan adran 93,
(b) os yw'r Comisiynydd yn cynnal ymchwiliad o dan adran 71 yn dilyn y gŵyn, ac
(c) os yw'r Comisiynydd yn dyfarnu nad yw D wedi methu â chydymffurfio â safon.

(2) Caiff P apelio i'r Tribiwnlys ar y sail bod D wedi methu â chydymffurfio â'r safon.

(3) Rhaid i apêl o dan yr adran hon gael ei gwneud cyn diwedd y cyfnod perthnasol o 28 o ddiwrnodau.

(4) Ond caiff y Tribiwnlys, pan wneir cais ysgrifenedig gan P, ganiatáu i apêl gael ei gwneud ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw os yw'r Tribiwnlys wedi ei fodloni bod rheswm da—
(a) dros y methiant i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw, a
(b) os oes unrhyw oedi wedi bod cyn gwneud cais am ganiatâd i apelio ar ôl yr amser priodol, dros yr oedi hwnnw.

(5) Caniateir i gais o dan is-adran (4) gael ei wneud cyn diwedd neu ar ôl diwedd y cyfnod perthnasol o 28 o ddiwrnodau.

(6) Rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu P a'r Comisiynydd o'i benderfyniad ar apêl o dan yr adran hon.

(7) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys (sy'n cael gwneud, ymysg pethau eraill, ddarpariaeth ynghylch y modd y ceir dwyn apelau o dan yr adran hon).

(8) Yn y Bennod hon ystyr "cyfnod perthnasol o 28 o ddiwrnodau" yw'r cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r Comisiynydd yn rhoi'r hysbysiad penderfynu i P mewn perthynas â'r ymchwiliad.

### 100 Pwerau'r Tribiwnlys pan wneir apêl gan P

(1) Pan wneir apêl o dan adran 99, caiff y Tribiwnlys—
(a) cadarnhau dyfarniad y Comisiynydd, neu
(b) diddymu dyfarniad y Comisiynydd.

(2) Os yw'r Tribiwnlys yn diddymu dyfarniad y Comisiynydd (y "dyfarniad gwreiddiol"), rhaid i'r Tribiwnlys gyfarwyddo'r Comisiynydd i ddyfarnu o dan adran 73 fod D wedi methu â chydymffurfio â'r safon (y "dyfarniad newydd").

(3) Os yw'r Tribiwnlys yn cyfarwyddo'r Comisiynydd o dan is-adran (2), rhaid i'r Comisiynydd ddirymu'r hysbysiad penderfynu a'r adroddiad ar ymchwiliad a roddwyd o dan adran 73 mewn perthynas â'r dyfarniad gwreiddiol.

(4) Mae adran 73(3) a (4), a darpariaethau eraill y Mesur hwn, yn gymwys i'r dyfarniad newydd fel y maent yn gymwys i unrhyw ddyfarniad arall o dan adran 73.

(5) Rhaid i'r adroddiad ar ymchwiliad a roddir o dan adran 73(3) mewn perthynas â'r dyfarniad newydd gynnwys datganiad bod y Comisiynydd wedi gwneud y dyfarniad newydd i gydymffurfio â chyfarwyddyd gan y Tribiwnlys.

(6) I'r graddau y mae adrannau 77, 78, 79, 82 ac 84 yn gymwys i'r dyfarniad newydd, maent yn ddarostyngedig i adran 86 ond nid i adran 85.

### 101 Apelau o'r Tribiwnlys

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Tribiwnlys wedi penderfynu apêl o dan adran 99.

(2) Caiff y Comisiynydd neu P, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, apelio i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o'r penderfyniad.

(3) Os yw'r Uchel Lys yn dyfarnu bod y Tribiwnlys wedi gwneud camgymeriad ar bwynt cyfreithiol—

(a) caiff yr Uchel Lys osod penderfyniad y Tribiwnlys o'r naill du, a

(b) os bydd yr Uchel Lys yn gosod y penderfyniad o'r naill du, rhaid iddo naill ai—

(i) anfon yr achos yn ôl i'r Tribiwnlys gyda chyfarwyddyd ar gyfer ei ailystyried, neu

(ii) ail-wneud y penderfyniad.

(4) Mae'r cyfarwyddiadau y caniateir i'r Uchel Lys eu rhoi o dan is-adran (3)(b)(i) yn cynnwys y naill neu'r llall neu'r naill a'r llall o'r canlynol, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu iddynt—

(a) cyfarwyddyd na all y personau sydd i ailystyried yr achos fod yr un rhai â'r personau a wnaeth y penderfyniad sydd wedi ei roi o'r naill du,

(b) cyfarwyddiadau gweithredu mewn cysylltiad ag ailystyried yr achos.

(5) Wrth ail-wneud y penderfyniad yn unol ag is-adran (3)(b)(ii), caniateir i'r Uchel Lys—

(a) gwneud unrhyw benderfyniad y gallai'r Tribiwnlys ei wneud pe bai'r Tribiwnlys yn gwneud y penderfyniad, a

(b) gwneud y canfyddiadau ffeithiol sy'n briodol yn nhyb yr Uchel Lys.

(6) Rhaid i gais am ganiatâd i apelio gael ei wneud i'r Tribiwnlys neu i'r Uchel Lys o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod yr hysbysodd y Tribiwnlys y person sy'n gwneud y cais o'i benderfyniad ar yr apêl o dan adran 99.

(7) Ond caiff y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, ar gais ysgrifenedig gan y Comisiynydd neu P, ganiatáu i apêl gael ei gwneud ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw os yw'r Tribiwnlys neu'r Uchel Lys wedi ei fodloni bod rheswm da—

(a) dros y methiant i wneud cais am ganiatâd i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw, a

(b) os oes unrhyw oedi wedi bod cyn gwneud cais am ganiatâd i apelio ar ôl yr amser priodol, dros yr oedi hwnnw.

(8) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys.

### 102 Dyletswydd y Comisiynydd pan wneir apêl gan P

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) os yw'r Comisiynydd wedi cynnal ymchwiliad o dan adran 71 yn dilyn cwyn o dan adran 93,

(b) os gwneir apêl o dan adran 99 neu 101, neu os gwneir unrhyw apêl bellach, mewn perthynas â'r ymchwiliad, ac

(c) os nad yw D yn barti yn yr achos hwnnw.

(2) Rhaid i'r Comisiynydd—

(a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael ei hysbysu o ganlyniad apêl o dan adran 99, roi hysbysiad i D yn nodi'r canlyniad,

(b) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael ei hysbysu o apêl o dan adran 101, neu unrhyw apêl bellach, roi hysbysiad i D yn nodi bod yr apêl wedi ei gwneud, ac

(c) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael ei hysbysu o ganlyniad apêl o dan adran 101 neu o ganlyniad apêl bellach, roi hysbysiad i D yn nodi'r canlyniad.

## PENNOD 6

## ADOLYGIAD GAN YR ACHWYNYDD

*Adolygu methiant y Comisiynydd i ymchwilio i gŵyn*

### 103 Hawl P i gael adolygiad

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw P yn gwneud cwyn i'r Comisiynydd o dan adran 93 ynglŷn ag ymddygiad D (“yr ymddygiad honedig”), p'un a yw'r gŵyn honno yn gŵyn ddilys o dan yr adran honno ai peidio.

(2) Caiff P, gyda chaniatâd y Tribiwnlys, wneud cais i'r Tribiwnlys i adolygu penderfyniad y Comisiynydd mewn unrhyw un neu ragor o'r achosion sydd wedi eu nodi yn yr adran hon.

(3) Rhaid i'r Tribiwnlys, yn ddarostyngedig i adran 104, ymdrin â chais am adolygiad o'r fath fel pe bai'n gais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol.

(4) Rhaid i'r Tribiwnlys roi caniatâd i wneud cais pan fo'r Tribiwnlys o'r farn—

(a) bod disgwyliad rhesymol y byddai'r cais yn llwyddo, neu

(b) bod rhyw reswm cryf arall pam y dylai'r cais gael ei glywed.

(5) Yr achos cyntaf y cyfeirir ato yn is-adran (2) yw—

(a) pan fo'r ddyletswydd o dan adran 93 i ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio yn gymwys, a

(b) pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad.

(6) Yr ail achos yw—

(a) pan fo adran 93(7) yn gymwys o ran cwyn, a

(b) pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu peidio ag ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio.

(7) Y trydydd achos yw pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu nad yw'r ddyletswydd o dan adran 93 i ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio yn gymwys.

(8) Y pedwerydd achos yw—

(a) pan nad yw'r ddyletswydd o dan adran 93 i ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio yn gymwys, a

(b) pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu peidio ag ystyried ai i gynnal ymchwiliad i'r ymddygiad honedig ai peidio o dan adran 93(8) neu, ar ôl ystyried ai i gynnal ymchwiliad o dan yr adran honno, yn penderfynu peidio â chynnal yr ymchwiliad.

(9) Y pumed achos yw—

(a) pan fo'r Comisiynydd yn penderfynu cynnal ymchwiliad, a

(b) pan fo'r Comisiynydd wedyn yn penderfynu terfynu'r ymchwiliad.

(10) Rhaid i gais o dan is-adran (2) gael ei wneud cyn diwedd y cyfnod perthnasol o 28 o ddiwrnodau.

(11) Ond caiff y Tribiwnlys, pan wneir cais ysgrifenedig gan P, ganiatáu i gais o dan is-adran (2) gael ei wneud ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw os yw'r Tribiwnlys wedi ei fodloni bod rheswm da—

(a) dros y methiant i wneud cais cyn diwedd y cyfnod hwnnw, a

(b) os oes unrhyw oedi wedi bod cyn gwneud cais am ganiatâd i wneud cais ar ôl yr amser priodol, dros yr oedi hwnnw.

(12) Caniateir i gais o dan is-adran (11) gael ei wneud cyn diwedd neu ar ôl diwedd y cyfnod perthnasol o 28 o ddiwrnodau.

(13) Rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu P a'r Comisiynydd o'i benderfyniad ar gais o dan is-adran (2).

(14) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys (sy'n cael gwneud, ymysg pethau eraill, ddarpariaeth ynghylch y modd y ceir gwneud ceisiadau o dan yr adran hon).

(15) Yn y Bennod hon ystyr "cyfnod perthnasol o 28 o ddiwrnodau" yw'r cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y bu i'r Comisiynydd hysbysu P o'i benderfyniad o dan adran 94.

### 104 Pwerau'r Tribiwnlys ar adolygiad

(1) Pan wneir cais o dan adran 103, caiff y Tribiwnlys—

(a) cadarnhau dyfarniad y Comisiynydd, neu

(b) diddymu dyfarniad y Comisiynydd.

(2) Os yw'r Tribiwnlys yn diddymu dyfarniad y Comisiynydd, rhaid i'r Tribiwnlys anfon yr achos yn ôl at y Comisiynydd gyda chyfarwyddyd ar gyfer ei ailystyried.

## 105 Apelau o'r Tribiwnlys

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Tribiwnlys wedi penderfynu cais o dan adran 103(2).

(2) Caiff y Comisiynydd neu P, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, apelio i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o'r penderfyniad.

(3) Os yw'r Uchel Lys yn dyfarnu bod y Tribiwnlys wedi gwneud camgymeriad ar bwynt cyfreithiol—

(a) caiff yr Uchel Lys osod penderfyniad y Tribiwnlys o'r naill du, a

(b) os bydd yr Uchel Lys yn gosod y penderfyniad o'r naill du, rhaid iddo naill ai—

(i) anfon yr achos yn ôl i'r Tribiwnlys gyda chyfarwyddyd ar gyfer ei ailystyried, neu

(ii) ail-wneud y penderfyniad.

(4) Mae'r cyfarwyddiadau y caniateir i'r Uchel Lys eu rhoi o dan is-adran (3)(b)(i) yn cynnwys y naill neu'r llall neu'r naill a'r llall o'r canlynol, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu iddynt—

(a) cyfarwyddyd na all y personau sydd i ailystyried yr achos fod yr un rhai â'r personau a wnaeth y penderfyniad sydd wedi ei roi o'r naill du,

(b) cyfarwyddiadau gweithredu mewn cysylltiad ag ailystyried yr achos.

(5) Wrth ail-wneud y penderfyniad yn unol ag is-adran (3)(b)(ii), caniateir i'r Uchel Lys—

(a) gwneud unrhyw benderfyniad y gallai'r Tribiwnlys ei wneud pe bai'r Tribiwnlys yn gwneud y penderfyniad, a

(b) gwneud y canfyddiadau ffeithiol sy'n briodol yn nhyb yr Uchel Lys.

(6) Rhaid i gais am ganiatâd i apelio gael ei wneud i'r Tribiwnlys neu i'r Uchel Lys o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod yr hysbysodd y Tribiwnlys y person sy'n gwneud y cais o dan yr adran hon o'i benderfyniad ar y cais o dan adran 103.

(7) Ond caiff y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, ar gais ysgrifenedig gan y Comisiynydd neu P, ganiatáu i apêl gael ei gwneud ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw os yw'r Tribiwnlys neu'r Uchel Lys wedi ei fodloni bod rheswm da—

(a) dros y methiant i wneud cais am ganiatâd i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw, a

(b) os oes unrhyw oedi wedi bod cyn gwneud y cais am ganiatâd i apelio ar ôl yr amser priodol, dros yr oedi hwnnw.

(8) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys.

# PENNOD 7

YCHWANEGU PARTI MEWN ACHOS

## 106 Hawl i wneud cais i berson gael ei ychwanegu'n barti mewn achos

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) os gwneir apêl i'r Tribiwnlys o dan adran 95(2) neu adran 99, a

(b) os gwneir yr apêl honno mewn perthynas â dyfarniad a wnaed ar ôl ymchwiliad sy'n dilyn cwyn a wneir o dan adran 93.

(2) Yn achos apêl o dan adran 95(2)—

(a) rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu'r person a wnaeth y gŵyn (P) fod yr apêl wedi ei gwneud, a

(b) caiff P wneud cais i'r Tribiwnlys i gael ei ychwanegu'n barti yn yr achos.

(3) Mewn achos o'r fath, os ychwanegir P yn barti yn yr achos—

(a) rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu P o'i benderfyniad ar yr apêl, a

(b) caiff P, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, apelio i'r Uchel Lys o dan adran 97 ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o'r penderfyniad hwnnw.

(4) Yn achos apêl a wneir o dan adran 99—

(a) rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu D fod yr apêl wedi ei gwneud, a

(b) caiff D wneud cais i'r Tribiwnlys i gael ei ychwanegu'n barti yn yr achos.

(5) Os ychwanegir D yn barti yn yr achos—

(a) rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu D o'i benderfyniad ar yr apêl, a

(b) caiff D, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, apelio i'r Uchel Lys o dan adran 101 ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o'r penderfyniad hwnnw.

(6) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys (sy'n cael gwneud, ymysg pethau eraill, ddarpariaeth ynghylch y modd y caniateir gwneud cais o dan yr adran hon i berson gael ei ychwanegu'n barti mewn achos a'r amser a ganiateir ar gyfer gwneud cais o'r fath).

(7) Nid yw'r adran hon yn atal Rheolau'r Tribiwnlys rhag gwneud darpariaeth ynghylch personau eraill y caniateir eu hychwanegu'n barti mewn achos.

## PENNOD 8

## CYFFREDINOL

### *Rhwystro a dirmygu*

### 107 Rhwystro a dirmygu

(1) Os bodlonir y Comisiynydd fod yr amod yn is-adran (2) wedi cael ei fodloni o ran person, caiff y Comisiynydd ddyroddi tystysgrif i'r perwyl hwnnw i'r Uchel Lys.

(2) Yr amod yw bod y person—

(a) heb esgus cyfreithlon, wedi rhwystro cyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Comisiynydd o dan y Rhan hon, neu

(b) wedi cyflawni gweithred o ran ymchwiliad o dan adran 71 a fyddai, pe bai'r ymchwiliad yn achos yn yr Uchel Lys, yn ddirmyg llys.

(3) Os yw'r Comisiynydd yn dyroddi tystysgrif o dan is-adran (1), caiff yr Uchel Lys ymchwilio i'r mater.

(4) Os bodlonir yr Uchel Lys fod yr amod yn is-adran (2) wedi ei fodloni o ran y person, caiff drin y person mewn unrhyw ffordd y byddai wedi trin y person pe bai'r person wedi cyflawni dirmyg llys o ran yr Uchel Lys.

*Dogfen polisi gorfodi*

## 108 Dogfen polisi gorfodi

(1) Rhaid i'r Comisiynydd lunio dogfen polisi gorfodi.

(2) Caiff y Comisiynydd ddiwygio'r ddogfen polisi gorfodi.

(3) Dogfen yw dogfen polisi gorfodi sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth ar y ffordd y mae'r Comisiynydd yn bwriadu mynd ati i arfer swyddogaethau'r Comisiynydd o dan y Rhan hon.

(4) Ni chaniateir i'r Comisiynydd lunio neu ddiwygio'r ddogfen polisi gorfodi heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

(5) Rhaid i'r Comisiynydd—

(a) sicrhau bod copi o'r ddogfen polisi gorfodi ar gael i'w archwilio yn swyddfa'r Comisiynydd, a

(b) sicrhau y perir bod copïau o'r ddogfen polisi gorfodi ar gael mewn mannau eraill a thrwy ddulliau eraill (gan gynnwys dulliau electronig) sy'n briodol yn nhyb y Comisiynydd.

(6) Rhaid i'r Comisiynydd sicrhau bod y trefniadau ar gyfer archwilio a chael at gopïau o'r ddogfen polisi gorfodi yn cael eu cyhoeddi mewn modd sy'n dwyn y trefniadau hynny i sylw personau sy'n debygol yn nhyb y Comisiynydd o fod yn bersonau a chanddynt fuddiant yn y ddogfen.

*Cofrestr camau gorfodi*

## 109 Cofrestr camau gorfodi

(1) Rhaid i'r Comisiynydd greu a chynnal cofrestr camau gorfodi.

(2) Rhaid i'r gofrestr camau gorfodi gynnwys yr oll o'r canlynol—

(a) disgrifiad o bob ymchwiliad yr ymgymerwyd ag ef gan y Comisiynydd;

(b) o ran pob ymchwiliad yr ymgymerwyd ag ef, yr wybodaeth a ganlyn fel y'i cynhwysir yn yr adroddiad ar yr ymchwiliad—

(i) canfyddiadau'r Comisiynydd ar yr ymchwiliad;

(ii) dyfarniad y Comisiynydd ar a yw D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol ai peidio;

(iii) y datganiad sy'n nodi a weithredodd y Comisiynydd ymhellach ai peidio;

(iv) os gweithredodd y Comisiynydd ymhellach, datganiad ar y gweithredu hwnnw;

(c) o ran pob ymchwiliad yr ymgymerwyd ag ef, manylion am unrhyw hysbysiad penderfynu a roddwyd;

(d) manylion apelau a wnaed i'r Tribiwnlys o dan Bennod 4 (gan gynnwys penderfyniadau a wnaed gan y Tribiwnlys, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt).

(3) Rhaid i'r Comisiynydd ddiweddaru'r gofrestr camau gorfodi'n barhaus.

(4) Rhaid i'r Comisiynydd—

(a) sicrhau bod copi o'r gofrestr camau gorfodi ar gael i'w archwilio yn swyddfa'r Comisiynydd, a

(b) sicrhau y perir bod copïau o'r gofrestr camau gorfodi ar gael mewn mannau eraill a thrwy ddulliau eraill (gan gynnwys dulliau electronig) sy'n briodol yn nhyb y Comisiynydd.

(5) Rhaid i'r Comisiynydd sicrhau bod y trefniadau ar gyfer archwilio a chael at gopïau o'r gofrestr camau gorfodi yn cael eu cyhoeddi mewn modd sy'n dwyn y trefniadau hynny i sylw personau sy'n debygol yn nhyb y Comisiynydd o fod yn bersonau a chanddynt fuddiant yn y gofrestr.

(6) Yn yr adran hon ystyr "ymchwiliad" yw ymchwiliad o dan adran 71.

*Dehongli*

### 110 Dehongli

Yn y Rhan hon—

ystyr "camau gorfodi" ("*enforcement action*"), mewn perthynas ag ymchwiliad o dan adran 71, yw un neu ragor o'r canlynol—

(a) ei gwneud yn ofynnol i D baratoi cynllun gweithredu at ddiben atal methiant D rhag parhau neu gael ei ailadrodd;

(b) ei gwneud yn ofynnol i D gymryd camau at ddiben atal methiant D rhag parhau neu gael ei ailadrodd;

(c) rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D;

(d) ei gwneud yn ofynnol i D roi cyhoeddusrwydd i'r methiant;

(e) gosod cosb sifil ar D;

ystyr "person a chanddo fuddiant" ("*interested person*") mewn perthynas ag ymchwiliad o dan adran 71 yw—

(a) D, a

(b) os yw'r ymchwiliad yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93, y person a wnaeth y gŵyn.

## RHAN 6

## RHYDDID I DDEFNYDDIO'R GYMRAEG

### 111 Gwneud cais i'r Comisiynydd

(1) Caiff unigolyn (P) wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn i'r Comisiynydd ymchwilio i a yw person (D) wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag unigolyn arall (R) ("yr ymyrraeth honedig").

(2) Rhaid i gais o dan yr adran hon gydymffurfio â'r gofynion a ganlyn.

(3) Rhaid i'r cais fod yn ysgrifenedig oni bai bod amgylchiadau personol P yn golygu na fyddai'n rhesymol i P wneud cais yn ysgrifenedig.

(4) Rhaid i'r cais roi cyfeiriad lle y caiff y Comisiynydd gysylltu â P (boed y cyfeiriad yn gyfeiriad post, electronig neu'n gyfeiriad o ddisgrifiad arall).

(5) Rhaid i'r cais—

(a) ei gwneud yn hysbys pwy yw D, a

(b) ei gwneud yn hysbys beth yw'r ymyrraeth honedig.

## 112 Cyfathrebiadau Cymraeg

Yn y Mesur hwn, ystyr "cyfathrebiad Cymraeg" yw cyfathrebiad yn Gymraeg rhwng dau unigolyn, y mae'r ddau ohonynt—

(a) yng Nghymru, a

(b) yn dymuno defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd wrth ymgymryd â'r cyfathrebiad.

## 113 Ymyrryd â rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

(1) At ddibenion y Mesur hwn, bernir bod D yn ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag R mewn unrhyw un neu ragor o'r achosion a ganlyn.

(2) Achos 1 yw pan fo D yn mynegi na ddylai P neu R ymgymryd—

(a) â chyfathrebiad penodol yn Gymraeg sy'n gyfathrebiad Cymraeg, neu

(b) â chategori o gyfathrebiadau Cymraeg sydd (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) yn un neu ragor o gyfathrebiadau Cymraeg.

(3) Achos 2 yw pan fo D yn mynegi y bydd P neu R yn dioddef anfantais (drwy law D neu unrhyw berson arall) oherwydd bod P neu R wedi ymgymryd—

(a) â chyfathrebiad penodol yn Gymraeg sy'n gyfathrebiad Cymraeg, neu

(b) â chategori o gyfathrebiadau Cymraeg sydd (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) yn un neu ragor o gyfathrebiadau Cymraeg.

(4) Achos 3 yw pan fo D, neu berson sy'n gweithredu ar anogaeth D, yn peri bod P neu R yn dioddef anfantais oherwydd bod P neu R wedi ymgymryd—

(a) â chyfathrebiad penodol yn Gymraeg sy'n gyfathrebiad Cymraeg, neu

(b) â chategori o gyfathrebiadau Cymraeg sydd (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) yn un neu ragor o gyfathrebiadau Cymraeg.

(5) Ond, mewn achos sy'n dod o fewn is-adran (2)(b), (3)(b) neu (4)(b), dim ond i'r graddau y mae'r categori o gyfathrebiadau yn un neu ragor o gyfathrebiadau Cymraeg y bernir bod D yn ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg.

(6) At ddibenion is-adran (2), mae'r amgylchiadau lle y bernir bod D yn mynegi na ddylai P neu R ymgymryd â chyfathrebiad penodol, neu gategori o gyfathrebiadau, yn cynnwys yr amgylchiadau canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt—

(a) mae D yn dweud wrth P neu R am beidio ag ymgymryd â'r cyfathrebiad neu'r categori o gyfathrebiadau,

(b) mae D yn mynegi y bydd P neu R yn dioddef anfantais (drwy law D neu unrhyw berson arall) os yw P neu R yn ymgymryd â'r cyfathrebiad neu'r categori o gyfathrebiadau, neu

(c) mae D, neu berson sy'n gweithredu ar anogaeth D, yn peri bod P neu R yn dioddef anfantais mewn cysylltiad â bod P neu R yn ymgymryd â'r cyfathrebiad neu'r categori o gyfathrebiadau.

(7) At ddibenion yr adran hon, mae'n amherthnasol—

(a) a oes gan D neu unrhyw berson arall awdurdod i roi mynegiad ai peidio, a

(b) a oes gan D neu unrhyw berson arall awdurdod i orfodi mynegiad ai peidio.

(8) Yn yr adran hon, mae cyfeiriadau at fod P neu R yn dioddef anfantais yn cynnwys bygylu neu fwlio P neu R, aflonyddu arnynt neu eu bychanu.

**114 Penderfynu ai i ymchwilio ai peidio**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw P yn gwneud cais i'r Comisiynydd o dan adran 111.

(2) Mater i'r Comisiynydd yw penderfynu ai i ymchwilio i'r ymyrraeth honedig ai peidio.

(3) Wrth benderfynu ai i ymchwilio i'r ymyrraeth honedig ai peidio—

(a) rhaid i'r Comisiynydd gymryd i ystyriaeth ym mha gyd-destun yr honnir bod yr ymyrraeth wedi digwydd (gan gynnwys y berthynas (os oes perthynas) sy'n bodoli rhwng D a P a rhwng D ac R, ond heb fod yn gyfyngedig i'r ddwy berthynas hyn);

(b) caiff y Comisiynydd ofyn i P, D, neu i unrhyw berson arall, am wybodaeth neu holi ei farn ynghylch yr ymyrraeth honedig; ac

(c) rhaid i'r Comisiynydd, os yw'n gofyn i P neu D am wybodaeth neu'n holi ei farn, roi i P neu D yr wybodaeth berthnasol am ymchwiliadau.

(4) Nid yw is-adran (3) yn cyfyngu ar y materion y caiff y Comisiynydd eu hystyried wrth benderfynu ai i ymchwilio i'r ymyrraeth honedig ai peidio.

(5) Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu ymchwilio i'r ymyrraeth honedig, rhaid iddo—

(a) hysbysu P a D o'r penderfyniad, a

(b) rhoi i P a D yr wybodaeth berthnasol am ymchwiliadau (i'r graddau nad yw'r Comisiynydd eisoes wedi rhoi'r wybodaeth o dan is-adran (3)(c)).

(6) Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu peidio ag ymchwilio i'r ymyrraeth honedig, rhaid i'r Comisiynydd hysbysu P—

(a) o'r penderfyniad, a

(b) o'r rhesymau dros ddod i'r penderfyniad.

(7) Rhaid i'r Comisiynydd gydymffurfio ag is-adran (5) neu (6) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dod i'r penderfyniad o dan sylw.

(8) Yn yr adran hon ystyr "gwybodaeth berthnasol am ymchwiliadau" yw gwybodaeth am—

(a) y weithdrefn ar gyfer cynnal ymchwiliadau o dan y Rhan hon, a

(b) pwerau'r Comisiynydd mewn perthynas â'r ymchwiliadau hynny (gan gynnwys y pŵer o dan adran 118 i lunio a chyhoeddi adroddiadau a dogfennau eraill, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny).

## 115 Ymchwiliadau

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Comisiynydd yn penderfynu ymchwilio i'r ymyrraeth honedig.

(2) Caiff y Comisiynydd ofyn i P, D, neu i unrhyw berson arall, am wybodaeth neu holi ei farn ynghylch yr ymyrraeth honedig.

(3) Rhaid i'r Comisiynydd, i'r graddau y mae'n ymarferol, roi cyfle i D i ymateb i'r honiadau a wnaed gan P neu gan unrhyw berson arall.

## 116 Terfynu ymchwiliadau

(1) Caiff y Comisiynydd derfynu'r ymchwiliad i'r ymyrraeth honedig ar unrhyw adeg.

(2) Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu terfynu'r ymchwiliad, rhaid iddo—

(a) hysbysu P a D o'r penderfyniad, a

(b) hysbysu P o'r rhesymau dros ddod i'r penderfyniad.

(3) Rhaid i'r Comisiynydd gydymffurfio ag is-adran (2) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dod i'r penderfyniad.

## 117 Cwblhau ymchwiliadau

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) os yw'r Comisiynydd yn penderfynu ymchwilio i'r ymyrraeth honedig, a

(b) os nad yw'r Comisiynydd yn terfynu'r ymchwiliad.

(2) Rhaid i'r Comisiynydd ddyfarnu a yw D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â'r cyfathrebiad Cymraeg ai peidio.

(3) Os yw'r Comisiynydd yn dyfarnu bod D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â'r cyfathrebiad Cymraeg, rhaid i'r Comisiynydd hefyd roi ei farn ar yr ymyrraeth (gan gynnwys ei farn ynghylch a ellid cyfiawnhau'r ymyrraeth, ond heb fod yn gyfyngedig i'w farn ar hynny).

(4) Cyn bod y Comisiynydd yn gwneud dyfarniad o dan is-adran (2) neu'n rhoi ei farn o dan is-adran (3), rhaid iddo—

(a) hysbysu D o'r dyfarniad y mae'r Comisiynydd yn bwriadu ei wneud ac o'r farn y mae'r Comisiynydd yn bwriadu ei rhoi, a

(b) cyn belled ag y bo'n ymarferol, rhoi cyfle i D ymateb i'r dyfarniad ac i'r farn sydd yn yr arfaeth.

(5) Rhaid i'r Comisiynydd hysbysu P a D—

(a) o'r dyfarniad ar y cais a wnaed gan P, a

(b) o'i farn ar yr ymyrraeth, os dyfarniad bod D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â'r cyfathrebiad Cymraeg yw'r dyfarniad.

(6) Rhaid i'r Comisiynydd gydymffurfio ag is-adran (5) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud y dyfarniad.

(7) Caiff y Comisiynydd roi i P, D, neu i unrhyw berson arall gyngor ynghylch—

(a) yr ymyrraeth honedig, neu

(b) unrhyw fater sy'n ymwneud â'r ymyrraeth honedig.

## 118 Adroddiadau

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn unrhyw achos lle y gwneir cais o dan adran 111.

(2) Caiff y Comisiynydd lunio, a rhoi i Weinidogion Cymru, adroddiad ar—
(a) y cais, a
(b) y camau a gymerwyd gan y Comisiynydd mewn ymateb i'r cais.

(3) Rhaid i'r Comisiynydd roi copïau o unrhyw adroddiad o'r fath i P a D.

(4) Caiff y Comisiynydd gyhoeddi—
(a) adroddiad a roddir i Weinidogion Cymru o dan is-adran (2),
(b) fersiwn o'r adroddiad hwnnw, neu
(c) dogfen arall sy'n ymwneud (boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol) â phwnc yr adroddiad hwnnw,

("dogfen gyhoeddus"), ond dim ond os bodlonir yr amodau canlynol.

(5) Yr amod cyntaf yw bod y Comisiynydd—
(a) yn hysbysu P a D o'r bwriad i gyhoeddi dogfen gyhoeddus, a
(b) cyn belled ag y bo'n ymarferol, yn rhoi i P, D, neu i unrhyw berson arall y mae'r Comisiynydd o'r farn ei fod yn briodol, gyfle i roi i'r Comisiynydd farn am gyhoeddi dogfen gyhoeddus.

(6) Yr ail amod yw—
(a) bod P a D yn cytuno bod y ddogfen gyhoeddus yn cael ei chyhoeddi, neu
(b) bod y Comisiynydd o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i'r ddogfen gyhoeddus gael ei chyhoeddi.

(7) Wrth bwyso a mesur a yw er budd y cyhoedd i'r ddogfen gyhoeddus gael ei chyhoeddi, rhaid i'r Comisiynydd gymryd i ystyriaeth, ymhlith pethau eraill—
(a) buddiannau P a D, a
(b) buddiannau unrhyw bersonau eraill y mae'n briodol eu cymryd i ystyriaeth yn nhyb y Comisiynydd.

(8) Yn achos unrhyw gais lle dyfarna'r Comisiynydd nad yw D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg, rhaid i ddogfen gyhoeddus beidio â'i gwneud yn hysbys pwy yw D.

## 119 Adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru

(1) Rhaid i'r Comisiynydd gynnwys, ym mhob adroddiad blynyddol a lunnir yn unol â Rhan 2, adroddiad—
(a) ar y ceisiadau perthnasol a wnaed i'r Comisiynydd yn y cyfnod y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef,
(b) ar y camau a gymerwyd gan y Comisiynydd mewn ymateb i geisiadau perthnasol a wnaed yn y cyfnod hwnnw, ac
(c) ar farn y Comisiynydd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith i warchod rhyddid personau yng Nghymru sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu â'i gilydd.

(2) Wrth ffurfio barn at ddibenion is-adran (1)(c), mae'r materion y mae'n rhaid i'r Comisiynydd eu hystyried yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu iddynt—

(a) pob cais perthnasol a wnaed oddi ar y dyddiad y daeth adran 111 i rym, a
(b) pob cam a gymerwyd gan y Comisiynydd mewn ymateb i geisiadau perthnasol a wnaed oddi ar y dyddiad y daeth adran 111 i rym.

(3) O ran unrhyw gais perthnasol lle y dyfarna'r Comisiynydd nad yw D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg, rhaid i'r materion a gynhwysir mewn adroddiad blynyddol yn unol â'r adran hon beidio â'i gwneud yn hysbys pwy yw D.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth am adroddiadau o dan yr adran hon.

(5) Yn yr adran hon ystyr "cais perthnasol" yw cais a wneir o dan adran 111.

## RHAN 7

## TRIBIWNLYS Y GYMRAEG

### *Y Tribiwnlys*

### 120 Tribiwnlys y Gymraeg

(1) Bydd yna Dribiwnlys y Gymraeg (y cyfeirir ato yn y Mesur hwn fel y "Tribiwnlys").

(2) Yr aelodau canlynol fydd aelodau'r Tribiwnlys—
(a) Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg (y cyfeirir ato yn y Mesur hwn fel y "Llywydd");
(b) aelodau wedi ymgymhwyso yn y gyfraith; ac
(c) aelodau lleyg.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi aelodau'r Tribiwnlys.

(4) Mae Atodlen 11 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch y Tribiwnlys.

### 121 Cyfansoddiad ar gyfer achosion gerbron y Tribiwnlys

(1) Rhaid i'r Llywydd ddewis yr aelodau o'r Tribiwnlys sydd i ymdrin ag achosion penodol gerbron y Tribiwnlys.

(2) Rhaid i'r Llywydd ddewis tri aelod o'r Tribiwnlys i ymdrin â'r achosion.

(3) Rhaid i'r Llywydd sicrhau bod—
(a) o leiaf un o'r tri aelod yn aelod cyfreithiol, a
(b) o leiaf un o'r tri aelod yn aelod lleyg.

(4) Os dim ond un o'r tri aelod sy'n aelod cyfreithiol, yr aelod cyfreithiol hwnnw sydd i gadeirio'r achos.

(5) Os oes mwy nag un o'r tri aelod yn aelodau cyfreithiol, mae'r Llywydd i ddewis yr aelod cyfreithiol sydd i gadeirio'r achos.

(6) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys.

(7) Yn yr adran hon ystyr "aelod cyfreithiol" yw—
(a) y Llywydd, neu

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(b) aelod o'r Tribiwnlys sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith.

**122 Gwrandawiadau cyhoeddus**

(1) Mae achosion gerbron y Tribiwnlys i'w cynnal yn gyhoeddus.

(2) Ond mae hynny'n ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys.

*Ymarferiad a threfniadaeth etc*

**123 Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg**

(1) Rhaid i'r Llywydd wneud rheolau sy'n llywodraethu'r ymarferiad a'r drefniadaeth sydd i'w dilyn yn y Tribiwnlys.

(2) Mae'r rheolau i'w galw'n "Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg" (ond cyfeirir atynt yn y Mesur hwn fel "Rheolau'r Tribiwnlys").

(3) Rhaid i Reolau'r Tribiwnlys gynnwys y canlynol—
(a) darpariaeth ynghylch dewis o dan adran 121(2) y tri aelod o'r Tribiwnlys i ymdrin ag achosion;
(b) darpariaeth ynghylch dewis o dan adran 121(5) yr aelod cyfreithiol i gadeirio achosion;
(c) darpariaeth ynghylch gwrthdrawiadau buddiant sy'n codi—
(i) mewn perthynas â chyfranogiad aelodau o'r Tribiwnlys yn y gwaith o ddyfarnu achos, neu
(ii) mewn perthynas ag arfer swyddogaethau'r Llywydd o dan adran 121.

(4) Caiff Rheolau'r Tribiwnlys, ymysg pethau eraill, gynnwys darpariaeth ynghylch y materion a ganlyn—
(a) arfer gan y Llywydd, neu gan yr aelod sy'n cadeirio unrhyw achosion, unrhyw swyddogaethau sy'n ymwneud â materion sy'n rhagarweiniol i'r achos neu'n gysylltiedig â'r achos;
(b) cynnal achosion yn absenoldeb unrhyw aelod ac eithrio'r aelod sy'n eu cadeirio;
(c) dadlennu neu archwilio dogfennau, a'r hawl i fanylion pellach y gallai llys sirol ei rhoi;
(d) dyfarnu achosion heb wrandawiad mewn amgylchiadau a ragnodir yn Rheolau'r Tribiwnlys;
(e) achosion gwacsaw neu flinderus;
(f) caniatáu costau (gan gynnwys costau cosbedigol, ond heb eu cyfyngu i hynny) neu dreuliau;
(g) asesu'r costau neu'r treuliau hynny neu eu setlo fel arall (ac, yn benodol, ar gyfer galluogi asesu'r costau hynny yn y llys sirol);
(h) cyhoeddi adroddiadau ynghylch penderfyniadau'r Tribiwnlys;
(i) pwerau'r Tribiwnlys i adolygu ei benderfyniadau, neu i ddirymu neu amrywio ei orchmynion, yn yr amgylchiadau a gaiff eu pennu'n unol â Rheolau'r Tribiwnlys;
(j) y dyddiad y bernir bod hysbysiad wedi ei roi gan y Tribiwnlys.

(5) Mae'r pŵer i wneud Rheolau'r Tribiwnlys yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol, a
(b) i roi swyddogaethau i'r Llywydd neu i Weinidogion Cymru (yn ogystal ag i unrhyw berson arall), gan gynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud ag arfer disgresiwn.

(6) Rhaid i'r Llywydd gyflwyno Rheolau'r Tribiwnlys i Weinidogion Cymru.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru ganiatáu neu wrthod Rheolau'r Tribiwnlys a gyflwynir iddynt.

(8) O ran rheolau a ganiateir gan Weinidogion Cymru—
(a) deuant i rym ar y diwrnod y bydd Gweinidogion Cymru'n ei gyfarwyddo, a
(b) maent i'w cynnwys mewn offeryn statudol y mae Deddf Offerynnau Statudol 1946 yn gymwys iddo fel pe bai'r offeryn yn cynnwys rheolau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(9) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys rheolau a wneir gan y Llywydd yn ddarostyngedig i'w ddiddymu'n unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 124 Cyfarwyddiadau ymarfer

(1) Caiff y Llywydd roi cyfarwyddiadau ynghylch ymarferiad a threfniadaeth y Tribiwnlys.

(2) Ond ni chaiff y Llywydd roi cyfarwyddiadau ymarfer onid ydynt wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

(3) Nid yw is-adran (2) yn gymwys i gyfarwyddiadau ymarfer i'r graddau y mae'r cyfarwyddiadau hynny'n ymwneud â—
(a) cymhwyso neu ddehongli'r gyfraith, neu
(b) gwneud penderfyniadau gan aelodau o'r Tribiwnlys.

(4) Mae'r pŵer o dan yr adran hon i roi cyfarwyddiadau ymarfer yn cynnwys—
(a) pŵer i amrywio neu ddirymu cyfarwyddiadau ymarfer a roddir wrth arfer y pŵer, a
(b) pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

## 125 Canllawiau, cyngor a gwybodaeth

(1) Caiff y Llywydd roi canllawiau i aelodau eraill o'r Tribiwnlys mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau fel aelodau o'r Tribiwnlys.

(2) Rhaid i aelod o'r Tribiwnlys roi sylw i'r canllawiau hynny wrth arfer y swyddogaethau hynny.

(3) Caiff y Llywydd roi cyngor a gwybodaeth mewn cysylltiad â'r Tribiwnlys a'i swyddogaethau (gan gynnwys ymarferiad a threfniadaeth y Tribiwnlys, ond heb ei gyfyngu iddynt).

(4) Caiff y Llywydd roi'r cyngor hwnnw—
(a) i bersonau penodol, neu
(b) yn fwy cyffredinol.

### 126 Pwerau atodol

(1) Mewn perthynas â'r materion a grybwyllir yn is-adran (2), mae gan y Tribiwnlys yr un pwerau, hawliau, breintiau ac awdurdod â'r Uchel Lys.

(2) Dyma'r materion—

(a) presenoldeb tystion a'u holi,

(b) cyflwyno ac archwilio dogfennau, ac

(c) pob mater arall sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Tribiwnlys.

(3) Nid yw is-adran (1)—

(a) yn cyfyngu ar unrhyw bŵer i wneud Rheoliadau'r Tribiwnlys, neu

(b) wedi ei chyfyngu gan unrhyw beth yn Rheoliadau'r Tribiwnlys, ac eithrio cyfyngiad penodol.

(4) Caiff y Tribiwnlys gyfarwyddo bod parti neu dyst i'w holi ar lw neu gadarnhad.

(5) Caiff y Tribiwnlys weinyddu unrhyw lw, neu gymryd unrhyw gadarnhad, sy'n angenrheidiol at y diben hwnnw.

*Staff ac adnoddau eraill*

### 127 Staff, adeiladau ac adnoddau eraill y Tribiwnlys

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod gan y Tribiwnlys y canlynol—

(a) staff,

(b) adeiladau, ac

(c) adnoddau ariannol ac adnoddau eraill,

sy'n briodol i'r Tribiwnlys er mwyn iddo arfer ei swyddogaethau.

(2) Gweinidogion Cymru sydd i benderfynu pa staff, adeiladau, adnoddau ariannol ac adnoddau eraill sy'n briodol at y diben hwnnw.

(3) Caniateir i Weinidogion Cymru fodloni'r ddyletswydd o dan is-adran (1)—

(a) drwy ddarparu staff, adeiladau neu adnoddau eraill, neu

(b) drwy wneud trefniadau gydag unrhyw berson arall ar gyfer darparu staff, adeiladau neu adnoddau eraill.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru dalu tâl cydnabyddiaeth i staff y Tribiwnlys.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru dalu lwfansau (gan gynnwys lwfansau teithio a chynhaliaeth, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) ac arian rhodd i staff y Tribiwnlys.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru dalu—

(a) pensiynau i bersonau sydd wedi bod yn aelodau o staff y Tribiwnlys, neu mewn perthynas â hwy, a

(b) symiau ar gyfer darparu pensiynau, neu tuag at ddarparu pensiynau, i bersonau sydd wedi bod yn aelodau o staff y Tribiwnlys, neu mewn cysylltiad â hwy.

### 128 Cynghorwyr sydd wedi ymgymhwyso'n arbennig

(1) Caiff y Llywydd benodi cynghorwyr sydd wedi ymgymhwyso'n arbennig i ddarparu cymorth i'r Tribiwnlys (boed mewn perthynas ag achosion penodol gerbron y Tribiwnlys neu fel arall).

(2) Caiff y Llywydd dalu tâl cydnabyddiaeth i gynghorwyr sydd wedi ymgymhwyso'n arbennig.

(3) Caiff y Llywydd dalu lwfansau (gan gynnwys lwfansau teithio a chynhaliaeth, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) ac arian rhodd i gynghorwyr sydd wedi ymgymhwyso'n arbennig.

(4) Ond rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo swm unrhyw dâl cydnabyddiaeth, lwfansau neu arian rhodd sy'n daladwy i gynghorydd sydd wedi ymgymhwyso'n arbennig cyn i'r Llywydd dalu'r tâl cydnabyddiaeth, lwfansau neu'r arian rhodd, neu gytuno i'w talu.

*Materion gweinyddol*

### 129 Y sêl

(1) Mae'r Tribiwnlys i gael sêl swyddogol.

(2) Mae pob dogfen yr honnir ei bod yn dwyn sêl swyddogol y Tribiwnlys i'w derbyn yn dystiolaeth yng Nghymru a Lloegr heb brawf pellach.

(3) Ond nid yw is-adran (2) yn gymwys os dangosir nad yw'r ddogfen yn dwyn sêl swyddogol y Tribiwnlys.

### 130 Y flwyddyn ariannol

(1) Blwyddyn ariannol gyntaf y Tribiwnlys yw'r cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod cychwyn ac sy'n dod i ben—

- (a) y 31 Mawrth canlynol (os 1 Ebrill yw'r diwrnod cychwyn), neu
- (b) yr ail 31 Mawrth canlynol (os nad 1 Ebrill yw'r diwrnod cychwyn).

(2) Yn ddarostyngedig i hynny, blwyddyn ariannol y Tribiwnlys yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth.

(3) Yn yr adran hon ystyr "diwrnod cychwyn" yw'r diwrnod y daw adran 120 i rym.

### 131 Swydd y Llywydd yn wag

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw swydd y Llywydd yn wag.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru benodi un neu ragor o aelodau'r Tribiwnlys sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith i arfer unrhyw un neu ragor neu'r oll o swyddogaethau'r Llywydd.

(3) Os na fydd, neu i'r graddau na fydd, swyddogaethau'r Llywydd yn arferadwy gan aelod sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith yn unol ag is-adran (2), caiff Gweinidogion Cymru arfer y swyddogaethau.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(4) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru gymryd rhan yn y gwaith o ddyfarnu unrhyw achosion gerbron y Tribiwnlys.

*Adroddiadau, adolygiadau a pherfformiad*

### 132 Adroddiad blynyddol y Llywydd

(1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Llywydd—

- (a) llunio adroddiad ar y modd y mae'r Tribiwnlys wedi arfer ei swyddogaethau yn y flwyddyn ariannol honno, a
- (b) gosod copi o'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(2) Rhaid i'r Llywydd gydymffurfio ag unrhyw ofynion sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch ffurf yr adroddiad ac ynghylch ei osod.

### 133 Hyfforddiant etc ar gyfer aelodau'r Tribiwnlys

(1) Rhaid i'r Llywydd gynnal trefniadau priodol ar gyfer hyfforddiant, arweiniad a lles aelodau'r Tribiwnlys.

(2) Y Llywydd sydd i benderfynu pa drefniadau sy'n briodol at y diben hwnnw.

## RHAN 8

CYFFREDINOL

## PENNOD 1

UNIONDEB CYMERIAD

### 134 Cofrestr buddiannau

(1) Rhaid i bob deiliad swydd perthnasol greu a chynnal cofrestr buddiannau.

(2) Rhaid i gofrestr buddiannau deiliad swydd perthnasol gynnwys ei holl fuddiannau cofrestradwy.

(3) Rhaid i ddeiliad swydd perthnasol lunio'i gofrestr buddiannau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

(4) Rhaid i ddeiliad swydd perthnasol ddiweddaru ei gofrestr buddiannau'n barhaus.

(5) Mae hynny'n cynnwys dyletswydd i gynnwys buddiant cofrestredig yn y gofrestr buddiant o fewn 4 wythnos i'r canlynol ond nid yw wedi ei gyfyngu i hynny—

- (a) y buddiant yn codi, neu
- (b) y deiliad swydd perthnasol yn dod yn ymwybodol o'r buddiant (os yw hynny'n digwydd ar ôl i'r buddiant godi).

## 135 Cyhoeddi cofrestrau buddiannau

(1) Rhaid i'r Comisiynydd—

(a) sicrhau bod copi o gofrestr buddiannau pob deiliad swydd perthnasol ar gael i'w archwilio yn swyddfa'r Comisiynydd, a

(b) sicrhau y perir bod copïau o gofrestr buddiannau pob deiliad swydd perthnasol ar gael mewn mannau eraill a thrwy ddulliau eraill (gan gynnwys dulliau electronig) sy'n briodol yn nhyb y Comisiynydd.

(2) Rhaid i'r Comisiynydd sicrhau bod y trefniadau ar gyfer archwilio a chael at gopïau o gofrestrau buddiannau deiliaid swyddi perthnasol yn cael eu cyhoeddi mewn modd sy'n dwyn y trefniadau hynny i sylw personau sy'n debygol yn nhyb y Comisiynydd o fod yn bersonau a chanddynt fuddiant yn y cofrestrau.

(3) Rhaid i'r Dirprwy Gomisiynydd roi i'r Comisiynydd—

(a) copïau o gofrestr buddiannau'r Dirprwy Gomisiynydd, a

(b) cymorth arall,

y gall y Comisiynydd ofyn amdanynt er mwyn ei alluogi i gydymffurfio â'r ddyletswydd o dan is-adran (1).

## 136 Gwrthdrawiadau buddiannau

(1) Rhaid i ddeiliad swydd perthnasol beidio ag arfer swyddogaeth os oes ganddo fuddiant cofrestradwy sy'n ymwneud ag arfer y swyddogaeth.

(2) Mewn achos lle y mae is-adran (1) yn atal y Comisiynydd rhag arfer swyddogaeth, rhaid iddo ddirprwyo'r swyddogaeth honno (i'r graddau y bo'n angenrheidiol i alluogi'r gwaith hwnnw o'i harfer i gael ei wneud)—

(a) i'r Dirprwy Gomisiynydd, neu

(b) i aelod arall o staff y Comisiynydd.

(3) Mewn achos lle y mae is-adran (1) yn atal y Dirprwy Gomisiynydd rhag arfer swyddogaeth, rhaid i'r Comisiynydd wneud trefniadau i'r swyddogaeth gael ei harfer gan rywun heblaw'r Dirprwy Gomisiynydd.

## 137 Dilysrwydd gweithredoedd

Nid effeithir ar ddilysrwydd gweithred deiliad swydd perthnasol gan fethiant i gydymffurfio â darpariaeth yn y Bennod hon neu a wneir o dan y Bennod hon.

## 138 Rheoliadau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau—

(a) pennu pa fuddiannau sy'n fuddiannau cofrestradwy at ddibenion y Bennod hon, a

(b) gwneud darpariaeth arall at ddibenion y Bennod hon.

(2) Caiff buddiannau cofrestradwy gynnwys, ymhlith pethau eraill, buddiannau personau y mae cysylltiad rhyngddynt a deiliaid swyddi perthnasol (boed yn gysylltiad teuluol, ariannol neu o unrhyw fath arall).

(3) Yn yr adran hon ystyr "buddiant" yw buddiant o unrhyw fath (gan gynnwys buddiannau ariannol, a phob gweithgaredd a swydd, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt).

**139 Dehongli'r Bennod hon**

Yn y Bennod hon—

ystyr "buddiant cofrestradwy" ("*registrable interest*") yw buddiant cofrestradwy a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 138;

ystyr "deiliad swydd perthnasol" ("*relevant office holder*") yw—

(a) y Comisiynydd, neu

(b) y Dirprwy Gomisiynydd.

**PENNOD 2**

DIFENWI

**140 Braint absoliwt**

(1) At ddibenion cyfraith difenwi, mae'r canlynol yn absoliwt freintiedig—

(a) cyhoeddi mater gan y Comisiynydd wrth iddo arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau;

(b) cyhoeddi mater gan aelod o'r Panel Cynghori wrth iddo arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau;

(c) cyhoeddi mater gan berson wrth iddo gydymffurfio â gofyniad mewn hysbysiad penderfynu;

(d) cyhoeddi, mewn cyfathrebiad rhwng—

(i) y Comisiynydd, a

(ii) person a ddiogelir,

fater mewn cysylltiad ag ymholiad neu ymchwiliad;

(e) cyhoeddi, mewn cyfathrebiad rhwng—

(i) yr achwynydd neu berson sy'n gweithredu ar ran yr achwynydd, a

(ii) cynrychiolydd,

fater mewn cysylltiad ag ymchwiliad o dan Ran 5 neu Ran 6.

(2) Yn yr adran hon mae cyfeiriad at y Comisiynydd yn cynnwys y personau canlynol—

(a) aelodau o staff y Comisiynydd;

(b) unrhyw berson sy'n gweithredu ar ran y Comisiynydd neu'n cynorthwyo i arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

**141 Dehongli'r Bennod hon**

Yn y Bennod hon—

ystyr "achwynydd" ("*complainant*")—

(a) mewn perthynas ag ymchwiliad o dan Ran 5, yw'r person (os oes person) y cyfeirir ato fel "P" yn adran 93;

(b) mewn perthynas ag ymchwiliad o dan Ran 6—

(i) yw'r person y cyfeirir ato fel "P" yn adran 111; a
(ii) yw'r person y cyfeirir ato fel "R" yn adran 111;

ystyr "cynrychiolydd" ("*representative*") yw unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) aelod o gyngor cymuned, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor sir yng Nghymru;
(b) Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
(c) Aelod Seneddol;
(d) aelod o Dŵ'r Arglwyddi;
(e) Aelod o Senedd Ewrop;

ystyr "person a ddiogelir" ("*protected person*"), mewn perthynas ag ymholiad neu ymchwiliad, yw unrhyw un neu ragor o'r personau canlynol—

(a) aelod o'r Panel Cynghori;
(b) cynrychiolydd;
(c) person sy'n destun yr ymholiad neu'r ymchwiliad;
(d) person y mae'r Comisiynydd yn cyfathrebu ag ef at ddiben cael gwybodaeth mewn cysylltiad ag ymholiad neu ymchwiliad;
(e) yr achwynydd;
(f) person sy'n gweithredu ar ran person sy'n dod o fewn paragraff (c) i (e).

ystyr "ymchwiliad" ("*investigation*") yw unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) ymchwiliad safonau o dan Bennod 8 o Ran 4;
(b) ymchwiliad o dan Ran 5 (cydymffurfedd â gofynion perthnasol);
(c) ymchwiliad o dan Ran 6 (ymyrraeth â'r rhyddid i gyfathrebu yn Gymraeg);

ystyr "ymholiad" ("*inquiry*") yw ymholiad o dan adran 7.

## PENNOD 3

## CYFYNGIADAU

### 142 Cyfyngiadau

(1) Nid yw'r Mesur hwn yn awdurdodi'r Comisiynydd i arfer swyddogaeth ragnodedig sydd yn rhinwedd deddfiad yn arferadwy hefyd gan berson rhagnodedig, nac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd wneud hynny.

(2) Yn yr adran hon ystyr "rhagnodedig" yw rhagnodedig mewn gorchymyn a wneir at ddibenion yr adran hon gan Weinidogion Cymru.

## RHAN 9

## BYRDD IAITH GYMRAEG, CYNLLUNIAU IAITH GYMRAEG ETC

### 143 Diddymu'r Bwrdd a throsglwyddo swyddogaethau

(1) Diddymir Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

(2) Trosglwyddir y swyddogaethau a roddwyd i'r Bwrdd gan adran 3 o Ddeddf 1993 i'r Comisiynydd.

(3) Ond mae hynny'n ddarostyngedig i unrhyw orchymyn o dan adran 154 sy'n darparu i'r swyddogaethau hynny gael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru (boed yn lle trosglwyddo'r swyddogaethau i'r Comisiynydd neu'n ychwanegol at wneud hynny).

(4) Trosglwyddir y swyddogaethau a roddwyd i'r Bwrdd gan Ran 2 o Ddeddf 1993 i'r Comisiynydd.

(5) Diddymir darpariaethau canlynol Deddf 1993—

(a) adran 1;
(b) adran 2;
(c) adran 4(2);
(d) adran 34(2);
(e) Atodlen 1.

## 144 Diddymu swyddogaethau cyffredinol y Bwrdd a disodli cynlluniau gan safonau

(1) Diddymir y swyddogaethau a roddwyd gan adran 3 o Ddeddf 1993 (ac a drosglwyddwyd fel a grybwyllir yn adran 143).

(2) Mae Rhan 2 o Ddeddf 1993 yn peidio â bod yn gymwys i berson os daw'r person hwnnw, a phan ddaw'r person hwnnw, yn ddarostyngedig am y tro cyntaf i'r ddyletswydd o dan adran 25(1) o'r Mesur hwn i gydymffurfio â safon.

(3) Diddymir darpariaethau canlynol Deddf 1993—

(a) adran 3;
(b) adran 4(1).

## 145 Disodli cynlluniau iaith Gymraeg gan safonau

(1) Diddymir y swyddogaethau a roddwyd i'r Bwrdd gan Ran 2 o Ddeddf 1993 (ac a drosglwyddwyd fel a grybwyllir yn adran 143).

(2) Diddymir darpariaethau canlynol Deddf 1993—

(a) Rhan 2;
(b) adran 34(1) a (3).

## 146 Darpariaeth arall

Mae Atodlen 12 yn cynnwys darpariaeth arall sy'n ymwneud â diddymu'r Bwrdd.

## 147 Atodol

(1) Caiff Gweinidogion Cymru arfer eu pwerau o dan Rannau eraill o'r Mesur hwn at ddibenion dwyn i rym unrhyw ddarpariaeth yn y Mesur hwn sy'n ymwneud â'r Comisiynydd er mwyn galluogi swyddogaethau'r Bwrdd i gael eu trosglwyddo i'r Comisiynydd a bod yn arferadwy ganddo cyn bod unrhyw swyddogaeth newydd yn arferadwy gan y Comisiynydd (p'un a ddaw unrhyw swyddogaeth newydd yn arferadwy ar ôl hynny ai peidio tra bydd unrhyw swyddogaeth a drosglwyddwyd yn parhau i fod yn arferadwy).

(2) At y diben hwnnw ystyr "swyddogaeth newydd" yw swyddogaeth a roddir i'r Comisiynydd gan ddarpariaeth mewn unrhyw Ran arall o'r Mesur hwn.

(3) Nid yw'r Rhan hon yn cyfyngu ar bwerau Gweinidogion Cymru o dan Rannau eraill o'r Mesur hwn (ac yn unol â hynny ceir defnyddio'r pwerau hynny i wneud darpariaeth yn ychwanegol at ddarpariaeth neu yn lle darpariaeth yn y Rhan hon).

(4) Yn yr adran hon, mae cyfeiriadau at bwerau Gweinidogion Cymru o dan Rannau eraill o'r Mesur hwn yn cynnwys eu pwerau o dan—

(a) adran 154 (darpariaeth drosiannol a darpariaeth ganlyniadol etc), a

(b) adran 156(2) (cychwyn),

ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

(5) Yn y Rhan hon—

ystyr "y Bwrdd" ("*Board*") yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg;

ystyr "Deddf 1993" ("*1993 Act*") yw Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

## RHAN 10

STRATEGAETH IAITH GYMRAEG GWEINIDOGION CYMRU

### 148 Gweinidogion Cymru i baratoi cynllun gweithredu

(1) Diwygier adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel a ganlyn.

(2) Ar ôl is-adran (8), mewnosoder—

"(9) For each financial year, the Welsh Ministers must publish a plan setting out how they will implement the proposals set out in the Welsh language strategy during that year.

(10) The plan must be published as soon as reasonably practicable before the commencement of the financial year to which it relates."

### 149 Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal corff a enwir yn Gyngor Partneriaeth y Gymraeg (ac y cyfeirir ato yn y Mesur hwn fel "y Cyngor Partneriaeth").

(2) Yr aelodau canlynol fydd aelodau'r Cyngor Partneriaeth—

(a) pa un bynnag o Weinidogion Cymru sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg (ac ef sydd i gadeirio'r Cyngor Partneriaeth), a

(b) aelodau wedi eu penodi gan Weinidogion Cymru o blith—

(i) Gweinidogion Cymru,

(ii) Dirprwy Weinidogion Cymru,

(iii) personau y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod ganddynt brofiad o faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, a

(iv) personau y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod ganddynt brofiad sy'n berthnasol i unrhyw un neu ragor o'r materion sydd wedi eu rhestru yn is-adran (6).

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth arfer eu pŵer i apwyntio aelodau o'r Cyngor Partneriaeth o dan is-adran (2)(b)(iii) a (iv), ystyried y ffaith ei bod yn ddymunol bod aelodaeth y Cyngor Partneriaeth yn adlewyrchu graddau amrywiol defnyddio'r Gymraeg gan drigolion Cymru.

(4) Mae trefniadaeth y Cyngor Partneriaeth i'w rheoleiddio gan reolau sefydlog sydd i'w gwneud gan Weinidogion Cymru ar ôl iddynt ymgynghori â'r Cyngor Partneriaeth.

(5) Caiff y rheolau sefydlog ddarparu pwy sydd i gadeirio'r Cyngor Partneriaeth yn absenoldeb pa un bynnag o Weinidogion Cymru sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg.

(6) Caiff y Cyngor Partneriaeth—

(a) roi cyngor neu gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ynghylch y strategaeth iaith Gymraeg a fabwysiadwyd o dan adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (gan gynnwys y cynllun sy'n nodi sut y bydd Gweinidogion Cymru yn cyflawni'r cynigion a nodwyd yn y strategaeth), a

(b) gwneud unrhyw beth sy'n briodol ym marn y Cyngor at ddibenion rhoi'r cyngor hwnnw neu gyflwyno'r sylwadau hynny.

## RHAN 11

## ATODOL

### 150 Gorchmynion a rheoliadau

(1) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw un neu ragor o'r canlynol gael ei wneud onid oes drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad—

(a) gorchymyn o dan adran 20(4)(a) neu (b) (cymhwyso adran 20 i bersonau ac eithrio Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru etc) sy'n diwygio darpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol;

(b) gorchymyn o dan adran 21(7) (diwygio'r diffiniad o “ombwdsmon”);

(c) gorchymyn o dan adran 21(8) (darpariaeth mewn cysylltiad â gorchymyn o dan adran 21(7)) sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol;

(d) gorchymyn o dan adran 22(10) (diwygio'r diffiniad o “person a ganiatawyd”);

(e) rheoliadau o dan adran 26(1) neu (2) (pennu safonau etc);

(f) gorchymyn o dan adran 35 neu 38 (diwygio Atodlen 6 neu 8), ac eithrio gorchymyn sy'n cynnwys darpariaeth o dan yr adran honno y mae'r cyfan ohono'n ddarpariaeth o'r math a nodir yn is-adran (4);

(g) rheoliadau o dan adran 39 (safonau sy'n benodol gymwys);

(h) gorchymyn o dan adran 42 (diwygio Atodlen 9);

(i) rheoliadau o dan adran 68 (rhoi gwybodaeth i'r Comisiynydd);

(j) gorchymyn o dan adran 83(7) (newid uchafswm cosb sifil);

(k) gorchymyn o dan adran 154 (darpariaeth drosiannol a darpariaeth ganlyniadol etc) sy'n cynnwys darpariaeth sy'n diwygio, diddymu neu fel arall yn addasu deddfiad (ac eithrio deddfiad a geir mewn is-ddeddfwriaeth);

(l) rheoliadau o dan baragraff 7(1) o Atodlen 1 (darpariaeth ynghylch penodi'r Comisiynydd);
(m) gorchymyn o dan baragraff 8(1) o Atodlen 1 (arfer swyddogaethau'r Comisiynydd gan Weinidogion Cymru) sy'n diwygio'r Mesur hwn;
(n) gorchymyn o dan baragraff 1 o Atodlen 5 (newid swm arian cyhoeddus a bennir yn y tabl yn Atodlen 5).

(3) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn, ac eithrio offeryn nad yw ond yn cynnwys gorchymyn o dan adran 156 (cychwyn), yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(4) Darpariaeth sy'n diwygio cyfeiriad at berson yng nghofnod person yn y tabl yn Atodlen 6 neu'r tabl yn Atodlen 8 o ganlyniad i newid enw'r person hwnnw yw'r ddarpariaeth y cyfeirir ati yn is-adran (2)(f).

(5) Mae unrhyw bŵer gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn cynnwys pŵer—
(a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol, dibenion gwahanol neu ardaloedd daearyddol gwahanol;
(b) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol;
(c) i wneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth arbed, darpariaeth gysylltiedig a darpariaeth arall sy'n angenrheidiol neu'n briodol yn nhyb Gweinidogion Cymru.

(6) Mae pŵer Gweinidogion Cymru o dan adran 155(3) hefyd yn cynnwys, yn achos cychwyn diddymiad darpariaeth yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993, pŵer i ddarparu ar gyfer cychwyn gwahanol ar gyfer awdurdodaethau gwahanol.

(7) Yn yr adran hon, ystyr "deddfwriaeth sylfaenol" yw Deddf Senedd y DU neu un o Fesurau neu Ddeddfau'r Cynulliad.

### 151 Cyfarwyddiadau

O ran unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan y Mesur hwn—
(a) caniateir ei amrywio neu ei ddirymu gan gyfarwyddyd diweddarach;
(b) rhaid ei roi'n ysgrifenedig;
(c) caniateir iddo wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol; a
(d) caniateir iddo wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol, dibenion gwahanol neu ardaloedd daearyddol gwahanol.

### 152 Hysbysiadau etc

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â hysbysiadau a dogfennau eraill y mae'n ofynnol neu yr awdurdodir eu rhoi o dan y Mesur hwn.

(2) Caniateir rhoi hysbysiad neu ddogfen y mae'n ofynnol neu yr awdurdodir ei roi neu ei rhoi i'r Comisiynydd—
(a) drwy ei draddodi neu ei thraddodi i'r Comisiynydd,
(b) drwy ei anfon neu ei hanfon drwy'r post i brif swyddfa'r Comisiynydd, neu

(c) yn ddarostyngedig i is-adran (3), drwy ei drosglwyddo neu ei throsglwyddo'n electronig.

(3) Dim ond os cafodd yr hysbysiad neu'r ddogfen ei drosglwyddo neu ei throsglwyddo mewn modd y gall y Comisiynydd ei wneud yn ofynnol y caniateir i hysbysiad neu ddogfen gael ei drosglwyddo neu ei throsglwyddo'n electronig.

(4) Caniateir rhoi hysbysiad neu ddogfen y mae'n ofynnol i'r Comisiynydd ei roi neu ei rhoi, neu yr awdurdodir y Comisiynydd i'w roi neu i'w rhoi, i berson arall—

(a) drwy ei draddodi neu ei thraddodi i'r person,

(b) drwy ei anfon neu ei hanfon drwy'r post i'r cyfeiriad diweddaraf sy'n hysbys ar gyfer y person, neu

(c) yn ddarostyngedig i is-adran (5), drwy ei drosglwyddo neu ei throsglwyddo'n electronig.

(5) Dim ond os bodlonir y gofynion canlynol y caiff y Comisiynydd roi hysbysiad neu ddogfen i berson drwy ei drosglwyddo neu ei throsglwyddo'n electronig—

(a) rhaid i'r person y mae'r hysbysiad neu'r ddogfen i'w roi neu i'w rhoi iddo fod wedi—

(i) mynegi i'r Comisiynydd fod y person hwnnw'n fodlon derbyn yr hysbysiad neu'r ddogfen drwy ei drosglwyddo neu ei throsglwyddo drwy gyfrwng electronig, a

(ii) darparu cyfeiriad addas at y diben hwnnw i'r Comisiynydd, a

(b) rhaid i'r Comisiynydd anfon yr hysbysiad neu'r ddogfen i'r cyfeiriad a ddarparwyd gan y person hwnnw.

(6) Caiff person fynegi, at ddibenion is-adran (4), ei fod yn fodlon derbyn—

(a) hysbysiadau neu ddogfennau'n gyffredinol wedi eu trosglwyddo'n electronig, neu

(b) hysbysiadau neu ddogfennau o ddisgrifiadau penodol wedi eu trosglwyddo'n electronig.

(7) Nid yw'r adran hon yn hepgor unrhyw ddull arall o roi neu o anfon hysbysiad neu ddogfen na ddarperir yn benodol ar ei gyfer gan yr adran hon.

(8) Nid yw gofyniad yn y Mesur hwn am i hysbysiad neu ddogfen fod yn ysgrifenedig yn atal yr adran hon rhag bod yn gymwys mewn perthynas â hi neu ag ef.

(9) Nid yw gofyniad am i'r Comisiynydd roi hysbysiad neu ddogfen arall i berson yn gymwys os yw'r Comisiynydd o'r farn nad yw'n ymarferol rhoi'r hysbysiad hwnnw neu'r ddogfen honno i'r person hwnnw yn unol ag is-adran (4).

(10) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud darpariaeth ynghylch y dyddiad y bernir bod hysbysiad wedi ei roi neu ddogfen wedi ei rhoi.

## 153 Dehongli'r Mesur hwn

(1) Yn y Mesur hwn—

ystyr "Comisiynydd" ("*Commissioner*") yw Comisiynydd y Gymraeg (gweler Rhan 2);

mae "deddfiad" ("*enactment*") yn cynnwys Mesur Cynulliad, Deddf Cynulliad, is-ddeddfwriaeth ac unrhyw ddeddfiad yn y dyfodol;

ystyr “Dirprwy Gomisiynydd” (“*Deputy Commissioner*”) yw Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg (gweler adran 12);

ystyr “Llywydd” (“*President*”) yw Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg (gweler Rhan 7);

ystyr “Panel Cynghori” (“*Advisory Panel*”) yw Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg (gweler Rhan 3);

ystyr “Rheolau'r Tribiwnlys” (“*Tribunal Rules*”) yw Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg (gweler Rhan 7);

ystyr “Tribiwnlys” (“*Tribunal*”) yw Tribiwnlys y Gymraeg (gweler Rhan 7).

(2) Yn y Mesur hwn mae cyfeiriadau at staff y Comisiynydd i'w dehongli'n unol ag adran 12(2).

### 154 Darpariaeth drosiannol a darpariaeth ganlyniadol etc

(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud y cyfryw ddarpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth arbed, darpariaeth gysylltiedig, a darpariaeth arall ag y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol mewn cysylltiad â'r Mesur hwn neu i roi llwyr effaith iddo.

(2) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan yr adran hon yn cynnwys darpariaeth sy'n diwygio, diddymu neu fel arall yn addasu deddfiad, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

### 155 Rhychwant

(1) Mae'r Mesur hwn yn rhychwantu Cymru a Lloegr yn unig.

(2) Ond mae hynny'n ddarostyngedig i is-adran (3).

(3) Yr un yw rhychwant diddymiad i ddarpariaeth yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 â rhychwant y ddarpariaeth a gaiff ei diddymu.

### 156 Cychwyn

(1) Daw'r darpariaethau canlynol i rym ar y diwrnod y cymeradwyir y Mesur hwn gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor—

(a) Rhan 1;

(b) y Rhan hon.

(2) Yn ddarostyngedig i is-adran (1), daw'r Mesur hwn i rym yn unol â darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

### 157 Enw byr

Enw'r Mesur hwn yw Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

## ATODLEN 1

(*a gyflwynwyd gan adran 2*)

## COMISIYNYDD Y GYMRAEG

### RHAN 1

### STATWS ETC

*Statws*

1 (1) Mae'r Comisiynydd yn gorfforaeth undyn.

(2) Nid yw'r Comisiynydd i'w ystyried yn was neu'n asiant i'r Goron neu'n un sy'n mwynhau unrhyw statws, imiwnedd na braint sydd gan y Goron.

(3) Nid yw eiddo'r Comisiynydd i'w ystyried yn eiddo'r Goron neu'n eiddo sy'n cael ei ddal gan neu ar ran y Goron.

(4) Wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â'r Comisiynydd, rhaid i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth i'r ffaith ei bod yn ddymunol sicrhau bod y Comisiynydd o dan gyn lleied o gyfyngiadau ag y bo'n rhesymol bosibl wrth iddo benderfynu—

(a) ar ei weithgareddau,

(b) ar ei amserlenni, ac

(c) ar ei flaenoriaethau.

*Dilysrwydd gweithredoedd*

2 (1) Nid effeithir ar ddilysrwydd gweithred person fel Comisiynydd gan ddiffyg ym mhenodiad—

(a) y person hwnnw, neu

(b) unrhyw aelod o'r Panel Cynghori.

(2) Nid effeithir ar ddilysrwydd gweithred person sy'n arfer swyddogaethau'r Comisiynydd gan ddiffyg ym mhenodiad—

(a) y person hwnnw,

(b) y Comisiynydd, neu

(c) unrhyw aelod o'r Panel Cynghori.

### RHAN 2

### PENODI

*Penodi*

3 (1) Pan fydd Prif Weinidog Cymru'n penodi'r Comisiynydd—

(a) rhaid iddo gydymffurfio â rheoliadau penodi (gweler paragraff 7),

(b) rhaid iddo roi sylw i'r argymhellion a wnaed gan y panel dethol ynglŷn â'r penodiad (gweler paragraff 7), ac

(c) caiff ystyried barn unrhyw bersonau eraill y mae'n briodol ymgynghori â hwy yn nhyb Prif Weinidog Cymru.

(2) Ni chaiff Prif Weinidog Cymru benodi person yn Gomisiynydd—

(a) os yw'r person wedi ei anghymhwyso rhag bod yn Gomisiynydd ar sail cyflogaeth (gweler paragraff 13), neu

(b) os cafodd y person hwnnw ei benodi'n Gomisiynydd o'r blaen.

(3) Mae'r farn y caiff Prif Weinidog Cymru ei hystyried o dan is-baragraff (1)(c) yn cynnwys barn y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny—

(a) Cynulliad Cenedlaethol Cymru,

(b) pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol, ac

(c) aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol.

*Tâl cydnabyddiaeth, lwfansau a phensiynau*

4 (1) Caiff Gweinidogion Cymru dalu tâl cydnabyddiaeth i'r Comisiynydd.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru dalu lwfansau (gan gynnwys lwfansau teithio a lwfansau cynhaliaeth, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) ac arian rhodd i'r Comisiynydd.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru dalu—

(a) pensiynau i bersonau a fu'n Gomisiynydd neu mewn cysylltiad â hwy, a

(b) symiau ar gyfer darparu pensiynau, neu tuag at ddarparu pensiynau, i bersonau a fu'n Gomisiynydd, neu mewn cysylltiad â hwy.

*Telerau penodi*

5 (1) Mae'r Comisiynydd yn dal ei swydd yn ddarostyngedig i delerau ei benodiad.

(2) Ond mae hynny'n ddarostyngedig i ddarpariaethau eraill yn yr Atodlen hon.

(3) Rhaid i delerau penodi'r Comisiynydd ddarparu ei fod yn dal y swydd yn llawnamser.

*Cyfnod y penodiad*

6 (1) Mae person a benodir yn Gomisiynydd yn dal y swydd (yn rhinwedd y penodiad hwnnw) am 7 mlynedd.

(2) Ond mae hynny'n ddarostyngedig i Ran 3 o'r Atodlen hon.

*Rheoliadau penodi*

7 (1) Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch penodi'r Comisiynydd ("rheoliadau penodi").

(2) Rhaid i'r rheoliadau penodi wneud darpariaeth ar gyfer sefydlu panel o bersonau ("panel dethol") sydd i wneud y canlynol—

(a) cyf-weld ymgeiswyr ar gyfer penodi Comisiynydd, a

(b) gwneud argymhellion i Brif Weinidog Cymru ynglŷn â'r penodiad.

(3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud mewn rheoliadau penodi'n cynnwys darpariaeth o'r math y cyfeirir ato yn is-baragraffau (4) i (7), ond nid yw'n gyfyngedig i hynny.

(4) Caiff rheoliadau penodi wneud darpariaeth ynghylch yr egwyddorion sydd i'w dilyn wrth benodi'r Comisiynydd.

(5) Caiff rheoliadau penodi ddarparu ynghylch—

(a) gwybodaeth o'r Gymraeg a hyfedredd ynddi, a

(b) gwybodaeth a phrofiad o'r materion y mae gan y Comisiynydd swyddogaethau mewn cysylltiad â hwy,

sef gwybodaeth, hyfedredd a phrofiad o'r math y mae'n rhaid i'r Comisiynydd feddu arno.

(6) Caiff rheoliadau penodi—

(a) cymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw god ymarfer sy'n ymwneud â phenodiadau i gyrff cyhoeddus, neu

(b) gwneud darpariaeth arall sy'n ymwneud ag unrhyw god o'r fath.

(7) Caiff rheoliadau penodi roi swyddogaethau i Weinidogion Cymru neu i Brif Weinidog Cymru (yn ogystal ag i unrhyw berson arall), gan gynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud ag arfer disgresiwn.

*Dirprwyo swyddogaethau penodi etc*

8 (1) Caiff Prif Weinidog Cymru drwy orchymyn—

(a) darparu bod Gweinidogion Cymru'n arfer—

(i) swyddogaeth Prif Weinidog Cymru o benodi'r Comisiynydd, a

(ii) unrhyw un neu rai neu'r oll o swyddogaethau eraill Prif Weinidog Cymru sy'n ymwneud â'r Comisiynydd, a

(b) gwneud darpariaeth arall gysylltiedig sy'n briodol yn nhyb Prif Weinidog Cymru.

(2) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud mewn gorchymyn o dan y paragraff hwn yn cynnwys darpariaeth sy'n diwygio neu'n addasu'r Mesur hwn fel arall, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny.

## RHAN 3

### TERFYNU PENODIAD

*Ymddiswyddo*

9 Caiff y Comisiynydd ymddiswyddo os yw'n rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'i fwriad i wneud hynny i Brif Weinidog Cymru heb fod yn llai na 3 mis cyn ymddiswyddo.

*Anghymhwyso*

10 Mae person yn peidio â bod yn Gomisiynydd os yw'n cael ei anghymhwyso rhag bod yn Gomisiynydd ar sail cyflogaeth.

*Diswyddo*

11 Caiff Prif Weinidog Cymru ddiswyddo'r Comisiynydd os yw Prif Weinidog Cymru wedi ei fodloni o ran y Comisiynydd—

(a) nad yw'n ffit i barhau fel Comisiynydd, neu

(b) nad yw'n gallu neu nad yw'n fodlon arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.

*Taliadau pan fydd yn peidio â dal y swydd*

12 Caiff Gweinidogion Cymru wneud taliad i berson sy'n peidio â dal swydd Comisiynydd os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod amgylchiadau arbennig yn ei gwneud hi'n iawn i'r person gael y taliad yn iawndal.

**RHAN 4**

ANGHYMHWYSO RHAG BOD YN GOMISIYNYDD

13 Mae person yn cael ei anghymhwyso rhag bod yn Gomisiynydd ar sail cyflogaeth os yw'r person—

(a) yn Aelod Seneddol;

(b) yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

(c) yn aelod o gyngor sir, o gyngor bwrdeistref sirol neu o gyngor cymuned yng Nghymru;

(d) yn aelod o'r Tribiwnlys;

(e) yn aelod o'r Panel Cynghori;

(f) yn berson sy'n cael ei gyflogi gan berson sy'n dod o fewn Atodlen 5 neu Atodlen 7, neu sy'n cynghori'r person hwnnw;

(g) yn aelod o staff y Comisiynydd.

**RHAN 5**

MATERION ARIANNOL

*Taliadau gan Weinidogion Cymru*

14 Caiff Gweinidogion Cymru dalu i'r Comisiynydd y symiau, ar yr adegau ac ar y telerau (os oes telerau) sy'n briodol yn eu tyb hwy mewn cysylltiad â gwariant a dynnir wrth gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd.

*Blwyddyn ariannol*

15 (1) Blwyddyn ariannol gyntaf y Comisiynydd yw'r cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod cychwyn ac sy'n dod i ben—

(a) y 31 Mawrth canlynol (os 1 Ebrill yw'r diwrnod cychwyn), neu

(b) yr ail 31 Mawrth canlynol (os nad 1 Ebrill yw'r diwrnod cychwyn).

(2) Yn ddarostyngedig i hynny, blwyddyn ariannol y Comisiynydd yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth.

(3) Yn y paragraff hwn ystyr "diwrnod cychwyn" yw'r diwrnod y daw adran 2 i rym.

*Swyddog cyfrifyddu*

16 (1) Y Comisiynydd yw'r swyddog cyfrifyddu ar gyfer swyddfa'r Comisiynydd.

(2) Mae gan y swyddog cyfrifyddu, o ran cyfrifon a chyllid swyddfa'r Comisiynydd, y cyfrifoldebau a bennir o bryd i'w gilydd gan y Trysorlys.

(3) Yn y paragraff hwn mae cyfeiriadau at gyfrifoldebau yn cynnwys, ymysg pethau eraill—

(a) cyfrifoldebau o ran llofnodi cyfrifon,

(b) cyfrifoldebau am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid y Comisiynydd, ac

(c) cyfrifoldebau am ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau'r Comisiynydd.

(4) Mae'r cyfrifoldebau y caniateir eu pennu o dan y paragraff hwn yn cynnwys, ymysg pethau eraill, gyfrifoldebau sy'n ddyledus i'r canlynol—

(a) Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion Cymru neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu

(b) Tŵ'r Cyffredin neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Tŵ hwnnw.

(5) Os gofynnir iddo wneud hynny gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŵ'r Cyffredin ("y Pwyllgor Seneddol"), caiff Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru—

(a) cymryd tystiolaeth gan y swyddog cyfrifyddu ar ran y Pwyllgor Seneddol,

(b) cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Seneddol ar y dystiolaeth a gymerwyd, ac

(c) trosglwyddo'r dystiolaeth a gymerwyd i'r Pwyllgor Seneddol.

(6) Mae adran 13 o Ddeddf Archwiliadau Cenedlaethol 1983 (dehongli cyfeiriadau at Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŵ'r Cyffredin) yn gymwys at ddibenion y Mesur hwn yn yr un modd ag y mae'n gymwys at ddibenion y Ddeddf honno.

(7) Yn y paragraff hwn ystyr "swyddfa'r Comisiynydd" yw'r Comisiynydd a staff y Comisiynydd.

*Amcangyfrifon*

17 (1) Ar gyfer pob blwyddyn ariannol ac eithrio'r un gyntaf, rhaid i'r Comisiynydd lunio amcangyfrif o incwm a gwariant swyddfa'r Comisiynydd.

(2) Rhaid i'r Comisiynydd gyflwyno'r amcangyfrif i Weinidogion Cymru o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru archwilio amcangyfrif a gyflwynir iddynt yn unol â'r paragraff hwn ac yna rhaid iddynt osod yr amcangyfrif gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyda'r addasiadau (os oes rhai) sy'n briodol yn eu tyb hwy.

(4) Yn is-baragraff (1) ystyr "swyddfa'r Comisiynydd" yw'r Comisiynydd a staff y Comisiynydd.

*Cyfrifon*

18 (1) Rhaid i'r Comisiynydd—

(a) cadw cofnodion cyfrifyddol priodol, a

(b) llunio cyfrifon o ran pob blwyddyn ariannol yn unol â chyfarwyddiadau a roddir, gyda chydsyniad y Trysorlys, gan Weinidogion Cymru.

(2) Mae'r cyfarwyddiadau y caiff Gweinidogion Cymru eu rhoi o dan y paragraff hwn yn cynnwys, ymysg pethau eraill, gyfarwyddiadau o ran—

(a) yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cyfrifon a'r modd y mae'r cyfrifon i'w cyflwyno;

(b) y dulliau a'r egwyddorion y mae'r cyfrifon i'w llunio yn unol â hwy;
(c) gwybodaeth ychwanegol (os o gwbl) sydd i fynd gyda'r cyfrifon.

*Archwilio*

19 (1) Rhaid i'r Comisiynydd gyflwyno'r cyfrifon a luniwyd ar gyfer blwyddyn ariannol i Archwilydd Cyffredinol Cymru heb fod yn hwyrach na 31 Awst yn y flwyddyn ariannol ganlynol.

(2) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—
(a) archwilio ac ardystio pob set o gyfrifon a gyflwynir o dan y paragraff hwn, ac adrodd arnynt, a
(b) heb fod yn hwyrach na phedwar mis ar ôl i'r cyfrifon gael eu cyflwyno, osod copi ohonynt gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel y cawsant eu hardystio ganddo, ynghyd â'i adroddiad arnynt.

(3) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru, ymysg pethau eraill, wrth archwilio'r cyfrifon a gyflwynir o dan y paragraff hwn, ei fodloni ei hun fod y gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef wedi cael ei dynnu'n gyfreithiol ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu.

*Archwilio'r defnydd o adnoddau*

20 (1) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wnaed o adnoddau wrth i swyddogaethau'r Comisiynydd gael eu cyflawni.

(2) Nid yw is-baragraff (1) i'w ddehongli fel pe bai'n rhoi hawl i Archwilydd Cyffredinol Cymru gwestiynu teilyngdod amcanion polisi'r Comisiynydd.

(3) Wrth benderfynu sut i arfer y swyddogaethau o dan y paragraff hwn, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru ystyried barn Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran yr archwiliadau y dylai eu cyflawni.

(4) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad o ganlyniadau unrhyw archwiliad a gyflawnwyd o dan y paragraff hwn.

## RHAN 6

## CYFFREDINOL

*Dehongli*

21 Yn yr Atodlen hon—

mae i "panel dethol" ("*selection panel*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 7;

ystyr "rheoliadau penodi" ("*appointment regulations*") yw rheoliadau a wneir o dan baragraff 7.

## ATODLEN 2

(*a gyflwynwyd gan adran 7*)

## YMHOLIADAU GAN Y COMISIYNYDD

*Cyflwyniad*

1 Mae'r Atodlen hon yn gymwys i ymholiadau o dan adran 7.

*Cylch gorchwyl*

2 Cyn cynnal ymholiad, rhaid i'r Comisiynydd baratoi cylch gorchwyl i'r ymholiad.

3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os yw'r cylch gorchwyl yn ymwneud â pherson penodol neu gategori o berson.

(2) Rhaid i'r cylch gorchwyl bennu'r person hwnnw neu'r categori o berson.

(3) Cyn setlo'r cylch gorchwyl, rhaid i'r Comisiynydd—

(a) hysbysu pob person perthnasol o'r cylch gorchwyl arfaethedig,

(b) rhoi cyfle i bob person perthnasol gyflwyno sylwadau am y cylch gorchwyl arfaethedig, ac

(c) ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir.

(4) Ar ôl setlo'r cylch gorchwyl (ac yntau wedi cydymffurfio ag is-baragraff (3)), rhaid i'r Comisiynydd—

(a) cyhoeddi cylch gorchwyl yr ymholiad mewn modd sydd yn nhyb y Comisiynydd yn debygol o ddwyn yr ymholiad i sylw personau y mae a wnelo'r ymholiad â hwy, neu sy'n debygol o fod yn bersonau a chanddynt fuddiant ynddo, a

(b) hysbysu'r canlynol am y cylch gorchwyl—

(i) pob person perthnasol, a

(ii) Gweinidogion Cymru.

(5) Yn y paragraff hwn ystyr "person perthnasol" yw—

(a) person a bennir yng nghylch gorchwyl ymholiad, a

(b) o ran categori o bersonau a bennir yng nghylch gorchwyl ymholiad, pob person y mae'r Comisiynydd o'r farn ei fod yn dod o fewn y categori hwnnw.

4 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os nad yw'r cylch gorchwyl yn ymwneud â pherson penodol neu gategori o berson.

(2) Rhaid i'r Comisiynydd—

(a) cyhoeddi cylch gorchwyl yr ymholiad mewn modd sy'n debygol yn nhyb y Comisiynydd o ddwyn yr ymholiad i sylw personau y mae a wnelo'r ymholiad â hwy neu sy'n debygol o fod yn bersonau a chanddynt fuddiant ynddo, a

(b) hysbysu Gweinidogion Cymru am y cylch gorchwyl.

5 Mae paragraff 3 neu 4 yn gymwys i unrhyw newid yn y cylch gorchwyl fel y byddai'r paragraff yn gymwys pe byddai'r newid yn y cylch gorchwyl yn gyfystyr â pharatoi'r cylch gorchwyl hwnnw.

*Sylwadau*

6 (1) Rhaid i'r Comisiynydd wneud trefniadau ar gyfer rhoi cyfle i bersonau wneud sylwadau mewn perthynas ag ymholiadau.

(2) Rhaid i'r trefniadau roi cyfle i'r personau canlynol wneud sylwadau yn ystod ymholiad—

(a) pob person—

(i) a bennir yn y cylch gorchwyl, neu

(ii) sy'n dod o fewn categori o berson a bennir yn y cylch gorchwyl, a

(b) Gweinidogion Cymru.

(3) Caiff trefniadau o dan y paragraff hwn gynnwys trefniadau ar gyfer sylwadau llafar ymysg pethau eraill.

7 (1) Rhaid i'r Comisiynydd ystyried sylwadau a wneir mewn perthynas ag ymholiad—

(a) gan berson—

(i) a bennir yn y cylch gorchwyl, neu

(ii) sy'n dod o fewn categori o berson a bennir yn y cylch gorchwyl, neu

(b) gan gynghorydd cyfreithiol sy'n gweithredu ar ran person sy'n dod o fewn paragraff (a)(i) neu (ii), neu

(c) gan Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i'r Comisiynydd ystyried sylwadau a wneir mewn perthynas ag ymholiad gan unrhyw berson arall, onid yw'n briodol, yn nhyb y Comisiynydd, i wrthod gwneud hynny.

(3) Os yw'r Comisiynydd yn gwrthod ystyried sylwadau a gyflwynir mewn perthynas ag ymholiad, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig am y canlynol i'r person a gyflwynodd y sylwadau—

(a) y penderfyniad i wrthod ystyried y sylwadau, a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

(4) Yn y paragraff hwn ystyr "cynghorydd cyfreithiol" yw—

(a) person sydd, at ddibenion Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007, yn berson awdurdodedig, neu'n gyfreithiwr Ewropeaidd sy'n berson esempt yn rhinwedd paragraff 7 o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno, mewn perthynas â gweithgaredd sy'n golygu arfer hawl i ymddangos mewn achos neu ymladd achos (o fewn ystyr y Ddeddf honno), a

(b) adfocad neu gyfreithiwr yn yr Alban.

*Adroddiadau ar ymholiadau*

8 (1) Rhaid i'r Comisiynydd lunio adroddiad o'i ganfyddiadau ar unrhyw ymholiad.

(2) Ni chaniateir i'r adroddiad—

(a) ei gwneud yn hysbys beth yw'r methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol (o fewn ystyr Rhan 5) gan berson y mae'n hysbys pwy ydyw, neu y gall fod yn hysbys pwy ydyw, yn rhinwedd yr adroddiad, neu

(b) cyfeirio fel arall at weithgareddau person y mae'n hysbys pwy ydyw, neu y gall fod yn hysbys pwy ydyw, yn rhinwedd yr adroddiad, oni bai bod y Comisiynydd o'r farn—

(i) na fyddai'r cyfeiriad yn niweidio'r person, neu

(ii) bod y cyfeiriad yn angenrheidiol er mwyn i'r adroddiad adlewyrchu canlyniadau'r ymholiad yn ddigonol (gan ystyried cylch gorchwyl yr ymholiad).

(3) Rhaid i'r Comisiynydd anfon drafft o'r adroddiad at Weinidogion Cymru.

(4) Os yw'r cylch gorchwyl yn pennu person penodol neu gategori o berson, rhaid i'r Comisiynydd hefyd anfon drafft o'r adroddiad at bob person perthnasol.

(5) Rhaid i'r Comisiynydd—

(a) rhoi cyfle i Weinidogion Cymru, ac i unrhyw berson arall yr anfonir drafft o adroddiad ato, i wneud sylwadau am yr adroddiad drafft, a

(b) ystyried unrhyw sylwadau a wneir.

(6) Ar ôl setlo'r adroddiad (ac yntau wedi cydymffurfio ag is-baragraff (5)), rhaid i'r Comisiynydd ei gyhoeddi.

(7) Nid yw'r paragraff hwn yn effeithio ar gymhwyso Deddf Diogelu Data 1998 i'r Comisiynydd.

(8) Yn y paragraff hwn mae i "person perthnasol" yr un ystyr ag a roddir ym mharagraff 3.

## ATODLEN 3

(*a gyflwynwyd gan adran 21*)

## DIWYGIADAU YNGLŶN Â GWEITHIO AR Y CYD A GWEITHIO'N GYFOCHROG

*Deddf Safonau Gofal 2000*

1 Diwygier Deddf Safonau Gofal 2000 fel a ganlyn.

2 Yn adran 75ZA (Comisiynydd Plant Cymru: gweithio gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru)—

(a) yn y teitl, yn lle "the Commissioner for Older People in Wales" rhodder "other Commissioners";

(b) yn is-adran (1), ar ôl "Wales" mewnosoder "or the Welsh Language Commissioner";

(c) yn is-adran (2), ar ôl "Wales" mewnosoder ", or may inform the Welsh Language Commissioner,";

(d) yn is-adran (3)—

(i) ar ôl "must" mewnosoder "(as respects the Commissioner for Older People in Wales) or may (as respects the Welsh Language Commissioner)";

(ii) ym mharagraffau (a) a (b), ar ôl "Wales" mewnosoder "or the Welsh Language Commissioner";

(e) yn is-adran (4), ar ôl "Wales" mewnosoder "or the Welsh Language Commissioner";

(f) yn is-adran (5)—

(i) ar ôl "must" mewnosoder "(as respects the Commissioner for Older People in Wales) or may (as respects the Welsh Language Commissioner)";

(ii) yn lle "the Commissioner for Older People in Wales" rhodder "that Commissioner".

3 Yn adran 76 (swyddogaethau pellach) yn is-adran (5), ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"(c) provide that the Commissioner may make a joint report with the Welsh Language Commissioner where they have exercised their respective functions under this Act and the Welsh Language (Wales) Measure 2011 in relation to the same matters."

*Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005*

4 Diwygier Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 fel a ganlyn.

5 Yn adran 25A (gweithio ar y cyd gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru)—

(a) yn y teitl, yn lle "the Commissioner for Older People in Wales" rhodder "other Commissioners";

(b) yn is-adran (1)(b), ar ôl "Wales" mewnosoder "or the Welsh Language Commissioner";

(c) yn is-adran (2), ar ôl "must" mewnosoder "(as respects the Commissioner for Older People in Wales) or may (as respects the Welsh Language Commissioner)".

6 Yn adran 25B (gweithio'n gyfochrog â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru)—

(a) yn y teitl, yn lle "the Commissioner for Older People in Wales" rhodder "other Commissioners";

(b) yn is-adran (1), yn lle "the Commissioner" rhodder "the Commissioner for Older People in Wales or the Welsh Language Commissioner";

(c) yn is-adran (2), ar ôl "must" mewnosoder "(as respects the Commissioner for Older People in Wales) or may (as respects the Welsh Language Commissioner)";

(d) yn is-adran (3), ar ôl "must" mewnosoder "(as respects the Commissioner for Older People in Wales) or may (as respects the Welsh Language Commissioner)";

(e) yn is-adran (5), ar ôl "must" mewnosoder "(as respects the Commissioner for Older People in Wales) or may (as respects the Welsh Language Commissioner)";

(f) hepgorer is-adran (6).

*Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006*

7 Diwygier Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 fel a ganlyn.

8 Yn adran 15 (adroddiadau yn dilyn cyflawni swyddogaethau penodol), yn is-adran (3), ar ôl paragraff (d) mewnosoder—

"(e) provide that the Commissioner may make a joint report with the Welsh Language Commissioner where they have discharged their respective functions under this Act and the Welsh Language (Wales) Measure 2011 in relation to the same matters.".

9 Yn adran 17 (gweithio'n gyfochrog ag ombwdsmyn eraill)—

(a) yn is-adran (2), yn lle "must" rhodder "may (as respects the Welsh Language Commissioner) or must (as respects another Ombudsman)";
(b) yn is-adran (3), yn lle "must" rhodder "may (as respects the Welsh Language Commissioner) or must (as respects another Ombudsman)";
(c) yn is-adran (5), yn lle "must" rhodder "may (as respects the Welsh Language Commissioner) or must (as respects another Ombudsman)";
(d) yn is-adran (6), ar ôl paragraff (b) mewnosoder—
"(c) the Welsh Language Commissioner."

## ATODLEN 4

(*a gyflwynwyd gan adran 23*)

## AELODAU'R PANEL CYNGHORI

### **RHAN 1**

### PENODI

*Penodi*

1 (1) Pan fydd Gweinidogion Cymru'n penodi aelod o'r Panel Cynghori rhaid iddynt gydymffurfio â rheoliadau penodi (gweler paragraff 5).

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru benodi person yn aelod o'r Panel Cynghori os yw'r person wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Panel Cynghori ar sail cyflogaeth.

*Tâl cydnabyddiaeth, lwfansau a phensiynau*

2 (1) Caiff Gweinidogion Cymru dalu tâl cydnabyddiaeth i aelodau'r Panel Cynghori.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru dalu lwfansau (gan gynnwys lwfansau teithio a lwfansau cynhaliaeth, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) ac arian rhodd i aelodau'r Panel Cynghori.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru dalu—
(a) pensiynau i bersonau a fu'n aelodau o'r Panel Cynghori, neu mewn cysylltiad â hwy, a
(b) symiau ar gyfer darparu pensiynau, neu tuag at ddarparu pensiynau, i bersonau a fu'n aelodau o'r Panel Cynghori, neu mewn cysylltiad â hwy.

*Telerau penodi*

3 (1) Mae aelod o'r Panel Cynghori yn dal ei swydd yn ddarostyngedig i delerau ei benodiad.

(2) Ond mae hynny'n ddarostyngedig i ddarpariaethau eraill yr Atodlen hon.

*Cyfnod y penodiad*

4 (1) Mae person a benodir yn aelod o'r Panel Cynghori yn dal ei swydd (yn rhinwedd y penodiad hwnnw) am 3 blynedd.

(2) Ond mae hynny'n ddarostyngedig i Ran 2 o'r Atodlen hon.

*Rheoliadau Penodi*

5 (1) Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch penodi aelodau o'r Panel Cynghori ("rheoliadau penodi").

(2) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud mewn rheoliadau penodi yn cynnwys darpariaeth o'r math y cyfeirir ato yn is-baragraffau (3) i (6), ond nid yw'n gyfyngedig iddi.

(3) Caiff rheoliadau penodi wneud darpariaeth ynghylch yr egwyddorion sydd i'w dilyn wrth benodi aelod o'r Panel Cynghori.

(4) Caiff rheoliadau penodi wneud darpariaeth ynghylch—

(a) gwybodaeth o'r Gymraeg, a hyfedredd ynddi, a

(b) gwybodaeth a phrofiad—

(i) o'r materion y mae gan y Comisiynydd swyddogaethau yn eu cylch, a

(ii) o unrhyw fater arall sy'n berthnasol i unrhyw beth sy'n dod i ran y Comisiynydd i'w wneud,

sef gwybodaeth, hyfedredd a phrofiad o'r math y mae'n rhaid i aelod o'r Panel Cynghori feddu arno.

(5) Caiff rheoliadau penodi—

(a) cymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw god ymarfer sy'n ymwneud â phenodiadau i gyrff cyhoeddus, neu

(b) gwneud darpariaeth arall sy'n ymwneud ag unrhyw god o'r fath.

(6) Caiff rheoliadau penodi roi swyddogaethau i Weinidogion Cymru (yn ogystal ag i unrhyw berson arall), gan gynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud ag arfer disgresiwn.

## RHAN 2

## TERFYNU PENODIAD

*Ymddiswyddo*

6 Caiff aelod o'r Panel Cynghori ymddiswyddo os yw'n rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'i fwriad i wneud hynny i Weinidogion Cymru heb fod yn llai na 2 fis cyn ymddiswyddo.

*Anghymhwyso rhag bod yn aelod*

7 Mae person yn peidio â bod yn aelod o'r Panel Cynghori os yw'r person yn cael ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Panel Cynghori ar sail cyflogaeth.

*Diswyddo*

8 (1) Caiff Gweinidogion Cymru ddiswyddo aelod o'r Panel Cynghori os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

(a) nad yw'r person yn ffit i barhau yn aelod o'r Panel Cynghori, neu

(b) nad yw'r person yn gallu neu'n fodlon gweithredu fel aelod o'r Panel Cynghori.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiynydd cyn diswyddo aelod o'r Panel Cynghori.

*Taliadau pan fo rhywun yn peidio â dal swydd*

9 Caiff Gweinidogion Cymru dalu person sy'n peidio â bod yn aelod o'r Panel Cynghori os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru bod amgylchiadau arbennig yn ei gwneud hi'n iawn i'r person gael taliad yn iawndal.

## RHAN 3

## ANGHYMHWYSO

*Anghymhwyso ar sail cyflogaeth*

10 Mae person yn cael ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Panel Cynghori ar sail cyflogaeth os yw'r person—

(a) yn Aelod Seneddol;

(b) yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

(c) yn aelod o Dribiwnlys y Gymraeg;

(d) yn aelod o staff y Comisiynydd.

## RHAN 4

## CYFFREDINOL

*Dehongli*

11 Yn yr Atodlen hon ystyr "rheoliadau penodi" yw rheoliadau a wneir o dan baragraff 5.

# ATODLEN 5

(*a gyflwynwyd gan adran 33*)

## Y CATEGORÏAU O BERSON Y CANIATEIR EU HYCHWANEGU AT ATODLEN 6

| ***Colofn 1*** ***Cofnod*** | ***Colofn 2*** ***Person/Categori*** |
|---|---|
| (1) | Awdurdodau cyhoeddus. |

| ***Colofn 1*** ***Cofnod*** | ***Colofn 2*** ***Person/Categori*** |
|---|---|
| (2) | Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac a gafodd eu sefydlu drwy ddeddfiad. |
| (3) | Personau wedi eu sefydlu drwy offeryn uchelfreiniol—<br>(a) i hybu dysg a gwybodaeth drwy addysgu neu ymchwilio neu drwy ddatblygu neu ddyfarnu cymwysterau,<br>(b) i gasglu neu ddiogelu gwybodaeth gofnodedig, neu wrthrychau a phethau sy'n hybu dealltwriaeth, neu ddarparu mynediad at yr wybodaeth honno neu at y gwrthrychau a'r pethau hynny,<br>(c) i gefnogi, gwella, neu hybu treftadaeth, diwylliant, chwaraeon neu weithgareddau hamdden, neu ddarparu mynediad atynt,<br>(d) sy'n ymgymryd â hybu gwybodaeth ehangach am Gymru a chynrychioli buddiannau Cymru mewn gwledydd eraill, neu<br>(e) sy'n ymgymryd â bancio canolog. |
| (4) | Personau y mae swyddogaethau darparu gwasanaethau i'r cyhoedd wedi eu rhoi iddynt neu wedi eu gosod arnynt drwy ddeddfiad. |
| (5) | Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol—<br>(a) pan fo'r person hwnnw wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol, neu<br>(b) pan fo penderfyniad wedi ei wneud y bydd yn cael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol. |
| (6) | Personau sy'n goruchwylio rheoleiddiad proffesiwn, diwydiant neu gylch cyffelyb arall o weithgaredd. |
| (7) | Darparwyr tai cymdeithasol. |
| (8) | Personau sy'n cydsynio i gael eu pennu yn Atodlen 6. |

*Cofnod (5): diwygio drwy orchymyn*

1 (1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio cofnod (5) yn y tabl drwy gyfnewid y swm perthnasol am unrhyw swm arall heb fod yn llai na £400,000.

(2) Yn is-baragraff (1), ystyr "swm perthnasol" yw'r cyfanswm o arian cyhoeddus sydd o bryd i'w gilydd wedi ei nodi yng nghofnod (5) yn y tabl.

*Cofnod (8): dehongli etc*

2 At ddibenion cofnod (8) yn y tabl—

(a) ystyr "cydsyniad" mewn perthynas â pherson yw cydsyniad ysgrifenedig a roddir i Weinidogion Cymru gan y person;

(b) caniateir tynnu cydsyniad yn ôl, ond dim ond os yw Gweinidogion Cymru yn cytuno i hynny.

*Dehongli*

3 Yn yr Atodlen hon—

ystyr "arian cyhoeddus" ("*public money*") yw—

(a) arian y perir ei fod ar gael yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy—

(i) Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(ii) Gweinidogion Cymru;

(iii) Senedd y DU;

(iv) Gweinidogion y Goron; neu

(v) un neu ragor o sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd;

(b) arian a ddarperir yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad;

ystyr "awdurdod cyhoeddus" yw pob awdurdod cyhoeddus sy'n dod o fewn ystyr "public authority" yn adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

## ATODLEN 6

(*a gyflwynwyd gan adran 33*)

## CYRFF CYHOEDDUS ETC: SAFONAU

| *Colofn 1* **Person/Categori** | *Colofn 2* **Safonau cymwysadwy** |
|---|---|
| **LLYWODRAETH** | |
| Gweinidogion Cymru ("The Welsh Ministers") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau hybu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Gweinidogion y Goron ("Ministers of the Crown") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |

| *Colofn 1*<br>*Person/Categori* | *Colofn 2*<br>*Safonau cymwysadwy* |
|---|---|
| Adrannau'r Llywodraeth ("Government departments") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Personau sy'n arfer, ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur ("Persons exercising, on behalf of the Crown, functions conferred by or under an Act or Measure") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| **LLYWODRAETH LEOL ETC** | |
| Cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru ("County borough councils and county councils in Wales") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau hybu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Cynghorau cymuned ("Community councils") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Cyd-bwyllgorau awdurdodau lleol ("Local authority joint committees") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Cyd-fyrddau awdurdodau lleol ("Local authority joint boards") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Byrddau Iechyd Lleol ("Local Health Boards") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Cynghorau Iechyd Cymuned ("Community Health Councils") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu |

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

| ***Colofn 1*** ***Person/Categori*** | ***Colofn 2*** ***Safonau cymwysadwy*** |
|---|---|
| | Safonau cadw cofnodion |
| Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (“National Health Service Trusts”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Awdurdodau Iechyd Arbennig (“Special Health Authorities”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (“National Park Authorities”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau hybu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Awdurdodau'r Heddlu (“Police Authorities”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Ymddiriedolaethau Prawf (“Probation Trusts”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Awdurdodau Tân ac Achub (“Fire and Rescue Authorities”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Darparwyr Tai Cymdeithasol (“Providers of Social Housing”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| **CYFFREDINOL** | |
| Amgueddfa Genedlaethol Cymru (“The National Museum of Wales”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi |

| ***Colofn 1*** ***Person/Categori*** | ***Colofn 2*** ***Safonau cymwysadwy*** |
|---|---|
| | Safonau gweithredu |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru ("The Auditor General for Wales") | Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu |
| Yr Asiantaeth Genedlaethol er Gwella Plismona ("The National Policing Improvement Agency") | Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu |
| Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch ("The Quality Assurance Agency for Higher Education") | Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu |
| Asiantaeth yr Amgylchedd ("The Environment Agency") | Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu |
| Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd ("The University of Wales Institute, Cardiff") | Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu |
| Yr Awdurdod Asesu Clinigol Cenedlaethol ("National Clinical Assessment Service") | Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu |
| Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ("The Criminal Injuries Compensation Authority") | Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu |
| Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ("The Financial Services Authority") | Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu |

| *Colofn 1*<br>***Person/Categori*** | *Colofn 2*<br>***Safonau cymwysadwy*** |
|---|---|
| | Safonau cadw cofnodion |
| Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd (“The Olympic Delivery Authority”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (“The Security Industry Authority”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Banc Lloegr (“The Bank of England”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Y Brifysgol Agored (“The Open University”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Buddsoddwyr mewn Pobl y DU (“Investors in People UK”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (“The Youth Justice Board for England and Wales”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (“The Agriculture and Horticulture Development Board”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain (“The British Waterways Board”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |

| *Colofn 1* *Person/Categori* | *Colofn 2* *Safonau cymwysadwy* |
|---|---|
| Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Peiriannol ("The Engineering Construction Industry Training Board") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Bwrdd Marchnata Gwlân Prydain ("The British Wool Marketing Board") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Canolfan Mileniwm Cymru ("Wales Millennium Centre") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Cyfyngedig ("The Royal Welsh College of Music and Drama Limited") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Colegau Cymru Cyfyngedig ("Colleges Wales Limited") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ("The Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu ("The Independent Police Complaints Commission") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ("The Commission for Equality and Human Rights") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Y Comisiwn Cystadlu ("The Competition Commission") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

| ***Colofn 1***<br>***Person/Categori*** | ***Colofn 2***<br>***Safonau cymwysadwy*** |
| --- | --- |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy ("The Sustainable Development Commission") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr ("Charities Commission for England and Wales ") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Y Comisiwn Etholiadol ("The Electoral Commission") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ("The Local Government Boundary Commission for Wales") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ("The Legal Services Commission") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Y Comisiwn Hapchwarae ("The Gambling Commission") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Comisiwn Trefnu a Gorfodi Cynhaliaeth Plant ("The Child Maintenance and Enforcement Commission") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau ("The UK Commission For Employment and Skills") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |

| ***Colofn 1*** ***Person/Categori*** | ***Colofn 2*** ***Safonau cymwysadwy*** |
|---|---|
| | Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Comisiwn y Loteri Genedlaethol (“The National Lottery Commission”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Comisiynydd Plant Cymru (“The Children’s Commissioner for Wales”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (“The Commissioner for Older People in Wales”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Comisiynydd y Gronfa Gymdeithasol (“The Social Fund Commissioner”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Corfforaethau addysg bellach (“Further education corporations”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Corfforaethau addysg uwch (“Higher education corporations”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Cronfa Addysgu ac Ymchwilio Alcohol (“The Alcohol Education and Research Fund”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (“National Heritage Memorial Fund”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu |

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

| ***Colofn 1*** ***Person/Categori*** | ***Colofn 2*** ***Safonau cymwysadwy*** |
|---|---|
| | Safonau cadw cofnodion |
| Y Cronfeydd Byw'n Annibynnol ("The Independent Living Funds") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyfyngedig ("Student Loans Company Limited") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Cyllid Cymru ccc ("Finance Wales plc") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr ("The Royal Pharmaceutical Society of Great Britain") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ("The Welsh Local Government Association") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Y Cynghorau Sgiliau Sector ("The Sector Skills Councils") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ("The General Teaching Council for Wales") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru ("The Countryside Council for Wales") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |

| ***Colofn 1*** ***Person/Categori*** | ***Colofn 2*** ***Safonau cymwysadwy*** |
|---|---|
| Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol ("The General Chiropractic Council") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Cyngor Celfyddydau Cymru ("The Arts Council of Wales") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg ("The Science and Technology Facilities Council") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ("The Higher Education Funding Council for Wales") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Cyngor Chwaraeon Cymru ("The Sports Council for Wales") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Cyngor Chwaraeon y DU ("The UK Sports Council") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ("The Consumer Council for Water") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ("The General Dental Council") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Cyngor Ffilm y DU ("UK Film Council") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |

| ***Colofn 1*** ***Person/Categori*** | ***Colofn 2*** ***Safonau cymwysadwy*** |
|---|---|
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Cyngor Gofal Cymru ("The Care Council for Wales") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ("Wales Council for Voluntary Action") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Cyngor Llyfrau Cymru ("The Welsh Books Council") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Y Cyngor Meddygol Cyffredinol ("The General Medical Council") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ("The Nursing and Midwifery Council") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Y Cyngor Optegol Cyffredinol ("The General Optical Council") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ("The General Osteopathic Council") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Y Cyngor Proffesiynau Iechyd ("The Health Professions Council") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi |

| ***Colofn 1*** <br> ***Person/Categori*** | ***Colofn 2*** <br> ***Safonau cymwysadwy*** |
|---|---|
| Y Cyngor Prydeinig ("The British Council") | Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi |
| Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd ("The Council for Healthcare Regulatory Excellence") | Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi |
| Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol ("The Biotechnology and Biological Sciences Research Council") | Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi |
| Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ("The Economic and Social Research Council") | Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi |
| Y Cyngor Ymchwil Meddygol ("The Medical Research Council") | Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi |
| Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol ("The Engineering and Physical Sciences Research Council") | Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi |
| Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol ("The Natural Environment Research Council") | Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi |
| Y Cyngor Ymchwil i'r Celfyddydau a'r Dyniaethau ("The Arts and Humanities Research Council") | Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |

| ***Colofn 1***<br>***Person/Categori*** | ***Colofn 2***<br>***Safonau cymwysadwy*** |
|---|---|
| | Safonau cadw cofnodion |
| Cyrff llywodraethu ysgolion ("The governing bodies of schools") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Darparwyr gwasanaethau gyrfaoedd ("Providers of career services") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Ffocws ar Deithwyr ("Passenger Focus") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ("National Botanic Garden of Wales") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig ("The British Broadcasting Corporation") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Y Gronfa Loteri Fawr ("The Big Lottery Fund") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Grŵp y Post Brenhinol ccc ("Royal Mail Group plc") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau ("National Endowment for Science, Technology and the Arts") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

| ***Colofn 1*** ***Person/Categori*** | ***Colofn 2*** ***Safonau cymwysadwy*** |
|---|---|
| Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau ("The Pensions Advisory Service") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau ("Universities and Colleges Admission Service") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Cymru ("The Valuation Tribunal Service for Wales") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Hybu Cig Cymru — Meat Promotion Wales | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Llais Defnyddwyr ("Consumer Focus") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru ("The National Library of Wales") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Motability | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| The National Theatre of Wales | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| NIACE | Safonau cyflenwi gwasanaethau |

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

| ***Colofn 1*** ***Person/Categori*** | ***Colofn 2*** ***Safonau cymwysadwy*** |
|---|---|
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Yr Ombwdsmon Pensiynau ("The Pensions Ombudsman") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Opera Cenedlaethol Cymru Cyfyngedig ("Welsh National Opera Limited") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Panel Asesu Rhenti i Gymru ("The Rent Assessment Panel for Wales") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Prifysgol Abertawe ("Swansea University") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Prifysgol Aberystwyth ("Aberystwyth University") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Prifysgol Bangor ("Bangor University") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Prifysgol Caerdydd ("Cardiff University") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Prifysgol Cymru ("The University of Wales") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

| ***Colofn 1***<br>***Person/Categori*** | ***Colofn 2***<br>***Safonau cymwysadwy*** |
|---|---|
| | Safonau gweithredu |
| Prifysgol Cymru, Casnewydd ("The University of Wales, Newport") | Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu |
| Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant ("University of Wales: Trinity St David") | Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu |
| Prifysgol Glyndŵr ("Glyndŵr University") | Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu |
| Prifysgol Morgannwg ("University of Glamorgan") | Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu |
| Pwyllgor Ymgynghorol Trafnidiaeth i'r Anabl ("The Disabled Persons Transport Advisory Committee") | Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu |
| Y Rheoleiddiwr Pensiynau ("The Pensions Regulator") | Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu |
| Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol ("National Institute for Health and Clinical Excellence") | Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu |
| Sefydliad Datblygu Cymunedol ("The Community Development Foundation") | Safonau cadw cofnodion<br>Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu |

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

| ***Colofn 1***<br>***Person/Categori*** | ***Colofn 2***<br>***Safonau cymwysadwy*** |
|---|---|
| | Safonau cadw cofnodion |
| Y Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol ("The Health, Education and Social Care Chamber") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Sianel 4 Cymru | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Y Swyddfa Gyfathrebiadau ("The Office of Communications") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd ("The Office of Rail Regulation") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ("The Information Commissioner's Office") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Theatr Genedlaethol Cymru | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Tribiwnlys Adolygiad Iechyd Meddwl Cymru ("The Mental Health Review Tribunal for Wales") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("The Special Educational Needs Tribunal for Wales") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion |

| ***Colofn 1*** ***Person/Categori*** | ***Colofn 2*** ***Safonau cymwysadwy*** |
|---|---|
| Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru ("The Residential Property Tribunal Wales") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ("Agricultural Land Tribunal (Wales)") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| UFI Cyf ("UFI Ltd") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Uned Ddata Llywodraeth Leol — Cymru ("The Local Government Data Unit—Wales") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Cyfyngedig ("The Energy Saving Trust Limited") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |
| Yr Ymddiriedolaeth Garbon ("The Carbon Trust") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau cadw cofnodion |

*Dehongli etc*

1 Mae'r tabl yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol—

(a) nid yw'r cofnod sy'n ymwneud ag adrannau'r llywodraeth yn cynnwys unrhyw beth sy'n dod o fewn y cofnod sy'n ymwneud â Gweinidogion y Goron;

(b) nid yw'r cofnod sy'n ymwneud â phersonau sy'n arfer swyddogaethau ar ran y Goron yn cynnwys unrhyw berson sy'n dod o fewn unrhyw gofnod arall.

2 Yn yr Atodlen hon—

ystyr "Awdurdod Iechyd Arbennig" ("*Special Health Authority*") yw awdurdod iechyd arbennig a sefydlwyd o dan adran 28 o Ddeddf y

Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 neu adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "Awdurdod Tân ac Achub" ("*Fire and Rescue Authority*") yw awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno'n gymwys iddo;

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw bwrdd iechyd lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "corff llywodraethu ysgolion" ("*governing body of a school*") yw corff llywodraethu ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol neu ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig o fewn ystyr Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, fel y'i hamnewidiwyd gan adran 140(1) a pharagraff 50 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "corfforaeth addysg bellach" ("*further education corporation*") yw corfforaeth addysg bellach a sefydlwyd o dan adran 15 neu 16 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992;

ystyr "corfforaeth addysg uwch" ("*higher education corporation*") yw corfforaeth addysg uwch a sefydlwyd o dan adran 121 neu 122 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988;

ystyr "cyd-bwyllgor awdurdod lleol" ("*local authority joint committee*") yw cyd-bwyllgor o ddau neu ragor o'r canlynol—

(a) cynghorau sir,
(b) cynghorau bwrdeistref sirol, neu
(c) cynghorau cymuned;

ystyr "cyd-fwrdd awdurdod lleol" ("*local authority joint board*") yw cyd-fwrdd, a dau neu ragor o'r canlynol yw ei aelodau—

(a) cynghorau sir,
(b) cynghorau bwrdeistref sirol, neu
(c) cynghorau cymuned;

ystyr "Cyngor Iechyd Cymuned" ("*Community Health Council*" ) yw cyngor iechyd cymuned a sefydlwyd o dan adran 182 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "darparwr gwasanaethau gyrfaoedd" ("*provider of career services*") yw person y mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi gwneud trefniadau gydag ef (heb fod yn drefniadau sydd wedi dod i ben) o dan adran 10 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973 (darparu gwasanaethau gyrfaoedd);

ystyr "Deddf" ("*Act*") yw Deddf Senedd y DU neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Ffocws ar Deithwyr" ("*Passenger Focus*") yw'r Cyngor Teithwyr Rheilffyrdd a sefydlwyd o dan Ddeddf Rheilffyrdd 2005;

mae "Gweinidog y Goron" ("*Minister of the Crown*") yn cynnwys y Trysorlys;

ystyr "Llais Defnyddwyr" ("*Consumer Focus*") yw'r Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 1 o Ddeddf Defnyddwyr, Gwerthwyr Tai a Gwneud Iawn am Gamweddau 2007;

ystyr "Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru" ("*Agricultural Land Tribunal (Wales)*") yw'r tribiwnlys tir amaethyddol a sefydlwyd ar gyfer Cymru gan Orchymyn Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol (Ardaloedd) 1982;

ystyr "Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol" ("*National Health Service Trust*") yw un o ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a gyfansoddwyd o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 neu Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

## ATODLEN 7

(*a gyflwynwyd gan adran 33*)

## Y CATEGORÏAU O BERSON Y CANIATEIR EU HYCHWANEGU AT ATODLEN 8

| ***Colofn 1*** | ***Colofn 2*** | ***Colofn 3*** |
|---|---|---|
| ***Cofnod*** | ***Disgrifiad o'r person*** | ***Gwasanaeth(au) sydd ar gael*** |
| (1) | Personau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau nwy, dŵr neu drydan (gan gynnwys cyflenwi neu ddosbarthu). | (a) Gwasanaethau nwy, dŵr neu drydan (gan gynnwys cyflenwi neu ddosbarthu).<br>(b) Gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â gwasanaethau ym mharagraff (a). |
| (2) | Personau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau carthffosiaeth (gan gynnwys gwaredu carthion). | (a) Gwasanaethau carthffosiaeth (gan gynnwys gwaredu carthion).<br>(b) Gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â gwasanaethau ym mharagraff (a). |
| (3) | Personau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau post neu swyddfeydd post. | (a) Gwasanaethau post neu wasanaethau swyddfeydd post.<br>(b) Gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â gwasanaethau ym mharagraff (a). |
| (4) | Personau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau telathrebu. | (a) Gwasanaethau telathrebu.<br>(b) Gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â gwasanaethau ym mharagraff (a). |
| (5) | Personau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd addysg, hyfforddiant (lle y mae'r | (a) Addysg, hyfforddiant (lle y mae'r darparwr yn derbyn arian cyhoeddus |

| ***Colofn 1*** <br> ***Cofnod*** | ***Colofn 2*** <br> ***Disgrifiad o'r person*** | ***Colofn 3*** <br> ***Gwasanaeth(au) sydd ar gael*** |
|---|---|---|
| | darparwr yn derbyn arian cyhoeddus i'w ddarparu), neu gyfarwyddyd gyrfaoedd. | i'w ddarparu), neu gyfarwyddyd gyrfaoedd. <br> (b) Gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â gwasanaethau ym mharagraff (a). |
| (6) | Personau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau sy'n annog, yn galluogi neu'n cynorthwyo cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaoedd. | (a) Gwasanaethau i annog, i alluogi neu i gynorthwyo cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaoedd. <br> (b) Gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â gwasanaethau ym mharagraff (a). |
| (7) | Personau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau bysiau neu wasanaethau rheilffyrdd. | (a) Gwasanaethau bysiau neu wasanaethau rheilffyrdd. <br> (b) Gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â gwasanaethau ym mharagraff (a). |
| (8) | Personau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau i ddatblygu neu i ddyfarnu cymwysterau addysgol neu alwedigaethol. | (a) Gwasanaethau i ddatblygu neu i ddyfarnu cymwysterau addysgol neu alwedigaethol. <br> (b) Gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â gwasanaethau ym mharagraff (a). |
| (9) | Personau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau sy'n gysylltiedig ag unrhyw wasanaeth sylfaenol. | Gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag unrhyw wasanaeth sylfaenol. |
| (10) | Personau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd o dan gytundeb, neu'n unol â threfniadau, a wnaed gydag awdurdod cyhoeddus. | Gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd o dan y cytundeb, neu'n unol â'r trefniadau, a wnaed gyda'r awdurdod cyhoeddus. |

*Gwasanaethau a ddarperir mewn siopau: eithriadau*

1 (1) Nid yw cyfeiriadau yn y tabl at "wasanaethau cysylltiedig" yn cynnwys gwasanaethau a ddarparir mewn siopau onid yw'r gwasanaethau hynny—

(a) yn wasanaethau cownteri swyddfa'r post, neu

(b) yn wasanaethau gwerthu tocynnau neu ddarparu amserlenni ar gyfer gwasanaethau bysiau a gwasanaethau rheilffyrdd.

(2) At y diben hwnnw, y canlynol yw'r cyfeiriadau yn y tabl at wasanaethau cysylltiedig—

(a) yng ngholofn (3) ym mhob un o resi (1) i (8) yn y tabl, y cyfeiriadau ym mharagraff (b) bob tro at wasanaethau eraill, a

(b) yng ngholofnau (2) a (3) yn rhes (9) yn y tabl, y cyfeiriadau at wasanaethau sy'n gysylltiedig ag unrhyw wasanaeth sylfaenol.

*Dehongli*

2 Yn yr Atodlen hon—

ystyr "arian cyhoeddus" ("*public money*") yw—

(a) arian y perir ei fod ar gael yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy—

(i) Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(ii) Gweinidogion Cymru;

(iii) Senedd y DU;

(iv) Gweinidogion y Goron; neu

(v) un neu ragor o sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd;

(b) arian a ddarperir yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad;

ystyr "awdurdod cyhoeddus" yw pob awdurdod cyhoeddus sy'n dod o fewn ystyr "public authority" yn adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998;

ystyr "gwasanaethau bysiau" ("*bus services*") yw gwasanaeth rheolaidd â cherbyd gwasanaeth cyhoeddus (o fewn ystyr adran 1 o Ddeddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981) i gludo teithwyr am brisiau tocyn ar wahân, ac eithrio gwasanaeth—

(a) y mae capasiti cyfan y cerbyd ar gyfer y gwasanaeth hwnnw wedi ei brynu gan siartrwr at ei ddefnydd ei hun neu i'w ailwerthu;

(b) sy'n daith neu'n drip a drefnwyd yn breifat gan unrhyw berson sy'n gweithio'n annibynnol ar weithredwr y cerbyd; neu

(c) lle y mae'r teithwyr yn teithio gyda'i gilydd ar daith, gyda seibiannau neu hebddynt, a ph'un ai ar yr un diwrnod ai peidio, o un neu fwy o leoedd i un neu fwy o leoedd ac yn ôl;

ystyr "gwasanaeth sylfaenol" ("*primary service*") yw gwasanaeth sy'n dod o fewn paragraff (a) yng ngholofn (3) o unrhyw un neu ragor o resi (1) i (8);

ystyr "gwasanaethau post" ("*postal services*") yw'r gwasanaeth o gludo llythyrau, parseli, pacedi neu bethau eraill o un man i fan arall drwy'r post a'r gwasanaethau cysylltiedig o dderbyn, casglu, sortio a danfon y cyfryw bethau;

ystyr "gwasanaethau telathrebu" ("*telecommunications service*") yw unrhyw wasanaeth sy'n cynnwys darparu mynediad at, neu gyfleusterau i wneud defnydd o, unrhyw system sy'n bod (boed yn gyfan gwbl neu'n

rhannol yn y Deyrnas Unedig neu mewn man arall) at y diben o hwyluso trosglwyddo cyfathrebiadau drwy unrhyw fodd sy'n golygu defnyddio ynni trydanol, magnetig neu electromagnetig (gan gynnwys y cyfarpar a geir yn y system), ond nid yw'n cynnwys darlledu, y radio na'r teledu;

ystyr "person neilltuedig" ("*qualifying person*") yw person nad yw o fewn Atodlen 6;

ystyr "siop" ("*shop*") yw unrhyw fangre, a masnach neu fusnes gwerthu nwyddau yw'r brif fasnach neu'r prif fusnes sy'n cael ei chynnal neu ei gynnal yno.

## ATODLEN 8

(*cyflwynwyd gan adran 33*)

## CYRFF ERAILL: SAFONAU

| ***Colofn 1*** ***Person/Categori*** | ***Colofn 2*** ***Gwasanaeth(au) penodedig*** |
|---|---|
| Personau neilltuedig sy'n gyflenwyr nwy trwyddedig. | Cyflenwi nwy i'r cyhoedd o dan y drwydded nwy berthnasol. |
| Personau neilltuedig sydd, yn rhinwedd penodiad o dan adran 6 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, neu yn rhinwedd amrywio'r penodiad hwnnw o dan adran 7 o'r Ddeddf honno, yn ymgymerwyr dŵr dros Gymru gyfan neu unrhyw ran ohoni. | Gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd wrth arfer swyddogaethau ymgymerwr dŵr ar gyfer Cymru gyfan neu unrhyw ran ohoni. |
| Personau neilltuedig sydd, yn rhinwedd penodiad o dan adran 6 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, neu yn rhinwedd amrywio'r penodiad hwnnw o dan adran 7 o'r Ddeddf honno, yn ymgymerwyr carthffosiaeth ar gyfer Cymru gyfan neu unrhyw ran ohoni. | Gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd wrth arfer swyddogaethau ymgymerwr carthffosiaeth ar gyfer Cymru gyfan neu unrhyw ran ohoni. |
| Personau neilltuedig sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig. | Cyflenwi trydan i'r cyhoedd o dan drwydded drydan berthnasol. |
| Personau neilltuedig sy'n darparu swyddfeydd post i'r cyhoedd. | Darparu swyddfeydd post i'r cyhoedd. |
| Personau neilltuedig, ac eithrio cyrff di-elw, sy'n darparu gwasanaethau post i'r cyhoedd. | Darparu gwasanaethau post i'r cyhoedd. |
| Personau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau telathrebu i'r cyhoedd. | Darparu gwasanaethau telathrebu i'r cyhoedd. |
| Personau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau bysiau i'r cyhoedd. | Darparu gwasanaethau bysiau i'r cyhoedd. |
| Personau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau rheilffyrdd i deithwyr. | Darparu i'r cyhoedd wasanaethau rheilffyrdd i deithwyr. |
| Personau neilltuedig sy'n darparu addysg, hyfforddiant (lle y mae'r darparwr yn | Darparu addysg, hyfforddiant (lle y mae'r darparwr yn derbyn arian cyhoeddus i'w |

| ***Colofn 1*** ***Person/Categori*** | ***Colofn 2*** ***Gwasanaeth(au) penodedig*** |
|---|---|
| derbyn arian cyhoeddus i'w ddarparu), neu gyfarwyddyd gyrfaoedd i'r cyhoedd. | ddarparu), neu gyfarwyddyd gyrfaoedd i'r cyhoedd. |
| Personau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau sy'n annog, yn galluogi neu'n cynorthwyo cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaoedd. | Darparu i'r cyhoedd wasanaethau i annog, i alluogi neu i gynorthwyo cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaoedd. |
| Personau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau datblygu neu ddyfarnu cymwysterau addysgol neu alwedigaethol i'r cyhoedd. | Darparu gwasanaethau datblygu neu ddyfarnu cymwysterau addysgol neu alwedigaethol i'r cyhoedd. |
| Personau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ("y gwasanaethau cysylltiedig") sy'n gysylltiedig â gwasanaeth sy'n dod o fewn colofn (2) mewn unrhyw un neu ragor o'r cofnodion blaenorol yn y tabl hwn (y "gwasanaeth sylfaenol"), p'un ai hwy yw'r personau sy'n darparu'r gwasanaeth sylfaenol ai peidio. | Darparu'r gwasanaethau cysylltiedig i'r cyhoedd. |
| Personau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd o dan gytundeb, neu'n unol â threfniadau, a wnaed gyda—<br>(a) Gweinidogion Cymru,<br>(b) un o Weinidogion y Goron,<br>(c) un o adrannau'r llywodraeth,<br>(d) person sy'n arfer ar ran y Goron swyddogaethau a roddwyd gan Ddeddf neu Fesur neu o dan Ddeddf neu Fesur, neu<br>(e) cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor sir yng Nghymru. | Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd o dan y cytundeb, neu'n unol â'r trefniadau hynny. |

*Dehongli*

1 (1) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn yr Atodlen hon ac yn Atodlen 7 (ac eithrio "gwasanaeth cysylltiedig" a "gwasanaeth sylfaenol") yr un ystyron yn yr Atodlen hon ag yn Atodlen 7.

(2) Ond mae hynny'n ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol yr Atodlen hon.

2 Mae cyfeiriadau at ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd yn cynnwys y canlynol (ond heb fod wedi eu cyfyngu i hynny)—

(a) darparu'r gwasanaeth i'r cyhoedd yn gyffredinol neu i aelodau penodol o'r cyhoedd, a

(b) darparu'r gwasanaeth at unrhyw ddiben (boed at ddiben domestig, busnes neu ddiben arall).

**Statws** This is the original version (as it was originally enacted).

*Nwy*

3 Yn yr Atodlen hon—

ystyr "cyflenwr nwy trwyddedig" ("*licensed gas supplier*") yw deiliad trwydded nwy berthnasol;

ystyr "trwydded nwy berthnasol" ("*relevant gas licence*") yw trwydded o dan adran 7A o Ddeddf Nwy 1986.

*Trydan*

4 Yn yr Atodlen hon—

ystyr "cyflenwr trydan trwyddedig" ("*licensed electricity supplier*") yw deiliad trwydded drydan berthnasol;

ystyr "trwydded drydan berthnasol" ("*relevant electricity licence*") yw trwydded o dan adran 6(1)(d) o Ddeddf Trydan 1989.

*Gwasanaethau post*

5 Yn yr Atodlen hon ystyr "corff di-elw" yw person neu gorff arall—

(a) nad yw wedi ei gyfansoddi at ddibenion gwneud elw, neu

(b) y mae'n ofynnol iddo (ar ôl iddo dalu alldaliadau) gymhwyso'r cyfan o'i incwm, ac unrhyw gyfalaf y mae'n ei wario, at ddibenion elusennol neu gyhoeddus.

*Rheilffyrdd*

6 Yn yr Atodlen hon mae'r ymadrodd "gwasanaethau rheilffyrdd i deithwyr" yn cynnwys gwasanaethau i deithwyr a ddarperir ar reilffyrdd trên bach neu reilffyrdd dreftadaeth (ond nid yw wedi ei gyfyngu iddynt).

*Gwasanaethau cysylltiedig*

7 Yn yr Atodlen hon nid yw'r cyfeiriadau at "wasanaethau cysylltiedig" yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir mewn siopau, onid yw'r gwasanaethau hynny—

(a) yn wasanaethau cownteri swyddfa'r post, neu

(b) yn wasanaethau gwerthu tocynnau neu ddarparu amserlenni ar gyfer gwasanaethau bysiau neu wasanaethau rheilffyrdd.

## ATODLEN 9

(*a gyflwynwyd gan adran 42*)

## GWEITHGAREDDAU Y MAE'N RHAID PENNU SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU MEWN PERTHYNAS Â HWY

Dyma'r gweithgareddau y cyfeirir atynt yn adran 42(2)—

gohebiaeth;

galwadau ffôn;

llinellau cymorth a chanolfannau galwadau;

cyfarfodydd personol;

cyfarfodydd cyhoeddus;

cyhoeddusrwydd a hysbysebu;
arddangosfeydd cyhoeddus;
cyhoeddiadau;
ffurflenni;
gwefannau a gwasanaethau ar-lein;
arwyddion;
derbyn ymwelwyr;
hysbysiadau swyddogol;
dyfarnu grantiau;
dyfarnu contractau;
codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael.

## ATODLEN 10

(*cyflwynwyd gan adran 71*)

## YMCHWILIAD Y COMISIYNYDD I FETHIANT I GYDYMFFURFIO Â SAFONAU ETC

### **RHAN 1**

### CYFFREDINOL

*Cyflwyniad*

1 Mae'r Atodlen hon yn gymwys i ymchwiliadau o dan adran 71.

*Cylch gorchwyl*

2 (1) Cyn cynnal ymchwiliad, rhaid i'r Comisiynydd baratoi cylch gorchwyl yr ymchwiliad.

(2) Rhaid i'r cylch gorchwyl bennu—

(a) y person yr ymchwilir iddo ("D"),

(b) y methiant a amheuir i gydymffurfio â gofyniad perthnasol.

(3) Cyn setlo'r cylch gorchwyl, rhaid i'r Comisiynydd—

(a) rhoi hysbysiad am y cylch gorchwyl arfaethedig—

(i) i D, a

(ii) i unrhyw berson arall a chanddo fuddiant,

(b) rhoi cyfle i bob person y rhoddir hysbysiad iddo ynghylch y cylch gorchwyl arfaethedig i wneud sylwadau ynghylch y cylch gorchwyl arfaethedig, ac

(c) ystyried unrhyw sylwadau a wneir.

(4) Ar ôl setlo'r cylch gorchwyl (ac yntau wedi cydymffurfio ag is-baragraff (3)), rhaid i'r Comisiynydd—

(a) cyhoeddi cylch gorchwyl yr ymchwiliad mewn modd sy'n debygol, yn nhyb y Comisiynydd, o ddwyn yr ymchwiliad i sylw personau y mae a wnelo'r ymchwiliad â hwy neu bersonau sy'n debygol o fod yn bersonau a chanddynt fuddiant ynddo, a

(b) hysbysu'r canlynol am y cylch gorchwyl—

(i) D, a

(ii) unrhyw berson arall a chanddo fuddiant.

(5) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw newid yn y cylch gorchwyl fel y byddai'r paragraff yn gymwys pe byddai'r newid yn y cylch gorchwyl yn gyfystyr â pharatoi'r cylch gorchwyl hwnnw.

*Sylwadau*

3 (1) Rhaid i'r Comisiynydd wneud trefniadau ar gyfer rhoi cyfle i bersonau i wneud sylwadau mewn perthynas ag ymchwiliadau.

(2) Rhaid i'r trefniadau roi cyfle i'r personau canlynol i wneud sylwadau yn ystod ymchwiliad—

(a) D, a

(b) unrhyw berson arall a chanddo fuddiant.

(3) Caiff trefniadau o dan y paragraff hwn gynnwys, ymhlith pethau eraill, drefniadau ar gyfer sylwadau llafar.

4 (1) Rhaid i'r Comisiynydd ystyried sylwadau a wneir mewn perthynas ag ymchwiliad—

(a) gan D, neu

(b) gan gynghorydd cyfreithiol sy'n gweithredu ar ran D.

(2) Rhaid i'r Comisiynydd ystyried sylwadau a wneir mewn perthynas ag ymchwiliad gan unrhyw berson arall onid yw'n briodol, yn nhyb y Comisiynydd, i wrthod gwneud hynny.

(3) Os yw'r Comisiynydd yn gwrthod ystyried sylwadau a wneir mewn perthynas ag ymchwiliad, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig am y canlynol i'r person a wnaeth y sylwadau—

(a) y penderfyniad i wrthod ystyried y sylwadau, a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

(4) Yn y paragraff hwn ystyr "cynghorydd cyfreithiol" yw—

(a) person sydd, at ddibenion Deddf y Gwasanaethau Cyfreithiol 2007, yn berson awdurdodedig, neu'n gyfreithiwr Ewropeaidd sy'n berson esempt yn rhinwedd paragraff 7 o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno, mewn perthynas â gweithgaredd sy'n golygu arfer hawl i ymddangos mewn achos neu ymladd achos (o fewn ystyr y Ddeddf honno), neu

(b) adfocad neu gyfreithiwr yn yr Alban.

## RHAN 2

### GWYBODAETH, DOGFENNAU A THYSTIOLAETH LAFAR

*Hysbysiadau tystiolaeth*

5 (1) Yn ystod ymchwiliad, caiff y Comisiynydd roi hysbysiad tystiolaeth i berson (A).

(2) Yn y Mesur hwn, ystyr "hysbysiad tystiolaeth" yw hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i A wneud un neu ragor o'r canlynol—

(a) darparu gwybodaeth sydd ym meddiant A;

(b) cyflwyno dogfennau sydd ym meddiant A;
(c) rhoi tystiolaeth lafar.

(3) Caiff hysbysiad o dan y paragraff hwn gynnwys darpariaeth ynghylch—
(a) y ffurf ar wybodaeth, ar ddogfennau neu ar dystiolaeth;
(b) amseru unrhyw beth sydd i'w wneud yn unol â'r hysbysiad.

(4) Ni chaniateir i hysbysiad o dan y paragraff hwn ei gwneud yn ofynnol i A wneud unrhyw beth na allai A gael ei orfodi i'w wneud mewn achos gerbron yr Uchel Lys.

(5) Rhaid i hysbysiad o dan y paragraff hwn hysbysu A—
(a) beth fydd y canlyniadau os na fydd A yn cydymffurfio â'r hysbysiad; a
(b) am yr hawl i apelio o dan baragraff 9.

6 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os bydd person (B), yn ystod ymchwiliad—
(a) yn darparu gwybodaeth,
(b) yn cyflwyno dogfennau, neu
(c) yn rhoi tystiolaeth lafar.

(2) Caiff y Comisiynydd, os gwêl yn dda, dalu i B—
(a) symiau mewn cysylltiad â threuliau a dynnwyd yn briodol gan B, a
(b) lwfansau yn iawndal am i B golli amser.

(3) Mae unrhyw daliad i B i'w wneud—
(a) yn unol â graddfeydd y caniateir eu pennu gan y Comisiynydd, a
(b) yn ddarostyngedig i amodau y caniateir eu pennu gan y Comisiynydd.

*Cyfrinachedd etc*

7 O ran hysbysiad o dan baragraff 5—
(a) ni chaniateir i'r hysbysiad ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth y gwaherddir i'r person ei datgelu yn rhinwedd deddfiad, a
(b) ni chaniateir i'r hysbysiad ei gwneud yn ofynnol i berson wneud unrhyw beth na allai'r person hwnnw gael ei orfodi i'w wneud mewn achos gerbron yr Uchel Lys.

8 (1) Rhaid i A ddiystyru hysbysiad a roddir o dan baragraff 5, a rhaid iddo hysbysu'r Comisiynydd fod A yn ei ddiystyru, i'r graddau y mae A o'r farn y byddai'n ofynnol i A—
(a) datgelu gwybodaeth sensitif o fewn ystyr paragraff 4 o Atodlen 3 i Ddeddf y Gwasanaethau Cudd-wybodaeth 1994 (Y Pwyllgor Cudd-wybodaeth a Diogelwch),
(b) datgelu gwybodaeth a allai arwain at wybod pwy yw cyflogai neu asiant gwasanaeth cudd-wybodaeth (ac eithrio un y mae eisoes yn hysbys i'r Comisiynydd pwy ydyw),
(c) datgelu gwybodaeth a allai ddarparu manylion prosesau a ddefnyddir i recriwtio, dewis neu hyfforddi cyflogeion neu asiantau gwasanaeth cudd-wybodaeth,
(d) datgelu gwybodaeth a allai ddarparu manylion gwybodaeth sy'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o baragraffau (a) i (c) neu na ellir yn ymarferol eu gwahanu oddi wrth yr wybodaeth honno, neu

(e) datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â gwasanaeth cudd-wybodaeth ac a fyddai'n niweidiol i fuddiannau diogelwch gwladol.

(2) Yn is-baragraff (1) ystyr "gwasanaeth cudd-wybodaeth" yw—

(a) y Gwasanaeth Diogelwch,

(b) y Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Cyfrinachol, ac

(c) Pencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth.

(3) Os bydd A yn hysbysu'r Comisiynydd o dan is-baragraff (1) uchod—

(a) nid yw paragraffau 9 a 10 yn gymwys mewn perthynas â'r rhan honno o'r hysbysiad o dan baragraff 5 y mae'r hysbysiad o dan is-baragraff (1) uchod yn ymwneud â hi,

(b) caiff y Comisiynydd wneud cais i'r tribiwnlys a sefydlwyd gan adran 65 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person gymryd y camau y gellir eu pennu yn y gorchymyn i gydymffurfio â'r hysbysiad,

(c) bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf honno yn gymwys mewn perthynas ag achosion o dan y paragraff hwn fel y maent yn gymwys mewn perthynas ag achosion o dan y Ddeddf honno (gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol)—

(i) adran 67(7), (8) a (10) i (12) (dyfarniad),

(ii) adran 68 (gweithdrefn), a

(iii) adran 69 (rheolau), a

(d) rhaid i'r tribiwnlys a sefydlwyd gan adran 65 o'r Ddeddf honno ddyfarnu achosion o dan y paragraff hwn drwy ystyried barn A yn unol â'r egwyddorion a gâi eu cymhwyso gan lys ar gais am adolygiad barnwrol ar roi'r hysbysiad.

(4) Os daw gwybodaeth neu ddogfennau i law'r Comisiynydd oddi wrth wasanaeth cudd-wybodaeth neu'n ymwneud â gwasanaeth cudd-wybodaeth mewn ymateb i hysbysiad o dan baragraff 5, rhaid i'r Comisiynydd storio a defnyddio'r wybodaeth neu'r dogfennau'n unol ag unrhyw drefniadau a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

*Apelau*

9 Caiff A wneud cais i'r Tribiwnlys i ddileu'r hysbysiad o dan baragraff 5 ar y sail bod gofyniad a osodir gan yr hysbysiad—

(a) yn ddiangen o ystyried pwrpas yr ymchwiliad, neu

(b) yn afresymol neu'n anghymesur mewn modd arall.

10 Caiff A wneud cais i'r Tribiwnlys i ddileu'r hysbysiad o dan baragraff 5 ar y sail bod y gofyniad a osodir gan yr hysbysiad yn annymunol am resymau diogelwch gwladol, ac eithrio am y rheswm y byddai'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth o'r math y mae paragraff 8(1) yn gymwys iddo.

*Gorfodi*

11 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os yw'r Comisiynydd o'r farn bod A—

(a) wedi methu heb esgus rhesymol â chydymffurfio â hysbysiad o dan baragraff 5, neu

(b) yn debygol o fethu heb esgus rhesymol â chydymffurfio â hysbysiad o dan baragraff 5.

(2) Caiff y Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i A gymryd y camau y gellir eu pennu yn y gorchymyn i gydymffurfio â'r hysbysiad.

## RHAN 3

### PŴER I FYND I MEWN AC I ARCHWILIO

*Pŵer i fynd i mewn ac i archwilio*

12 (1) Caiff y Comisiynydd, neu unrhyw berson a awdurdodir gan y Comisiynydd, fynd i mewn i fangre a'i harchwilio os bydd mynd i mewn ac archwilio'n angenrheidiol at ddibenion ymchwiliad yn nhyb y Comisiynydd neu'r person awdurdodedig.

(2) Ond mae hynny'n ddarostyngedig i is-baragraffau (3) a (4).

(3) Nid yw'r paragraff hwn yn awdurdodi mynd i mewn—

(a) i annedd, neu

(b) i fangre nad yw o dan reolaeth y person yr ymchwilir iddo.

(4) Nid yw'r paragraff hwn yn awdurdodi mynd i mewn i fangre ar adeg benodol os yw'n afresymol mynd i mewn ar yr adeg honno.

## ATODLEN 11

(*a gyflwynwyd gan adran 120*)

### TRIBIWNLYS Y GYMRAEG

## RHAN 1

### NIFER AELODAU'R TRIBIWNLYS

*Aelodau wedi ymgymhwyso yn y gyfraith*

1 (1) Rhaid i Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd ddyfarnu nifer yr aelodau sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith y mae'r Tribiwnlys i'w cael.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Llywydd cyn pennu'r nifer hwnnw.

(3) I'r graddau y mae'n ymarferol gwneud hynny, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod nifer y personau sy'n gwasanaethu fel aelodau o'r Tribiwnlys ac sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith yn hafal i'r nifer a bennir o dan y paragraff hwn.

*Aelodau lleyg*

2 (1) Rhaid i Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd bennu nifer yr aelodau lleyg y mae'r Tribiwnlys i'w cael.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Llywydd cyn pennu'r nifer hwnnw.

(3) I'r graddau y mae'n ymarferol gwneud hynny, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod nifer y personau sy'n gwasanaethu fel aelodau lleyg o'r Tribiwnlys yn hafal i'r nifer a bennir o dan y paragraff hwn.

## RHAN 2

## PENODI

*Y Llywydd*

3 (1) Dim ond os yw'r person yn bodloni'r canlynol y caiff Gweinidogion Cymru benodi person yn Llywydd—

(a) yr amod cymhwystra penodiad barnwrol ar sail 10 mlynedd, a

(b) unrhyw amodau eraill sy'n gymwys i'r penodiad ac a bennir yn y rheoliadau penodi.

(2) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru benodi person yn Llywydd os yw'r person—

(a) wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Tribiwnlys ar sail cyflogaeth neu anaddasrwydd, neu

(b) wedi ei anghymhwyso rhag ei benodi'n Llywydd ar sail oedran, penodiad blaenorol neu ddiswyddiad blaenorol.

(3) Mae Rhan 2 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 yn gymwys ar gyfer dyfarnu a yw person yn bodloni'r amod cymhwystra penodiad barnwrol ar sail 10 mlynedd fel pe bai'r paragraff hwn yn ddarpariaeth statudol (o fewn ystyr adran 50 o'r Ddeddf honno).

*Aelodau wedi ymgymhwyso yn y gyfraith*

4 (1) Dim ond os yw person yn bodloni'r canlynol y caiff Gweinidogion Cymru benodi person yn aelod wedi ymgymhwyso yn y gyfraith—

(a) yr amod cymhwystra penodiad barnwrol ar sail 5 mlynedd,

(b) unrhyw amodau eraill sy'n gymwys i'r penodiad ac a bennir yn y rheoliadau penodi.

(2) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru benodi person yn aelod wedi ymgymhwyso yn y gyfraith os yw'r person—

(a) wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Tribiwnlys ar sail cyflogaeth neu anaddasrwydd, neu

(b) wedi ei anghymhwyso rhag ei benodi yn aelod wedi ymgymhwyso yn y gyfraith ar sail oedran, penodiad blaenorol neu ddiswyddiad blaenorol.

(3) Mae Rhan 2 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 yn gymwys ar gyfer dyfarnu a yw person yn bodloni'r amod cymhwystra penodiad barnwrol ar sail 5 mlynedd fel pe bai'r paragraff hwn yn ddarpariaeth statudol (o fewn ystyr adran 50 o'r Ddeddf honno).

*Aelodau lleyg*

5 (1) Dim ond os yw person yn bodloni unrhyw amodau sy'n gymwys i'r penodiad a bennir mewn rheoliadau penodi y caiff Gweinidogion Cymru benodi person yn aelod lleyg.

(2) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru benodi person yn aelod lleyg—

(a) os yw'r person wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Tribiwnlys ar sail cyflogaeth neu anaddasrwydd,

(b) os yw'r person wedi ei anghymhwyso rhag ei benodi'n aelod lleyg ar sail oedran, penodiad blaenorol neu ddiswyddiad blaenorol, neu

(c) os gellid penodi'r person yn aelod o'r Tribiwnlys sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith.

*Tâl cydnabyddiaeth etc*

6 (1) Caiff Gweinidogion Cymru dalu tâl cydnabyddiaeth i aelodau'r Tribiwnlys.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru dalu lwfansau (gan gynnwys lwfansau teithio a lwfansau cynhaliaeth, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) ac arian rhodd i aelodau'r Tribiwnlys.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru dalu—

(a) pensiynau i bersonau a fu'n aelodau o'r Tribiwnlys, neu mewn cysylltiad â hwy, a

(b) symiau ar gyfer darparu pensiynau, neu tuag at ddarparu pensiynau, i bersonau a fu'n aelodau o'r Tribiwnlys, neu mewn cysylltiad â hwy.

*Telerau penodi*

7 (1) Mae aelod o'r Tribiwnlys yn dal ei swydd yn ddarostyngedig i delerau ei benodiad.

(2) Ond mae hynny'n ddarostyngedig i ddarpariaethau eraill yr Atodlen hon.

*Cyfnod y penodiad*

8 (1) Mae person a benodir yn aelod o'r Tribiwnlys yn aelod (yn rhinwedd y penodiad hwnnw) am 5 mlynedd.

(2) Ond, os yw'n angenrheidiol neu'n hwylus yn nhyb Gweinidogion Cymru, caiff Gweinidogion Cymru benodi person yn aelod wedi ymgymhwyso yn y gyfraith neu'n aelod lleyg o'r Tribiwnlys am gyfnod sy'n llai na 5 mlynedd.

(3) Mae'r paragraff hwn yn ddarostyngedig i Ran 3 o'r Atodlen hon.

*Rheoliadau penodi*

9 (1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch penodi aelodau'r Tribiwnlys ("rheoliadau penodi").

(2) Caiff rheoliadau penodi, ymysg pethau eraill, wneud darpariaeth ynghylch unrhyw un neu ragor o'r materion canlynol—

(a) yr egwyddorion i'w dilyn wrth wneud unrhyw benodiad i'r Tribiwnlys;

(b) gwybodaeth o'r Gymraeg a hyfedredd ynddi y mae'n rhaid i aelodau'r Tribiwnlys feddu arnynt.

(3) Caiff rheoliadau penodi, ymysg pethau eraill—

(a) cymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw god ymarfer sy'n ymwneud â phenodiadau i gyrff cyhoeddus, neu

(b) gwneud darpariaeth arall sy'n ymwneud ag unrhyw god o'r fath.

(4) Caiff rheoliadau penodi, ymysg pethau eraill, roi swyddogaethau i Weinidogion Cymru (yn ogystal ag i unrhyw berson arall), gan gynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud ag arfer disgresiwn.

## RHAN 3

### TERFYNU PENODIAD

*Ymddiswyddo*

10 (1) Caiff y Llywydd ymddiswyddo o'r Tribiwnlys os yw'n rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'i fwriad i wneud hynny i Weinidogion Cymru heb fod yn llai na 3 mis cyn ymddiswyddo.

(2) Caiff aelod wedi ymgymhwyso yn y gyfraith neu aelod lleyg o'r Tribiwnlys ymddiswyddo o'r Tribiwnlys os yw'n rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'i fwriad i wneud hynny i Weinidogion Cymru heb fod yn llai na 2 fis cyn ymddiswyddo.

*Anghymhwyso rhag bod yn aelod*

11 Mae person yn peidio â bod yn aelod o'r Tribiwnlys os yw'r person yn cael ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Tribiwnlys ar sail cyflogaeth neu anaddasrwydd.

*Diswyddo*

12 (1) Caiff Gweinidogion Cymru ddiswyddo aelod o'r Tribiwnlys os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

(a) nad yw'r person hwnnw'n ffit i barhau fel aelod o'r Tribiwnlys, neu

(b) nad yw'r person hwnnw'n gallu neu'n fodlon arfer ei ddyletswyddau fel aelod o'r Tribiwnlys.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Llywydd cyn diswyddo unrhyw aelod arall o'r Tribiwnlys.

## RHAN 4

### ANGHYMHWYSO RHAG BOD YN AELOD NEU RHAG CAEL EI BENODI

*Anghymhwyso rhag bod yn aelod: cyflogaeth*

13 (1) Mae person yn cael ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Tribiwnlys ar sail cyflogaeth—

(a) os yw'r person yn Aelod Seneddol;

(b) os yw'r person yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

(c) os yw'r person yn aelod o staff Llywodraeth Cynulliad Cymru;

(d) os yw'r person yn aelod o staff Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(e) os ef yw'r Comisiynydd;

(f) os ef yw'r Dirprwy Gomisiynydd;

(g) os yw'r person yn unrhyw aelod arall o staff y Comisiynydd; neu

(h) os yw'r person yn briod â pherson, neu'n bartner sifil i berson, sy'n dod o fewn paragraff (e), (f) neu (g).

*Anghymhwyso rhag bod yn aelod: anaddasrwydd*

14 (1) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Tribiwnlys ar sail anaddasrwydd os yw'r person—

(a) wedi ei ddyfarnu'n fethdalwr ac yn parhau i fod yn fethdalwr;

(b) wedi cael gorchymyn rhyddhad o ddyled (o fewn ystyr Rhan VIIA o Ddeddf Ansolfedd 1986), a bod y cyfnod moratoriwm o dan y gorchymyn hwnnw'n parhau;

(c) wedi gwneud trefniant gyda'i gredydwyr a bod y trefniant yn parhau i fod mewn grym;

(d) wedi ei gollfarnu yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel neu ar Ynys Manaw o unrhyw dramgwydd a'i fod wedi cael dedfryd o garchar (boed yn ataliedig neu beidio) am gyfnod heb fod yn llai na thri mis heb gael yr opsiwn o ddirwy;

(e) wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o gyngor bwrdeistref sirol neu gyngor sir yng Nghymru; neu

(f) wedi ei anghymhwyso rhag bod yn gyfarwyddwr cwmni.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)(a) mae person yn parhau i fod yn fethdalwr—

(a) hyd oni chaiff y person ei ryddhau o fethdaliad, neu

(b) hyd oni chaiff y gorchymyn methdalu a wnaed yn erbyn y person hwnnw ei ddiddymu.

(3) At ddibenion is-baragraff (1)(c) mae trefniant person gyda'i gredydwyr yn parhau i fod mewn grym—

(a) hyd onid yw'r person yn talu ei ddyledion yn llawn, neu

(b) os yw'n hwyrach, hyd ddiwedd y cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y mae telerau'r trefniant yn cael eu cyflawni.

(4) Os bydd y cwestiwn a yw person wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Tribiwnlys ar sail anaddasrwydd yn codi mewn perthynas â phenodi person yn aelod o'r Tribiwnlys, mae unrhyw gollfarn a gafodd y person hwnnw fwy na phum mlynedd cyn dyddiad y penodiad i'w diystyru.

*Anghymhwyso rhag penodi: oedran*

15 Mae person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei benodi'n Llywydd neu'n aelod wedi ymgymhwyso yn y gyfraith neu'n aelod lleyg o'r Tribiwnlys os yw'r person eisoes wedi cyrraedd 70 oed ar ddyddiad y penodiad.

*Anghymhwyso rhag penodi: penodiad blaenorol*

16 (1) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei benodi'n Llywydd ar sail penodiad blaenorol os yw'r person eisoes wedi ei benodi'n Llywydd am gyfnod o ddeng mlynedd neu fwy (boed mewn penodiadau olynol neu heb fod yn olynol).

(2) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei benodi'n aelod o'r Tribiwnlys wedi ymgymhwyso yn y gyfraith ar sail penodiad blaenorol os yw'r person eisoes wedi ei

benodi'n aelod wedi ymgymhwyso yn y gyfraith am gyfnod o ddeng mlynedd neu fwy (boed mewn penodiadau olynol neu heb fod yn olynol).

(3) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei benodi'n aelod lleyg ar sail penodiad blaenorol os yw'r person eisoes wedi ei benodi'n aelod lleyg am gyfnod o ddeng mlynedd neu fwy (boed mewn penodiadau olynol neu heb fod yn olynol).

*Anghymhwyso rhag penodi: diswyddiad blaenorol o swydd*

17 Mae person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei benodi'n Llywydd neu'n aelod wedi ymgymhwyso yn y gyfraith neu'n aelod lleyg o'r Tribiwnlys ar sail diswyddiad blaenorol os yw Gweinidogion Cymru wedi diswyddo'r person o'r Tribiwnlys yn flaenorol o dan baragraff 12.

## RHAN 5

## CYFFREDINOL

*Dehongli*

18 Yn yr Atodlen hon ystyr “rheoliadau penodi” yw rheoliadau a wneir o dan baragraff 9.

## ATODLEN 12

(*a gyflwynwyd gan adran 146*)

## DIDDYMU BWRDD YR IAITH GYMRAEG: DARPARIAETH ARALL

*Staff y Bwrdd*

1 (1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo staff y Bwrdd—

(a) i'r Comisiynydd, neu

(b) i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

(2) O ran contract cyflogaeth person a drosglwyddir yn rhinwedd y paragraff hwn—

(a) nid yw'n cael ei derfynu gan y trosglwyddo, a

(b) mae'n cael effaith o'r dyddiad trosglwyddo fel pe byddai wedi ei wneud yn wreiddiol rhwng y person a drosglwyddir a'r trosglwyddai.

(3) Heb ragfarnu is-baragraff (2)—

(a) os trosglwyddir person i'w gyflogi gan y Comisiynydd—

(i) trosglwyddir holl hawliau, pwerau, dyletswyddau a rhwymedigaethau'r Bwrdd o dan gontract cyflogaeth y person ac mewn cysylltiad â'i gontract i'r Comisiynydd ar y dyddiad trosglwyddo, a

(ii) mae unrhyw beth a wnaed cyn y dyddiad hwnnw gan y Bwrdd neu mewn perthynas ag ef mewn cysylltiad â'r person neu â'r contract i'w drin o'r dyddiad hwnnw ymlaen fel pe byddai wedi ei wneud gan y Comisiynydd neu mewn perthynas ag ef,

(b) os trosglwyddir person i'w gyflogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru—

(i) trosglwyddir holl hawliau, pwerau, dyletswyddau a rhwymedigaethau'r Bwrdd o dan gontract cyflogaeth y person ac mewn cysylltiad â'i gontract i Weinidogion Cymru ar y dyddiad trosglwyddo, a

(ii) mae unrhyw beth a wnaed cyn y dyddiad hwnnw gan y Bwrdd neu mewn perthynas ag ef mewn cysylltiad â'r person neu â'r contract i'w drin o'r dyddiad hwnnw ymlaen fel pe byddai wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru neu mewn perthynas â hwy.

(4) Os trosglwyddir person yn rhinwedd y paragraff hwn, mae cyfnod cyflogaeth y person hwnnw gyda'r Bwrdd yn union cyn y dyddiad trosglwyddo—

(a) yn cyfrif fel cyfnod o gyflogaeth fel aelod o staff y trosglwyddai, a

(b) i'w drin fel cyflogaeth ddi-dor fel aelod o staff y trosglwyddai at ddibenion adran 218(3) o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996.

(5) Ni throsglwyddir contract cyflogaeth (neu'r hawliau, pwerau, dyletswyddau a'r rhwymedigaethau oddi tano neu mewn cysylltiad ag ef) o dan y paragraff hwn os yw'r cyflogai'n gwrthwynebu trosglwyddo ac yn hysbysu'r Bwrdd neu'r trosglwyddai ei fod yn gwrthwynebu.

(6) Os yw'r cyflogai'n hysbysu'r Bwrdd neu'r trosglwyddai ei fod yn gwrthwynebu o dan is-baragraff (5)—

(a) terfynir y contract cyflogaeth yn union cyn y dyddiad pryd y byddai'r trosglwyddo'n digwydd, ond

(b) nid yw'r cyflogai'n cael ei drin, at unrhyw bwrpas, fel pe bai wedi ei ddiswyddo gan y Bwrdd.

(7) Nid oes dim yn y paragraff hwn yn effeithio ar unrhyw hawl sydd gan berson a drosglwyddir i derfynu ei gontract cyflogaeth os gwneir newid sylweddol (ac eithrio newid cyflogwr) sy'n niweidiol i'r person o ran ei amodau gwaith.

(8) Caniateir gwneud darpariaeth o dan is-baragraff (1) mewn cysylltiad â phob person a gyflogir gan y Bwrdd, unrhyw ddosbarth o berson neu berson o unrhyw ddisgrifiad, neu unrhyw berson unigol.

(9) Yn y paragraff hwn mae "trosglwyddai" yn cyfeirio at y cyflogwr y trosglwyddir neu y trosglwyddid y person o dan y paragraff hwn i'w gyflogi ganddo.

*Eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Bwrdd*

2 (1) Heb ragfarnu paragraff 1, caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud darpariaeth ynghylch eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Bwrdd.

(2) Mae'r pŵer a roddir gan is-baragraff (1) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny—

(a) trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau—

(i) i'r Comisiynydd, neu

(ii) i Weinidogion Cymru;

(b) trosglwyddo eiddo, hawliau neu rwymedigaethau'r Bwrdd i gael effaith yn ddarostyngedig i eithriadau neu neilltuadau;

(c) trosglwyddo eiddo, hawliau neu rwymedigaethau i gael effaith er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth (beth bynnag ei natur) a fyddai fel arall yn atal neu'n cyfyngu ar y trosglwyddo;

(d) creu buddiannau yn eiddo'r Bwrdd neu eiddo a drosglwyddir oddi wrth y Bwrdd, neu hawliau dros yr eiddo hwnnw;

(e) creu hawliau a rhwymedigaethau—

(i) rhwng y Bwrdd a'r Comisiynydd, neu

(ii) rhwng y Bwrdd a Gweinidogion Cymru.

(3) Yn y paragraff hwn—

mae "eiddo" ("*property*") yn cynnwys eiddo a leolir y tu allan i'r Deyrnas Unedig;

mae "hawliau a rhwymedigaethau" ("*rights and liabilities*") yn cynnwys hawliau a rhwymedigaethau sy'n deillio mewn modd arall ac eithrio o dan gyfraith Cymru a Lloegr.

*Addasu Deddf 1993 mewn perthynas a swyddogaethau a drosglwyddir i Weinidogion Cymru*

3 Os trosglwyddir y swyddogaethau a roddwyd i'r Bwrdd gan adran 3 o Ddeddf 1993 i Weinidogion Cymru (boed yn lle trosglwyddo'r swyddogaethau i'r Comisiynydd neu'n ychwanegol at wneud hynny), nid yw darpariaethau canlynol Deddf 1993 yn gymwys i'r swyddogaethau yn y modd y maent yn arferadwy gan Weinidogion Cymru—

(a) adran 3(2)(a);

(b) adran 3(3) a (4);

(c) adran 4(1).

*Cyfeiriadau at y Bwrdd*

4 Mae unrhyw gyfeiriad at y Bwrdd yn Neddf 1993 i'w ddehongli—

(a) i'r graddau y mae'n ymwneud ag un o swyddogaethau'r Bwrdd a drosglwyddir i'r Comisiynydd, fel pe bai'n gyfeiriad, neu'n cynnwys cyfeiriad, at y Comisiynydd; a

(b) i'r graddau y mae'n ymwneud ag un o swyddogaethau'r Bwrdd a drosglwyddir i Weinidogion Cymru, fel pe bai'n gyfeiriad, neu'n cynnwys cyfeiriad, at Weinidogion Cymru.

*Parhad achosion cyfreithiol, dilysrwydd gweithredoedd etc*

5 (1) Caiff unrhyw beth (gan gynnwys achosion cyfreithiol) sy'n ymwneud ag—

(a) swyddogaeth a drosglwyddwyd, neu

(b) eiddo, hawliau neu rwymedigaethau a drosglwyddwyd,

ac sydd yn y broses o gael ei wneud gan y Bwrdd neu mewn perthynas ag ef yn union cyn adeg y trosglwyddo, ei barhau gan y trosglwyddai neu mewn perthynas ag ef.

(2) Mae unrhyw beth a wnaed gan y Bwrdd neu mewn perthynas ag ef at y dibenion canlynol, neu mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) swyddogaeth a drosglwyddwyd, neu

(b) eiddo, hawliau neu rwymedigaethau a drosglwyddwyd,

ac sy'n effeithiol yn union cyn adeg y trosglwyddo, yn effeithiol ar ôl y trosglwyddo fel pe bai wedi ei wneud gan y trosglwyddai neu mewn perthynas ag ef.

(3) Mewn unrhyw offerynnau, contractau neu achosion cyfreithiol sy'n ymwneud ag—

(a) swyddogaeth a drosglwyddwyd, neu

(b) eiddo, hawliau neu rwymedigaethau a drosglwyddwyd,

ac sy'n cael eu gwneud neu eu cychwyn cyn adeg y trosglwyddo, rhodder y trosglwyddai yn lle'r Bwrdd.

(4) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â hawliau a rhwymedigaethau o dan gontract cyflogaeth aelod o staff y Bwrdd.

(5) Yn y paragraff hwn—

ystyr “adeg y trosglwyddo” (“*transfer time*”), mewn perthynas â swyddogaeth a drosglwyddwyd, neu eiddo, hawliau neu rwymedigaethau a drosglwyddwyd, yw adeg trosglwyddo'r swyddogaeth, neu'r eiddo, neu'r hawliau neu'r rhwymedigaethau;

ystyr “eiddo, hawliau neu rwymedigaethau a drosglwyddwyd” (“*transferred property, rights or liabilities*”) yw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau'r Bwrdd a drosglwyddwyd i'r Comisiynydd neu i Weinidogion Cymru o dan Mesur hwn;

ystyr “swyddogaeth a drosglwyddwyd” (“*transferred function*”) yw un o swyddogaethau'r Bwrdd a drosglwyddwyd i'r Comisiynydd neu i Weinidogion Cymru o dan Mesur hwn.

*Dehongli*

6 Yn yr Atodlen hon—

mae i “y Bwrdd” (“*Board*”) yr ystyr a roddir yn adran 147(5);

mae i “Deddf 1993” (“*1993 Act*”) yr ystyr a roddir yn adran 147(5).